Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr

## Yr ymateb i'r ymgynghoriad

Mai 2022

CP 664

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr

## Yr ymateb i'r ymgynghoriad

Cyflwynwyd i Senedd y Deyrnas Unedig
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Mai 2022

CP 664

**© Hawlfraint y Goron 2022**

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom i'r cyfeiriad canlynol: victimsbillconsultation@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-3324-6

E02747295 05/22

Argraffwyd ar bapur sy’n cynnwys o leiaf 70% o ffeibrau wedi’u hailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

**Rhagair** **3**

**Cyflwyniad** **6**

Y stori hyd yma 6

Yr ymgynghoriad 9

Y camau rydym yn ymrwymo i'w cymryd 11

Gweinyddiaethau datganoledig 13

Hygyrchedd 13

**Pennod 1 – Bodloni disgwyliadau dioddefwyr** **14**

Ymgorffori'r Cod Dioddefwyr yn y gyfraith 15

Gwella'r hyn y gall dioddefwyr ei ddisgwyl gan y system cyfiawnder troseddol 19

Materion eraill a godwyd ynghylch disgwyliadau dioddefwyr 26

**Pennod 2 – Gwella goruchwyliaeth ac ysgogi gwell perfformiad** **30**

Gwella strwythurau a mecanweithiau goruchwylio, a gwella'r ffordd mae dioddefwyr yn cael eu trin 31

Cynnwys llais dioddefwyr yn y broses cyfiawnder troseddol 42

Symleiddio prosesau cwyno, a gwneud data cwynion yn fwy tryloyw 44

**Pennod 3 – Cynorthwyo dioddefwyr troseddau** **47**

Gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr 47

Cynyddu'r Gordal Dioddefwyr 58

**Pennod 4 – Gwella'r cymorth eirioli** **61**

# Rhagair



Mae angen dewrder a chryfder aruthrol i roi gwybod am drosedd. Ond ar ôl llwyddo i fagu'r dewrder, mae lleisiau gormod o ddioddefwyr yn mynd ar goll yn y system. Mae hynny'n eu siomi, yn gwneud iddyn nhw deimlo nad ydyn nhw'n bwysig yn y broses ac, yn yr achosion mwyaf difrifol, yn gwaethygu eu dioddefaint.

Mae cynifer â thri o bob pum dioddefwr yn teimlo nad ydyn nhw'n gallu rhoi gwybod am y troseddau maen nhw wedi'u dioddef, ac mae traean yn tynnu'n ôl cyn llwyddo i erlyn a chael cyfiawnder. Dydy hynny ddim yn ddigon da.

Gwarchod dioddefwyr a gwella eu profiad a'r cymorth maen nhw'n ei gael yw fy mhrif flaenoriaeth fel Ysgrifennydd Cyfiawnder.

Mae mwy i hynny na dim ond gwneud y peth iawn. Ar lefel ymarferol, mae rhoi'r hyder i ddioddefwyr ddod ymlaen ac aros yn rhan o'r broses yn ein galluogi i ddod â mwy o droseddwyr o flaen eu gwell, i leihau troseddu, ac i wneud ein strydoedd yn fwy diogel.

Bydd ein Bil Dioddefwyr, a'r pecyn ehangach o ddiwygiadau, yn sicrhau bod buddiannau dioddefwyr wrth galon y system gyfiawnder.

Yn gyntaf, rydym yn rhoi mwy o lais i ddioddefwyr. Byddwn ni'n sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed drwy fynnu bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cwrdd â dioddefwyr cyn y gwrandawiad mewn rhai achosion a, phan fydd yn briodol, yn cyflwyno'r hawl i fod yn bresennol drwy gydol gwrandawiadau parôl, yn amodol ar amgylchiadau'r achos. Byddwn hefyd yn annog mwy o ddefnydd o Ddatganiadau Effaith ar y Gymuned, i helpu llysoedd i ddeall effaith trosedd ar y gymuned gyfan.

Yn ail, byddwn yn helpu dioddefwyr bob cam o'r ffordd, er mwyn iddyn nhw deimlo eu bod yn gallu cael y cyfiawnder maen nhw'n ei haeddu, a gallu dechrau ailadeiladu eu bywyd.

Rydym yn cynyddu'r gordal dioddefwyr 20 y cant, sy'n golygu y bydd troseddwyr yn talu mwy tuag at wasanaethau cymorth hanfodol i ddioddefwyr wrth iddyn nhw wneud iawn am eu troseddau. Byddwn hefyd yn mynnu bod Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, cyrff iechyd ac awdurdodau lleol yn cydweithio wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr, gan sicrhau bod cymorth mwy cydgysylltiedig ar gael.

A byddwn ni'n gwella'r cymorth mae dioddefwyr troseddau cam-drin rhywiol a domestig yn ei gael, drwy gyflwyno diffiniad statudol o Gynghorwyr Annibynnol ar Gam-drin Domestig /

Rhywiol a chanllawiau ar eu cyfer, i godi ymwybyddiaeth o'r rolau pwysig hyn a'u gwneud yn fwy cyson.

Bydd y Strategaeth newydd ar gyfer Cyllid Dioddefwyr hefyd yn mynd i'r afael â rhwystrau rhag cyllid cynaliadwy ac yn ysgogi prosesau comisiynu cyson, er mwyn i ddioddefwyr gael y cymorth iawn ar yr adeg iawn.

Yn drydydd, rydym yn gwella tryloywder ac yn gwneud yn siŵr bod mwy o graffu'n digwydd pan fydd dioddefwyr yn cael eu siomi.

Byddwn yn ymgorffori'r Cod Dioddefwyr yn y gyfraith, a fydd yn anfon neges glir ynghylch beth y gall dioddefwyr ei ddisgwyl, a beth y dylent ei ddisgwyl, gan y system gyfiawnder. Pan na fyddan nhw'n cael y lefel honno o wasanaeth, bydd y Bil yma'n ei gwneud yn haws iddyn nhw uwchgyfeirio eu cwynion heb fod angen cysylltu â'u Haelod Seneddol lleol.

Ar yr un pryd, rydym yn paratoi'r system i weithio ar y syniad o welliant parhaus. Bydd gan asiantaethau cyfiawnder troseddol ddyletswydd i adolygu eu cydymffurfedd â'r Cod Dioddefwyr – gan ddefnyddio data ac adborth dioddefwyr i wella eu perfformiad.

Mae ein Cardiau Sgoriau Cyfiawnder Troseddol yn tynnu sylw at berfformiad mewn gwahanol rannau o'r system gyfiawnder, sy'n ein galluogi ni ac arweinwyr lleol i ddysgu o arferion gorau a'u rhannu.

Pan nad yw'r perfformiad cystal ag y dylai fod, byddwn yn gweithio gydag arolygiaethau i sicrhau bod y prosesau priodol ar waith i ddod o hyd i broblemau a'u datrys. Ac, yn hollbwysig, byddwn yn deddfu i sicrhau bod arolygiaethau cyfiawnder troseddol yn cynnal cydarolygiadau rheolaidd ar faterion dioddefwyr.

Yn yr etholiad diwethaf, fe wnaethom ymrwymo i wneud yn well o lawer ar ran dioddefwyr. Mae'r pecyn hwn yn adeiladu ar fesurau pendant sydd eisoes yn gwneud gwahaniaeth go iawn, gan gynnwys ein hymrwymiadau yn yr Adolygiad Hollgynhwysol o Dreisio.

Rydym wedi ymrwymo £440m fel isafswm ar gyfer gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion dros y tair blynedd nesaf, er mwyn i sefydliadau allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth o ansawdd uchel pan fydd angen hynny arnyn nhw fwyaf.

Yn weithredol, mae ein cynllun cenedlaethol i recordio croesholiad ymlaen llaw ar gyfer dioddefwyr troseddau rhywiol a chaethwasiaeth fodern yn dal i gael ei gyflwyno'n ddiymdroi. Mae hyn yn arbed dioddefwyr rhag y profiad brawychus o roi eu tystiolaeth yn gyhoeddus ac o dan chwyddwydr yn y llys, ac yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddan nhw'n aros yn rhan o'r broses gyfiawnder.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad hwn. Mae'ch safbwyntiau wedi bod yn allweddol i'r broses o lunio ein cynlluniau.

Ni ddylai'r un dioddefwr fyth deimlo fel ôl-ystyriaeth yn ein system cyfiawnder troseddol. Gyda'i gilydd, bydd y mesurau hyn yn ein helpu i fwrw ymlaen â'r gwaith o gadw

troseddwyr oddi ar ein strydoedd, ac yn galluogi a helpu dioddefwyr i gael y cyfiawnder maen nhw'n ei haeddu.

Dominic Raab AS

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

# Cyflwyniad

Ym mis Rhagfyr 2021, lansiodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig (y Llywodraeth) ymgynghoriad "*Sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr*", a oedd yn egluro ein bwriad i wella profiadau dioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol ar draws Cymru a Lloegr.[1] Fe ddywedom mai ein gweledigaeth oedd gweld newid mewn diwylliant fel bod profiadau dioddefwyr yn ystyriaeth ganolog yn y ffordd mae ein cymdeithas yn meddwl am droseddu ac yn ymateb i hynny, gyda phum elfen bwysig ar gyfer darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i ddioddefwyr:

1. Rhoi mwy o lais i ddioddefwyr yn y broses cyfiawnder troseddol.
2. Gwneud perfformiad asiantaethau cyfiawnder troseddol yn fwy tryloyw.
3. Sicrhau llinellau goruchwylio clir pan fydd dioddefwyr yn cael eu trin yn wael.
4. Helpu dioddefwyr i ailadeiladu eu bywyd drwy wasanaethau proffesiynol a hygyrch, a sicrhau bod troseddwyr yn talu mwy i gefnogi'r gwasanaethau hyn.
5. Sicrhau gwell adnoddau i warchod dioddefwyr ac erlyn troseddwyr.

Mae'r ymateb hwn gan y Llywodraeth yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r ymgysylltu ehangach. Mae'n amlinellu cynlluniau i gyflawni ein hymrwymiad i sicrhau bod dioddefwyr wrth galon y system cyfiawnder troseddol, drwy Fil Dioddefwyr ynghyd â phecyn ehangach o ddiwygiadau.

Rydym eisiau cael y ddeddfwriaeth bwysig yma'n iawn. Bydd y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder yn craffu ar y Bil drafft sydd wedi cael ei gyhoeddi, sy'n gyfle ychwanegol i glywed ac ystyried barn rhanddeiliaid, cyn i'r Bil gael ei gyflwyno'n ffurfiol yn Senedd y Deyrnas Unedig (y Senedd). Mae hyn, ynghyd â'r diwygiadau cysylltiedig y tu hwnt i'r ddeddfwriaeth, yn gam pwysig ymlaen i wella'r pethau sydd bwysicaf i ddioddefwyr. Bydd yn helpu dioddefwyr i fod yn hyderus bod y cymorth priodol ar gael, ac y bydd y system cyfiawnder troseddol yn eu trin yn y ffordd y dylent ddisgwyl cael eu trin os byddant yn rhoi gwybod am drosedd.

## Y stori hyd yma

Bydd y Bil Dioddefwyr a'r mesurau cysylltiedig yn rhan hanfodol o'r gwaith helaeth ar draws y Llywodraeth i sicrhau bod anghenion dioddefwyr yn cael eu blaenoriaethu drwy

1 "Sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr" (Rhagfyr 2021) https://www.gov.uk/government/consultations/delivering-justice-for-victims-a-consultation-on-improving-victims-experiences-of-the-justice-system

fuddsoddi mwy, drwy ddeddfwriaeth bwrpasol, a drwy well ffyrdd o weithio rhwng partneriaid gweithredol. Hyd yma, rydym wedi:

- **Gosod disgwyliadau clir ynghylch ansawdd y cymorth y dylai dioddefwyr ei gael** wrth ddefnyddio'r system cyfiawnder troseddol, drwy'r Strategaeth Dioddefwyr yn 2018[2] a'r Cod Dioddefwyr diwygiedig (y Cod) yn 2021.[3]
- **Cynyddu'r cyllid sydd ar gael i gynorthwyo dioddefwyr.** Ar draws y llywodraeth y llynedd, darparwyd tua £300 miliwn i gynorthwyo dioddefwyr troseddau. Byddwn yn cynyddu cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr i £185 miliwn y flwyddyn erbyn 2024/25 – 85% o gynnydd o'r cyllid craidd yn 2020/21.[4] Bydd hyn yn help i gynyddu nifer y Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a'r Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig sy'n cael eu hariannu gennym ni i dros 1,000.
- **Newid y ffordd rydym yn darparu'r cyllid hwn**. Gan gydnabod pa mor hanfodol yw cyllid cynaliadwy i'r sector cymorth i ddioddefwyr, mae cyfran sylweddol o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth bellach wedi cael ei warantu ar sail amlflwyddyn (mwy na £440 miliwn dros y tair blynedd nesaf[5]). Bydd hyn yn galluogi darparwyr gwasanaethau i gynllunio ar gyfer y dyfodol, i feithrin capasiti, ac i gryfhau eu gallu i helpu hyd yn oed mwy o ddioddefwyr.
- **Gwneud cynnydd i gyflwyno ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Adolygu Treisio** i wella pob cam o'r broses ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol, a mwy na dyblu nifer yr achosion o dreisio oedolion sy'n mynd i'r llys erbyn diwedd y Senedd hon.
- **Ymrwymo i gyflwyno un ffynhonnell o gymorth sydd ar gael bob awr o'r dydd ar gyfer dioddefwyr sydd wedi cael eu treisio ac wedi dioddef trais rhywiol** ym mis Mehefin 2022, fel rhan o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Adolygu Treisio i wella pob cam o'r broses ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol.
- **Sicrhau mwy o breifatrwydd i ddioddefwyr** drwy ddiweddaru Canllawiau Datgelu'r Twrnai Cyffredinol er mwyn amlinellu ystyriaethau clir wrth ddelio'n sensitif â gwybodaeth bersonol mewn ymchwiliadau troseddol, gan gynnwys mynediad cymesur at ddeunydd trydydd parti (fel cofnodion meddygol, addysg neu awdurdod lleol).
- **Gwella'r profiad yn y llys i ddioddefwyr**, gan gynnwys dechrau cyflwyno'r cynllun cenedlaethol i recordio croesholiad ymlaen llaw (a elwir yn "Adran 28") ar gyfer

---

2 Strategaeth Dioddefwyr (Medi 2018) https://www.gov.uk/government/publications/victims-strategy

3 Y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau yng Nghymru a Lloegr a deunyddiau ategol (Ebrill 2021) https://www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime.cy

4 "Largest funding increase in more than a decade for the justice system" – GOV.UK (Hydref 2021) https://www.gov.uk/government/news/largest-funding-increase-in-more-than-a-decade-for-justice-system

5 "Major funding boost for victims services as local criminal justice scorecards published" – GOV.UK (Mawrth 2022) https://www.gov.uk/government/news/major-funding-boost-for-victim-services-as-local-criminal-justice-scorecards-published

dioddefwyr troseddau rhywiol a chaethwasiaeth fodern, a ddechreuodd gyda Llysoedd y Goron ar Gylchdaith Gogledd-ddwyrain Lloegr ar 31 Mawrth 2022.[6]

- **Parhau i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed i ymateb i adroddiad y panel arbenigol ar niwed yn y llys teulu**, gan gynnwys lansio cynllun peilot y Llysoedd Cam-drin Domestig Integredig yng Ngogledd Cymru a Dorset. Rydym yn ystyried cymorth yn y llys teulu y tu hwnt i'r Bil Dioddefwyr, a byddwn yn cyhoeddi ymateb cyn bo hir i adroddiad y Comisiynydd Cam-drin Domestig ar y llys teulu.
- **Gwella'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr twyll** drwy weithio gyda Heddlu Dinas Llundain i ehangu'r Uned Ofal Genedlaethol i Ddioddefwyr Troseddau Economaidd. Ym mis Ebrill 2022 roedd yr Uned yn cynorthwyo 37 o heddluoedd, ac yn helpu National Trading Standards i gyflwyno'r Dull Gweithredu Amlasiantaethol ar gyfer Twyll (MAAF) i gyflymu'r broses o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau er mwyn gweld yn well beth yw anghenion pobl sydd mewn sefyllfa fregus.
- **Parhau â'n hymdrechion i ddelio â'r achosion sydd wedi cronni, a gwneud y system cyfiawnder troseddol yn fwy amserol.** Roeddem wedi cael gwared ar y cyfyngiad ar nifer y diwrnodau y gall Llys y Goron eistedd ym mlwyddyn ariannol 21/22, wedi gosod Rhwydwaith Fideo Cwmwl mewn dros 90% o ystafelloedd llys yn Llys y Goron, ac wedi ymestyn 30 o ystafelloedd llys Nightingale y tu hwnt i fis Mawrth 2022. Rydym hefyd yn buddsoddi £477 miliwn yn y system cyfiawnder troseddol dros y tair blynedd nesaf.
- **Cyflwyno deddfwriaeth newydd.** Yn Neddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno cosbau llymach ar gyfer y troseddwyr gwaethaf, gan gynnwys diddymu rhyddhau'n awtomatig hanner ffordd drwy'r ddedfryd ar gyfer carfan ychwanegol o droseddwyr treisgar a rhywiol difrifol. Rydym hefyd wedi pasio Deddf Cam-drin Domestig 2021, a fydd yn helpu i warchod dioddefwyr a dod â throseddwyr o flaen eu gwell.
- **Datblygu strategaethau allweddol i ategu newid deddfwriaethol**, gan gynnwys y Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched, y cynllun ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin domestig, a'r datganiad sefyllfa cysylltiedig ar gynorthwyo dynion sy'n ddioddefwyr, yn ogystal â'r strategaeth caethwasiaeth fodern a'r strategaeth ar iechyd menywod a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni.[7]
- **Gwella tryloywder data ar ymgysylltu â dioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol** drwy ddefnyddio cardiau sgoriau newydd sy'n mesur ymgysylltiad

---

6 Canllawiau ar yr opsiwn i recordio tystiolaeth cyn y treial ar gyfer tystion ac achwynyddion bregus (adran 28) – GOV.UK (Mai 2021) https://www.gov.uk/guidance/hmcts-services-section-28-pre-recorded-cross-examinations

7 Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched (Gorffennaf 2021) www.gov.uk/government/publications/tackling-violence-against-women-and-girls-strategy; 'Tackling Domestic Abuse Plan' (Mawrth 2022) www.gov.uk/government/publications/tackling-domestic-abuse-plan; Supporting Male Victims (Mawrth 2022) https://www.gov.uk/government/publications/supporting-male-victims

dioddefwyr ar bob cam yn y system – o gofnodi'r drosedd, i'r cyhuddiad, ac ymlaen i'r llys.[8]
- **Lansio ymgyrchoedd er mwyn deall yn well beth yw cam-drin a pha gymorth sydd ar gael i oroeswyr** drwy'r ymgyrch *Enough* am drais yn erbyn menywod a merched, ac *It Still Matters* ar wasanaethau cymorth ar gyfer cam-drin rhywiol.[9]

## Yr ymgynghoriad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros wyth wythnos, a daeth i ben ar 3 Chwefror 2022.[10] Ei nod oedd dod i ddeall profiadau dioddefwyr yn well a defnyddio arbenigedd ymarferwyr rheng flaen yn ogystal ag elusennau, sefydliadau arbenigol, melinau trafod, grwpiau ymgyrchu ac arbenigwyr o bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol, gwasanaethau iechyd a llywodraeth leol.

Roeddem wedi ymgynghori ar sut i wella'r hyn y gall dioddefwyr ei ddisgwyl yn y system cyfiawnder troseddol, gan holi am:
- ymgorffori'r Cod Dioddefwyr yn y gyfraith.
- ystyried hawliau ychwanegol i ddioddefwyr.
- gwella mecanweithiau goruchwylio asiantaethau fel bod dioddefwyr bob amser yn cael eu trin yn y ffordd maen nhw'n haeddu.

Roeddem hefyd wedi ymgynghori ar sut i wella agweddau ar wasanaethau cymorth i ddioddefwyr, gan holi am:
- gynyddu'r Gordal Dioddefwyr er mwyn gwneud i droseddwyr dalu mwy tuag at y gwasanaethau hyn.
- cryfhau'r gwaith partneriaeth a chydgysylltu er mwyn darparu gwasanaethau cymunedol mwy cydgysylltiedig.
- gwella'r gefnogaeth gan Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig.

### Dadansoddi'r ymatebion

Cawsom 602 o ymatebion i'r ymgynghoriad: daeth 431 drwy borth ar-lein yr ymgynghoriad, a daeth 171 drwy e-bost.

Roeddem wedi cynnal dadansoddiad ansoddol o'r ymatebion, gan nodi themâu allweddol a pha mor aml oedden nhw'n codi ar gyfer pob cwestiwn. Roeddem hefyd wedi cyd-drefnu

---

8 "CJS scorecards – all crime" – GOV.UK https://data.justice.gov.uk/cjs-scorecard-all-crime

9 "Enough" (Mawrth 2022) https://enough.campaign.gov.uk/; "It Still Matters" (Chwefror 2021) https://sexualabusesupport.campaign.gov.uk/?utm_campaign=it_still_matters&utm_medium=social&utm_source=twitter&utm_content=2022_launch_070222https://enough.campaign.gov.uk/

10 Cafodd 11 o unigolion a sefydliadau estyniad o hyd at 14 diwrnod, naill ai ar sail hygyrchedd neu bwysau eithriadol oherwydd y coronafeirws yn ystod y cyfnod ymgynghori

a/neu hwyluso 39 o ddigwyddiadau ymgysylltu ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheng flaen a dioddefwyr, a fu’n trafod themâu perthnasol yr ymgynghoriad.[11]

Mae’r ymateb hwn yn cynnwys crynodeb o’n dadansoddiad o’r ymatebion, yn ogystal â barn a safbwyntiau a ddaeth i’r amlwg yn y digwyddiadau ymgysylltu. Mae nifer yr ymatebwyr, yn ogystal â’r prif themâu, wedi’u nodi ar gyfer pob cwestiwn. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn sôn am nifer o syniadau a dadleuon wrth ateb pob cwestiwn, a dyna pam mae nifer yr awgrymiadau'n fwy na nifer yr ymatebwyr mewn sawl achos. Mae’r holl ganrannau yn y ddogfen hon yn cyfeirio at gyfanswm nifer yr ymatebwyr i bob cwestiwn (nid cyfanswm nifer y dadleuon/awgrymiadau a wnaed).

Mae Tabl 1 isod yn dangos y cafwyd ymatebion gan amrywiaeth eang o bartïon â buddiant, gyda bron hanner yr ymatebwyr (46%) yn dweud nad ydynt yn ymateb fel gweithwyr proffesiynol (aelodau o’r cyhoedd neu ddioddefwyr/goroeswyr).

| **Math** | **Amlder** | **%** |
|---|---:|---:|
| Dioddefwyr | 185 | 31% |
| Aelodau o'r cyhoedd | 89 | 15% |
| Academyddion | 13 | 2% |
| Staff rheng flaen | 58 | 10% |
| Comisiynwyr Heddlu a Throseddu | 42 | 7% |
| Asiantaethau ac adrannau’r llywodraeth | 42 | 7% |
| Mudiadau trydydd sector | 125 | 21% |
| Arall/heb ateb | 48 | 8% |
| **Cyfanswm** | **602** | **100%** |

Mae’r wybodaeth a gawsom yn yr ymgynghoriad wedi adeiladu ar y cyfoeth o wybodaeth rydym wedi’i rhoi ar waith yn dilyn ymgynghoriadau cyhoeddus blaenorol, fel y Cais am Dystiolaeth ynghylch Trais yn erbyn Menywod a Merched.[12]

11 Cafodd digwyddiadau â dioddefwyr eu cynnal mewn partneriaeth â sefydliadau arbenigol, i sicrhau bod amrywiaeth eang o leisiau’n cael eu clywed. Roedd hyn yn cynnwys sefydliadau sy’n gweithio’n benodol gyda dioddefwyr trais rhywiol a cham-drin domestig, menywod a merched sy’n ddioddefwyr, dynion sy’n ddioddefwyr, dioddefwyr ag anableddau, dioddefwyr o leiafrifoedd ethnig, a phlant a phobl ifanc sy’n ddioddefwyr. Roedd y digwyddiadau trafod â staff rheng flaen yn cynnwys o leiaf 4 arolygiaeth, 16 grŵp plismona, 3 sefydliad llys, 35 sefydliad comisiynu, 18 sefydliad eirioli a 10 gwasanaeth cymunedol

12 Strategaeth ar gyfer mynd i’r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched – GOV.UK (Gorffennaf 2021) https://www.gov.uk/government/publications/tackling-violence-against-women-and-girls-strategy

## Y camau rydym yn ymrwymo i'w cymryd

Byddwn yn cyflwyno amrywiaeth eang o fesurau yn y Bil Dioddefwyr i anfon neges glir ei bod yn rhaid i'r system gyfiawnder sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr. Mae angen mwy na deddfwriaeth i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad, a bydd y Bil yn rhan o becyn o fesurau ychwanegol.

**Byddwn yn rhoi mwy o lais i ddioddefwyr, ac yn sicrhau bod dioddefwyr wrth galon y system cyfiawnder troseddol.**

Yn y Bil Dioddefwyr byddwn yn:

- **Ymgorffori egwyddorion cyffredinol y Cod Dioddefwyr mewn deddfwriaeth sylfaenol**, ac yn amlinellu hawliau allweddol mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn anfon neges glir ynghylch beth y gall dioddefwyr ei ddisgwyl, a beth y dylent ei ddisgwyl, gan y system cyfiawnder troseddol.

Byddwn hefyd yn:

- **Cyflwyno dyletswydd yn y Cod Dioddefwyr sy'n mynnu bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cwrdd â dioddefwyr** cyn y gwrandawiad mewn rhai achosion, pan fydd y dioddefwr yn fodlon gwneud hynny.
- **Cynnwys gwybodaeth am Ddatganiadau Effaith ar y Gymuned yn y Cod Dioddefwyr**, er mwyn hyrwyddo eu defnydd mewn achosion priodol a rhoi mwy o lais i gymunedau sy'n dioddef yn sgil troseddau.
- **Gweithio gyda'r farnwriaeth i geisio cyflwyno hawl yn y Cod Dioddefwyr i gynnwys Datganiadau Personol y Dioddefwr mewn Tribiwnlysoedd Iechyd Meddwl** a fydd yn ystyried rhyddhau troseddwyr, er mwyn i'r dioddefwyr allu egluro effaith y drosedd arnyn nhw.
- **Rhoi'r hawl i ddioddefwyr fod yn bresennol drwy gydol y gwrandawiad parôl** am y tro cyntaf, os ydyn nhw'n dymuno, ac yn amodol ar amgylchiadau'r achos a sêl bendith y Bwrdd Parôl.
- **Caniatáu i ddioddefwyr ofyn cwestiynau wrth gyflwyno gwybodaeth i'r Bwrdd Parôl,** ac yn mynnu bod y Bwrdd yn ystyried y rhain wrth ddod i benderfyniad, er mwyn rhoi mwy o lais i ddioddefwyr yn y broses.

**Byddwn yn gwella tryloywder asiantaethau cyfiawnder troseddol ar lefelau lleol a chenedlaethol a'r broses o'u goruchwylio, er mwyn i brofiadau dioddefwyr eu helpu i ymgysylltu â'r system cyfiawnder troseddol ac i barhau i ymwneud â'r system.**

Yn y Bil Dioddefwyr byddwn yn:

- **Cyflwyno dyletswydd i asiantaethau cyfiawnder troseddol perthnasol gasglu data a pharhau i adolygu eu cydymffurfedd â'r Cod Dioddefwyr** ac i ystyried adborth gan ddioddefwyr am eu profiadau, a **dyletswydd i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu gyflawni rôl gynnull i fonitro cydymffurfedd** yn yr ardal leol er mwyn gweld yn well sut mae'r system yn trin dioddefwyr.

- **Sicrhau bod yr arolygiaethau cyfiawnder troseddol yn cynnal cydarolygiadau thematig rheolaidd ar faterion dioddefwyr**, er mwyn creu pwyslais cliriach a mwy manwl ar y ffordd mae dioddefwyr yn cael eu trin.
- **Mynnu bod y Comisiynydd Dioddefwyr yn cyflwyno ei adroddiad blynyddol gerbron y Senedd**, ac yn mynnu bod asiantaethau ac adrannau perthnasol yn ymateb i argymhellion yr adroddiad hwnnw, er mwyn craffu'n well ar y camau sy'n cael eu cymryd.
- **Cael gwared ar yr angen i ddioddefwyr troseddau gyflwyno cwyn drwy Aelod Seneddol (AS)** cyn y gall yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd ymchwilio i'r mater, er mwyn symleiddio'r broses i ddioddefwyr sy'n dymuno uwchgyfeirio cwynion yn erbyn cyrff cyhoeddus.

Byddwn hefyd yn:

- **Gweithio gydag arolygiaethau i wella eu gallu i oruchwylio profiadau dioddefwyr ac yn defnyddio sgoriau i wella perfformiad,** gan gynnwys arolygiadau mwy rheolaidd o faterion a phrofiadau dioddefwyr.
- **Symleiddio prosesau cwyno ar gyfer dioddefwyr** drwy wella prosesau cyfathrebu asiantaethau, ac yn sicrhau bod pwyntiau cyswllt clir a hygyrch ar gael i helpu dioddefwyr i wneud a bwrw ymlaen â'u cwynion.

**Byddwn ni'n gwella'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr ymdopi a dod at eu hunain ar ôl y drosedd, ac yn eu galluogi i ymgysylltu â'r system cyfiawnder troseddol.**

Yn y Bil Dioddefwyr byddwn yn:

- **Cyflwyno dyletswydd statudol ar y cyd ar Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, awdurdodau lleol a chyrff iechyd i gydweithio wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth** ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, trais rhywiol, a mathau eraill o drais difrifol, fel bod gwasanaethau'n fwy cyfannol ac wedi'u cyd-drefnu'n well.
- **Cyflwyno diffiniad statudol o rôl Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig**, ynghyd â chanllawiau statudol yn nes ymlaen, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rolau, annog cysondeb a safonau penodol, a chefnogi mwy o gydweithio ag asiantaethau eraill.

Byddwn hefyd yn:

- **Cynyddu'r Gordal Dioddefwyr 20% yn gyffredinol, ac yn mynnu bod unigolion a sefydliadau'n talu Gordal uwch ochr yn ochr â dirwyon.** Bydd hyn yn golygu bod troseddwyr yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros y gost o gynorthwyo dioddefwyr ac yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr, gan gynyddu eu cyfraniad hyd at £20 miliwn y flwyddyn erbyn 2024/25.
- **Codi proffil a statws proffesiynol eiriolwyr**, gan gynnwys drwy gyflwyno cofrestr, na fydd ar gael i'r cyhoedd, o Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol, rhwydwaith ar gyfer darparwyr cymorth, ac adroddiad blynyddol.

## Gweinyddiaethau datganoledig

Mae’r elfennau sy’n cael eu trafod yn y ddogfen ymgynghori yma’n berthnasol i Loegr a Chymru ar y cyfan, neu i Loegr yn unig – er enghraifft, pan fydd yr elfennau hyn yn ymwneud ag iechyd a gofal, addysg ac awdurdodau lleol, sy’n faterion datganoledig yng Nghymru.

Wrth i ni fwrw ymlaen â phecyn o gynigion deddfwriaethol ac anneddfwriaethol, byddwn yn parhau i'w trafod â Llywodraeth Cymru. Yn y ffordd arferol, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ceisio sicrhau cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer unrhyw fesurau deddfwriaethol a allai ddod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu effeithio ar hynny.

Yn gyffredinol, mae’r materion sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn wedi cael eu datganoli i Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, ar wahân i gael gwared ar yr angen i gwynion gan ddioddefwyr troseddau i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd gael eu hidlo gan Aelodau Seneddol. Byddwn yn parhau i drafod â Senedd yr Alban ac Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon a ddylai unrhyw fesurau deddfwriaethol fod yn berthnasol hefyd i’r Alban ac i Ogledd Iwerddon.

Mae fersiwn Saesneg o’r ymateb i’r ymgynghoriad ar gael yn: https://www.gov.uk/government/consultations/delivering-justice-for-victims-a-consultation-on-improving-victims-experiences-of-the-justice-system.

## Hygyrchedd

Ar gyfer pob ymgynghoriad, mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhoi ystyriaeth briodol i anghenion ein cynulleidfa, ac rydym yn cymryd pa bynnag gamau posibl i wella cyrhaeddiad a hygyrchedd.

Mae fersiwn Ffont Mawr o’r ymateb hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/government/consultations/delivering-justice-for-victims-a-consultation-on-improving-victims-experiences-of-the-justice-system. Bydd fersiynau Iaith Arwyddion Prydain a Hawdd eu Darllen o’r ymateb hwn ar gael cyn bo hir.

# Pennod 1 – Bodloni disgwyliadau dioddefwyr

Rydym ni'n benderfynol o newid y diwylliant fel bod profiadau dioddefwyr yn ystyriaeth ganolog yn y ffordd mae ein cymdeithas yn meddwl am droseddu ac yn ymateb i hynny. Pan fydd dioddefwr yn rhoi gwybod am drosedd, dylai ddisgwyl cael cyfiawnder. Rydym am rymuso dioddefwyr er mwyn iddyn nhw gael mwy o ffydd yn y system cyfiawnder troseddol a pharhau i ymwneud â'r broses, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i ddod â mwy o droseddwyr o flaen eu gwell.

Rydym am sicrhau bod pob dioddefwr yn cael eu trin fel y mae'r Cod Dioddefwyr yn mynnu gan yr asiantaethau a restrir. Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw rhoi gwybod i'r dioddefwyr am y diweddaraf yn ystod eu hachos, ac rydym am roi mwy o lais i ddioddefwyr a sicrhau eu bod yn cael eu clywed yn y system cyfiawnder troseddol.

I gyflawni'r amcanion hyn, roeddem wedi ymgynghori ar y ffordd orau o gyflawni ein hymrwymiad i ymgorffori'r Cod Dioddefwyr yn y gyfraith, er mwyn sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr, a'r dioddefwyr eu hunain, yn gwybod beth yw eu hawliau.

Roeddem hefyd wedi ymgynghori ar sut i wella'r ffordd mae asiantaethau cyfiawnder troseddol yn trin dioddefwyr – yn arbennig, ystyried gwella prosesau cyfathrebu Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu ac asiantaethau eraill, ymgysylltu â dioddefwyr yn y broses parôl, defnyddio Datganiadau Effaith ar y Gymuned, a defnyddio Datganiadau Personol y Dioddefwr yn y Tribiwnlys Iechyd Meddwl.

Mae'r bennod hon yn trafod sut byddwn yn:

- **Ymgorffori'r Cod Dioddefwyr yn y gyfraith** ac yn sicrhau bod gwybodaeth am y Cod ar gael yn fwy eang a hygyrch – gan anfon neges glir am yr hyn y dylai dioddefwyr ei ddisgwyl gan y rheini sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol.
- **Gwella'r hyn y gall dioddefwyr ei ddisgwyl gan y system cyfiawnder troseddol** – gan gynnwys drwy'r canlynol:
  - Mwy o gyfathrebu rhwng dioddefwyr a Gwasanaeth Erlyn y Goron.
  - Hyrwyddo'r defnydd o Ddatganiadau Effaith ar y Gymuned.
  - Rhoi mwy o lais i ddioddefwyr yn y broses parôl ac yn y Tribiwnlys Iechyd Meddwl.
- **Parhau i fynd i'r afael â'r materion ehangach a godwyd**, gan gynnwys cyfiawnder adferol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, mudwyr sy'n ddioddefwyr, a chynrychiolaeth gyfreithiol i ddioddefwyr.

## Ymgorffori'r Cod Dioddefwyr yn y gyfraith

Mae lefelau gofynnol y gwasanaeth y gall, ac y dylai, dioddefwyr ddisgwyl eu cael gan asiantaethau cyfiawnder troseddol wedi'u nodi yn y Cod Dioddefwyr. Mae hyn yn cynnwys disgwyliadau o'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITHEM) a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

Gwyddom fod asiantaethau'n gweithio'n galed i ymgorffori'r Cod, ond gwyddom hefyd fod mwy i'w wneud. Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai dim ond 18% o ddioddefwyr wedi eu galw'n ôl sy'n cael cyfle i wneud Datganiad Personol y Dioddefwr, a dim ond 45% oedd yn teimlo bod yr heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill yn rhoi gwybod iddyn nhw am y diweddaraf.[13]

Bu galw ers tro byd ar y Llywodraeth i roi sail statudol i'r Cod Dioddefwyr, er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hawliau. Felly, roeddem wedi ymgynghori ar sut i osod y Cod mewn deddfwriaeth sylfaenol er mwyn anfon neges glir i'r holl asiantaethau a restrir ei bod yn rhaid iddyn nhw gydymffurfio â'r Cod. Roeddem wedi ymgynghori ar osod egwyddorion allweddol y Cod mewn deddfwriaeth sylfaenol, a manylion rheoliadau a/neu ganllawiau cysylltiedig.

Ymgynghorwyd hefyd ar osod yr egwyddorion allweddol canlynol ar wyneb y Bil:

- **Sicrhau bod dioddefwyr yn cael gwybodaeth** – er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn gallu deall y broses cyfiawnder troseddol yn llwyr, rhaid i asiantaethau cyfiawnder troseddol ystyried yn briodol sut mae sicrhau bod dioddefwyr yn cael yr wybodaeth angenrheidiol drwy gydol yr achos – o'r cam o roi gwybod i'r heddlu am y drosedd i'r cyfnod ar ôl yr euogfarn.
- **Sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth** – er nad yw dioddefwyr yn gorfod rhoi gwybod am drosedd er mwyn cael cymorth, pan fyddan nhw'n gwneud hynny, mae'r Cod yn pennu ei bod yn rhaid atgyfeirio dioddefwyr at wasanaeth sy'n eu helpu i ymdopi a dod at eu hunain, rhoi cymorth iddyn nhw yn y llys, a'u hasesu i weld a oes angen unrhyw gymorth arbenigol arnyn nhw, fel cymhwystra ar gyfer mesurau arbennig.[14]
- **Sicrhau bod lleisiau dioddefwyr yn cael eu clywed** – rhaid i leisiau dioddefwyr gael eu clywed yn y broses cyfiawnder troseddol, a dylid cynnig cyfle iddyn nhw wneud Datganiad Personol y Dioddefwr i egluro sut mae'r drosedd wedi effeithio arnyn nhw.

---

[13] 'Experience of the criminal justice system for victims of crime, England and Wales, year ending March 2020'; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, GOV.UK

[14] Mae mesurau arbennig yn golygu cyfres o ddarpariaethau sy'n helpu tystion sydd mewn sefyllfa fregus ac sy'n cael eu bygwth i roi eu tystiolaeth orau yn y llys, ac sy'n helpu i leddfu rhywfaint ar y straen sy'n gysylltiedig â rhoi tystiolaeth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: https://www.gov.uk/going-to-court-victim-witness/extra-protection-in-the-courtroom ac yma: https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/special-measures

- **Hawl dioddefwyr i gael adolygiad** – dylai dioddefwyr allu herio penderfyniadau sy'n cael effaith uniongyrchol arnyn nhw, ac mae'r Cod yn pennu bod ganddyn nhw hawl i ofyn am adolygiad o dan y Cynlluniau Hawl Dioddefwyr i Adolygiad a weithredir gan Wasanaeth Erlyn y Goron neu Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, sy'n caniatáu i achwynwyr ofyn am adolygiad o benderfyniadau penodol i beidio ag erlyn neu i ddod ag erlyniad i ben.

**Dyma ddywedoch chi:**

Roeddem wedi gofyn ai'r pedair egwyddor allweddol uchod yw'r rhai priodol i'w hymgorffori yn y gyfraith. O blith 289 o ymatebwyr, roedd 161 (56%) **yn cytuno ag egwyddorion allweddol y Cod Dioddefwyr** a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Roedd dioddefwyr y cafwyd cysylltiad uniongyrchol â nhw yn ystod digwyddiadau ymgysylltu'r Llywodraeth hefyd yn cytuno'n fras bod yr egwyddorion yn amlinellu anghenion cymorth sylfaenol dioddefwyr.

Roedd llawer o sefydliadau yn arbennig o gefnogol o'r egwyddor allweddol i sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth. Er enghraifft, roedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi cydnabod pwysigrwydd rhoi'r cymorth priodol i ddioddefwyr troseddau trawmatig fel cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais difrifol.[15]

Roedd 128 o'r ymatebwyr (44%) **yn anghytuno'n llwyr neu'n rhannol â'r egwyddorion.** Roedd 81 o'r ymatebwyr (28%) yn credu bod rhai egwyddorion ar goll, ac roedd 11 o'r ymatebwyr (4%) yn awgrymu bod yr egwyddorion yn anghywir. Dyma rai o'r rhesymau a roddwyd gan y rheini a oedd yn credu bod yr egwyddorion yn anghywir:

- Roedd y diffiniad o ddioddefwr yn rhy gul, a oedd yn golygu nad oedd rhai grwpiau'n cael eu cynrychioli ddigon.
- Roedd pwyslais anghymesur ar wasanaethau cymorth yn hytrach nag asiantaethau cyfiawnder troseddol.
- Roedd pwyslais anghymesur ar ddioddefwyr sy'n rhoi gwybod am droseddau.
- Roedd rhai o'r ymatebion yn awgrymu bod yr ymdrechion i symleiddio'r Cod wedi gwanhau neu leihau rhai hawliau.

**Cynigiodd rhai o'r ymatebwyr egwyddorion ychwanegol** i'w gosod ar wyneb y Bil, gan gynnwys hawliau ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu a'u hariannu'n briodol, hawliau am gwynion ac atebolrwydd dioddefwyr, hawliau am gynnwys dioddefwyr yn y broses o gynllunio gwasanaeth, a hawl i gael gafael ar gymorth a gwybodaeth hygyrch, ymysg pethau eraill. Mae llawer o'r materion hyn yn cael sylw yn nes ymlaen yn yr ymateb hwn. Byddwn ni'n parhau i adolygu manylion hawliau dioddefwyr yn y Cod.

[15] Ymateb i ymgynghoriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y Bil Dioddefwyr, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Chwefror 2022), https://www.equalityhumanrights.com/en/legal-responses/consultation-responses

Roedd pryder cyffredinol a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion, gan gynnwys gan y rheini a oedd o'r farn mai'r egwyddorion hyn oedd y rhai cywir, yn ymwneud â'r broses o weithredu'r Cod. Cyfeiriodd ymatebwyr at yr heriau gweithredu, gan gynnwys o ran adnoddau neu atebolrwydd.

**O blith 245 o ymatebwyr, roedd 244 (99%) yn cytuno y dylai'r Llywodraeth ac asiantaethau wneud mwy i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn ymwybodol o'r Cod ac yn cydymffurfio â'r Cod.** Cynigiwyd awgrymiadau (niferus) gan yr ymatebwyr, gan gynnwys:

- 181 o awgrymiadau (gan 74% o'r ymatebwyr) am wella'r broses o fonitro a chydymffurfio â'r Cod. Yn benodol, cynigiodd yr ymatebwyr fwy o hyfforddiant a gwell hyfforddiant i staff rheng flaen, canllawiau cliriach i fonitro cydymffurfedd, a chosbi diffyg cydymffurfio.
- 72 o awgrymiadau (gan 29% o'r ymatebwyr) am wella'r broses o gyfathrebu a rhannu negeseuon am y Cod.
- 65 o awgrymiadau (gan 27% o'r ymatebwyr) am wella cydymffurfedd â'r Cod, gan gynnwys mwy o adnoddau a chyllid ar gyfer gwasanaethau rheng flaen, a chyflogi staff mwy amrywiol a chynrychioladol mewn gwasanaethau rheng flaen er mwyn gallu cynnig gwell cymorth i ddioddefwyr.

Roedd yr ymarferwyr roeddem wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw yn cytuno bod ymwybyddiaeth gyffredinol o'r Cod yn amrywio ymysg gweithwyr proffesiynol rheng flaen, gyda rhai'n gyfarwydd iawn â'r Cod ac eraill ddim yn gyfarwydd o gwbl â'r Cod. O ran yr elfennau i'w gwella, yr argymhellion oedd cael mwy o gyfleoedd hyfforddi a defnyddio adnoddau mwy canolog ar draws asiantaethau, fel canllawiau.

Roedd y dioddefwyr roeddem wedi siarad yn uniongyrchol â nhw mewn digwyddiadau ymgysylltu yn adleisio pwysigrwydd sicrhau proses weithredu effeithiol. Pwysleisiwyd yn benodol nad dioddefwyr, sydd o bosibl yn teimlo'n ansicr am herio'r gwasanaeth roedden nhw wedi'i gael, ddylai fod yn gyfrifol am fynnu eu hawliau o dan y Cod. Yn hytrach na hynny, dylai'r Cod osod gofynion cliriach ar yr asiantaethau a restrir i sicrhau bod dioddefwyr yn ymwybodol o'u hawliau ac yn eu deall.

**O blith 210 o ymatebwyr, roedd bron pob un (208) hefyd yn cytuno y dylid gwneud mwy i sicrhau bod dioddefwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol yn ymwybodol o'r Cod.** Cynigiodd yr ymatebwyr wahanol ffyrdd o gynyddu ymwybyddiaeth o'r Cod:

- Roedd 149 o awgrymiadau (a wnaed gan 71% o'r ymatebwyr) yn ymwneud â gwella'r broses o gyfathrebu a rhannu negeseuon am y Cod. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr yn cynnig y dylai gwybodaeth am y Cod fod ar gael yn ehangach i ddioddefwyr neu'n fwy hygyrch, drwy egluro'r Cod yn well i ddioddefwyr, a/neu drwy ddarparu'r Cod mewn gwahanol fformatau ac mewn fformatau hygyrch.
- Roedd 58 o awgrymiadau (a wnaed gan 28% o'r ymatebwyr) yn ymwneud â hyfforddiant a chanllawiau ar y Cod i weithwyr proffesiynol, er mwyn iddyn nhw allu

mynd ati'n well i helpu dioddefwyr i ddeall eu hawliau. Roedd y cynigion yn amrywio o sesiynau cynefino gorfodol i hyfforddiant ar draws asiantaethau.

- Soniodd 20 awgrym (a wnaed gan 10% o'r ymatebwyr) am gosbi asiantaethau am beidio â rhoi gwybod i ddioddefwyr am y Cod.

Roedd yr ymarferwyr roeddem wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw'n cytuno nad oedd y rhan fwyaf o ddioddefwyr yn ymwybodol o'r Cod a'u hawliau. Roedd ymarferwyr yn ategu'r galw am ymgyrchoedd yn y cyfryngau i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Cod. Roedden nhw hefyd yn awgrymu adnoddau hawdd eu defnyddio ar gyfer dioddefwyr, a chyfeirio at y Cod ym mhob gohebiaeth â dioddefwyr.

Roedd y dioddefwyr a holwyd yn cyd-weld â'r argymhellion hyn, yn ogystal â phwysleisio'r angen i wneud y Cod yn fwy hygyrch. Roedden nhw'n argymell sicrhau bod y Cod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, a bod pob neges am y Cod yn un hygyrch a chynhwysol i bob defnyddiwr posibl.

**Byddwn ni'n gwneud y pethau hyn:**

**Byddwn yn gosod egwyddorion allweddol y Cod Dioddefwyr, fel y maen nhw wedi'u nodi uchod, yn y gyfraith drwy'r Bil Dioddefwyr.** Bydd hyn yn anfon neges glir i'r holl asiantaethau a restrir ei bod yn rhaid iddyn nhw gydymffurfio â'r Cod, ac i bob dioddefwr er mwyn iddyn nhw ddeall lefel y gwasanaeth y dylent ei derbyn. Rydym ni o'r farn bod y rhain yn sicrhau'r cydbwysedd cywir i gadarnhau'r egwyddorion allweddol ar gyfer hawliau i gael gwybodaeth, i gael eich clywed ac i herio penderfyniadau o fewn y system cyfiawnder troseddol, ac i gael cymorth o fewn a thu allan i'r system cyfiawnder troseddol, gan gadw hyblygrwydd pwysig i ddiweddaru hawliau penodol heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol. Ynghyd â chamau i wella'r oruchwyliaeth o asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n gyfrifol am gyflawni'r Cod fel y nodir ym mhennod 2, bydd gosod yr egwyddorion yn y gyfraith yn cryfhau cydymffurfedd ac yn sicrhau bod dioddefwyr yn cael y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt.

**Bydd y 12 hawl gyffredinol o'r Cod yn cael eu hamlinellu mewn Rheoliadau.** Bydd hyn yn sicrhau bod deddfwriaeth yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ni gryfhau'r disgwyliadau sylfaenol penodol yn y Cod os bydd anghenion dioddefwyr yn arwain at newid polisïau ac arferion yn y dyfodol. Byddwn yn dal yn darparu Cod Dioddefwyr sy'n hawdd ei ddefnyddio er mwyn rhoi rhagor o fanylion am hawliau dioddefwyr ac egluro sut byddan nhw'n gweithio'n ymarferol.

**Byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu i sicrhau bod pob ymarferydd cyfiawnder troseddol a phob dioddefwr yn deall lefel y gwasanaeth y dylai dioddefwyr ei derbyn ar bob cam o'u taith cyfiawnder troseddol.** Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'r Cod ymysg ymarferwyr a'r cyhoedd, a byddwn yn gweithio i sicrhau bod gwybodaeth am y Cod ar gael yn ehangach ac yn fwy hygyrch. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaeth asiantaethau y llynedd i baratoi at weithredu'r Cod

diwygiedig, er mwyn datblygu cynllun parhaus i godi ymwybyddiaeth ymysg ymarferwyr. Pan fydd angen, bydd y cynllun yn ystyried sut gallem godi ymwybyddiaeth ymysg categorïau penodol o ddioddefwyr, er enghraifft plant sy'n ddioddefwyr.

## Gwella'r hyn y gall dioddefwyr ei ddisgwyl gan y system cyfiawnder troseddol

Gwyddom nad yw dioddefwyr bob amser yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth na gwybodaeth gan asiantaethau cyfiawnder troseddol.[16] Pan fydd dioddefwyr yn rhoi gwybod am drosedd, maen nhw'n disgwyl cael cyfiawnder. Mae angen iddyn nhw fod yn hyderus y byddan nhw'n cael gwybodaeth amserol am eu hachos, yn ogystal â chael eu trin gyda gofal a sensitifrwydd gan asiantaethau cyfiawnder troseddol.

Felly, roeddem wedi ymgynghori ynghylch a ddylid rhoi rhagor o gymorth a hawliau i ddioddefwyr er mwyn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed, ac ym mhle mae angen cryfhau'r cysylltiad rhwng dioddefwyr ac asiantaethau cyfiawnder troseddol.

Roeddem wedi ymgynghori ar y canlynol:

- **Rhoi gwybod i ddioddefwyr ac ystyried eu barn.** Gofynnwyd a yw prosesau cyfathrebu presennol yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio i ddioddefwyr, ac a ddylid gwneud mwy yn ymarferol i ystyried barn dioddefwyr. Yn benodol, gofynnwyd a ddylai fod gofyniad mwy penodol i'r erlynydd dan sylw mewn achos neu mewn rhai mathau o achosion fod wedi cwrdd â'r dioddefwr cyn y penderfyniad i gyhuddo, a chyn i achos fynd yn ei flaen i'r llys.
- **Datganiadau Effaith ar y Gymuned.** Gofynnwyd am wybodaeth am fanteision a chostau Datganiadau Effaith ar y Gymuned, ac am enghreifftiau o'u defnyddio'n llwyddiannus.
- **Ymgysylltiad dioddefwyr â'r broses parôl.** Gofynnwyd a oes modd gwneud mwy i alluogi dioddefwyr i gymryd mwy o ran yn y broses Parôl.
- **Datganiadau Personol y Dioddefwr yn y Tribiwnlys Iechyd Meddwl.** Gofynnwyd a ddylai dioddefwyr allu cyflwyno Datganiad Personol y Dioddefwr pan fydd eu hachos yn cael ei glywed yn y Tribiwnlys Iechyd Meddwl, gan egluro effaith y drosedd pan fydd cyfnod cadw'r troseddwr yn cael ei adolygu.

Y ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion hyn fydd adeiladu ar yr hawliau presennol yn y Cod Dioddefwyr. Yn ogystal ag amlinellu'r hawliau allweddol yn y Rheoliadau, bydd y Cod

[16] https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/adhocs/13635experienceofthecriminaljusticesystemforvictimsofcrimeenglandandwalesyearendingmarch2009toyearendingmarch2020/awarenessofthevictimscodefinaloctoberreview.xlsx

yn dal i egluro'r hawliau hyn mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr, ac yn cynnwys rhagor o fanylion ynghylch sut byddan nhw'n gweithio'n ymarferol.

**Byddwn yn ymgynghori ar wella'r Cod Dioddefwyr ar ôl i'r Bil newydd ddod i rym**, ond yng ngweddill y bennod hon rydym yn egluro ble rydym yn bwriadu gwneud newidiadau iddo.

## 1. Rhoi gwybod i ddioddefwyr ac ystyried eu barn

**Dyma ddywedoch chi:**

*Cyfathrebu rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol a dioddefwyr*
O blith 167 o ymatebwyr, **dywedodd 156 (93%) nad yw'r dulliau presennol o gyfathrebu rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol a dioddefwyr, nac amseriad y cyfathrebu, yn gweithio**.

Gofynnwyd pa newidiadau fyddai'n gallu gwella'r broses o gyfathrebu â dioddefwyr. Cynigiodd 142 o ymatebwyr amrywiaeth o safbwyntiau a syniadau:

- Cafwyd 108 o awgrymiadau (gan 64% o'r ymatebwyr) am wella'r broses gyfathrebu a'r ffordd y mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn trin dioddefwyr. Yn benodol, dywedodd 66 o awgrymiadau (a wnaed gan 38% o'r ymatebwyr) y dylai gwybodaeth am benderfyniadau allweddol fod ar gael yn haws i ddioddefwyr, gyda diweddariadau amlach ac amserlenni cliriach gan asiantaethau cyfiawnder troseddol. Roedd 38 o awgrymiadau (a wnaed gan 22% o'r ymatebwyr) yn dadlau y dylai dioddefwyr gael eu trin â mwy o barch a sensitifrwydd, gyda gwell hyfforddiant i'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron a gwell systemau adborth i ddioddefwyr. Roedd 26 o awgrymiadau (a wnaed gan 18% o'r ymatebwyr) yn pwysleisio y dylai swyddogaethau a chyfrifoldebau'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron gael eu hegluro wrth gyfleu penderfyniadau allweddol i ddioddefwyr.
- Roedd 38 o awgrymiadau (a wnaed gan 23% o'r ymatebwyr) yn pwyso am wella amseriad y penderfyniadau allweddol a wneir gan asiantaethau cyfiawnder troseddol, gyda llai o oedi wrth wneud penderfyniadau yn y system cyfiawnder troseddol drwyddi draw.

O blith 206 o ymatebwyr, **awgrymodd 187 (91%) y dylai'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron wneud mwy i ystyried barn dioddefwyr.** Awgrymodd yr ymatebwyr, ymysg ffactorau eraill, y byddai rhoi mwy o ystyriaeth i farn dioddefwyr yn sicrhau bod dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u grymuso, ac yn rhoi cyd-destun pwysig i'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron wrth iddyn nhw wneud penderfyniadau allweddol.

Roedd 12 o ymatebwyr (6%) yn anghytuno y dylai'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron wneud mwy i ystyried barn dioddefwyr. Dyma rai o'r pryderon a godwyd:

- Risg o beryglu egwyddorion allweddol cyfiawnder, bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail tystiolaeth wrthrychol.
- Risg o wneud i'r dioddefwyr ail-fyw'r trawma drwy ofyn am eu barn.
- Goblygiadau cost ystyried barn dioddefwyr.

O blith 193 o ymatebwyr, **roedd 145 (75%) yn argymell y dylai fod gofyniad penodol i'r erlynydd dan sylw fod wedi cwrdd â'r dioddefwr cyn y penderfyniad i gyhuddo, a chyn i achos fynd yn ei flaen i'r llys**. Awgrymodd yr ymatebwyr y byddai hyn yn helpu staff rheng flaen (ee, drwy roi mwy o wybodaeth iddyn nhw a fydd yn sail i'w penderfyniadau) ac yn gwella profiadau dioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol, drwy wella tryloywder a'u dealltwriaeth o brosesau a phenderfyniadau.

Awgrymodd 30 o'r 193 o ymatebwyr (16%) mai dim ond mewn mathau penodol o achosion y dylid cael gofyniad penodol. Roedd 18 o ymatebwyr (9%) yn anghytuno y dylid cael unrhyw ofyniad penodol, gan gyfeirio at y risgiau o beryglu egwyddorion allweddol cyfiawnder a dweud bod y gofyniad hwn yn cymryd gormod o amser neu'n rhy gostus.

O blith 101 o ymatebwyr, **roedd 95 (94%) yn dadlau y dylid gwneud newidiadau i'r Cod er mwyn cyfathrebu'n well am y cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad.** Roedd y rheini a oedd o blaid newidiadau wedi cyflwyno'r cynigion canlynol:

- Cafwyd 45 o awgrymiadau (gan 45% o'r ymatebwyr) am gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad.
- Cafwyd 31 o awgrymiadau (gan 31% o'r ymatebwyr) am wneud newidiadau i wella'r gweithdrefnau sy'n sail i'r cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad.
- Cafwyd 12 o awgrymiadau (gan 12% o'r ymatebwyr) am gynyddu'r cyllid sydd ar gael i helpu dioddefwyr sy'n lansio apêl.
- Cafwyd 11 o awgrymiadau (gan 11% o'r ymatebwyr) am wella hyfforddiant ar y cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad ar gyfer asiantaethau cyfiawnder troseddol perthnasol.

**Byddwn ni'n gwneud y pethau hyn:**

Rydym yn cydnabod nad yw dioddefwyr yn teimlo ar hyn o bryd bod asiantaethau cyfiawnder troseddol yn ymgysylltu â nhw'n rheolaidd ac yn sensitif, nac yn teimlo bod eu lleisiau i'w clywed drwy gydol y broses. Rydym hefyd yn deall bod y broses yn gallu bod yn frawychus, ac rydym eisiau i ddioddefwyr gael gwybod beth sy'n digwydd a beth i'w ddisgwyl.

Byddwn yn cyflwyno dyletswydd yn y Cod Dioddefwyr sy'n mynnu bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cwrdd â dioddefwyr cyn y gwrandawiad mewn rhai achosion, pan fydd y dioddefwr yn fodlon gwneud hynny.

Gwyddom fod Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi ymrwymo i gyfathrebu'n well ac yn fwy amserol â dioddefwyr. Yn ddiweddar, comisiynodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ymchwil annibynnol i'r hyn y mae ar ddioddefwyr ei angen gan Wasanaeth Erlyn y Goron, er mwyn

llywio'r cynlluniau i ddatblygu gwell dull o weithredu sy'n fwy cytbwys, rhagweithiol, ac sy'n gweddu'n well i anghenion gwahanol gymunedau a dioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron a Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol i adeiladu ar eu cynlluniau i gyfathrebu ac ymgysylltu'n well â dioddefwyr, ac i ymestyn yr hawliau presennol yn y Cod i adlewyrchu'r ddyletswydd newydd hon.

**Byddwn yn adolygu'r wybodaeth yn y Cod am y cynlluniau Hawl Dioddefwyr i Adolygiad.**

Mae'r Cod yn amlinellu'r hawl bresennol i ofyn am adolygiad o benderfyniad a wnaed gan yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron i beidio ag erlyn, neu benderfyniad Gwasanaeth Erlyn y Goron i stopio'r achos, o dan gynlluniau Hawl Dioddefwyr i Adolygiad a weithredir gan Wasanaeth Erlyn y Goron neu Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y dylid gwella'r ffordd y mae dioddefwyr yn cael gwybod am y cynlluniau hyn, er mwyn ei gwneud yn haws i ddefnyddio'r cynlluniau.

**Byddwn yn gweithio gyda heddluoedd i rannu arferion da wrth gyfathrebu â dioddefwyr.** Gwyddom fod rhai heddluoedd yn ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o gyflawni'r gofyniad yn y Cod Dioddefwyr i'r heddlu egluro i ddioddefwyr lle gallant gael mwy o wybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol a'u hawliau fel dioddefwr, gan gynnwys Hawl Dioddefwyr i Adolygiad. Byddwn yn gweithio gyda nhw i hyrwyddo a rhannu arferion da.

**Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd mewn rhai ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch effaith yr oedi yn y system cyfiawnder troseddol ar hyn o bryd, ac rydym yn cyflwyno amrywiaeth o fesurau i leihau'r pryderon.** Mae 30 o ystafelloedd llys Nightingale wedi cael eu hymestyn y tu hwnt i fis Mawrth 2022, ac rydym yn ehangu cynlluniau recriwtio barnwrol i sicrhau y bydd digon o gapasiti i eistedd ar y lefelau gofynnol yn 2022/23 a thu hwnt. Rydym yn deddfu yn Neddf Adolygiad Barnwrol a'r Llysoedd 2022 i roi mwy o hyblygrwydd i Lys y Goron ddychwelyd achosion i'r llys ynadon, gan leihau'r galw yn Llys y Goron. Rydym yn ymestyn pwerau dedfrydu'r llys ynadon o 6 i 12 mis o garchar am un drosedd Treial Neillffordd, er mwyn gallu gwrando mwy o achosion yn y llys ynadon. Rydym hefyd yn cynnwys mesurau yn Neddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 er mwyn gallu parhau i ddefnyddio gwrandawiadau o bell mewn achosion troseddol. Mae Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 hefyd yn cynnwys mesurau i alluogi'r cyhoedd i arsylwi gwrandawiadau, gan gryfhau'r egwyddor o gyfiawnder agored.

## 2. Datganiadau Effaith ar y Gymuned

**Dyma ddywedoch chi:**

Mae Datganiadau Effaith ar y Gymuned yn rhoi cyfle i gymunedau egluro i'r llys a'r troseddwr sut mae trosedd wedi effeithio arnynt. Nid yw'r ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys yn y Cod Dioddefwyr presennol, ac nid ydym yn credu eu bod yn cael eu defnyddio'n helaeth. Roeddem wedi gofyn am ragor o wybodaeth am ddefnyddio Datganiadau Effaith ar y Gymuned fel ffordd o fynd ati'n effeithiol i roi mwy o lais i gymunedau ehangach.

O blith 102 o ymatebwyr, **roedd 56 (55%) o blaid defnyddio Datganiadau Effaith ar y Gymuned, a dywedodd 39 o ymatebwyr (38%) mai dim ond mewn rhai mathau o achosion y dylid eu defnyddio,** gan gynnwys achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans cyhoeddus, troseddau cyfundrefnol a throseddau casineb.

**Roedd yr adborth yn awgrymu nad oes llawer o ymwybyddiaeth o Ddatganiadau Effaith ar y Gymuned ac nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio'n helaeth**, gyda 53 o ymatebwyr eraill yn dweud nad oedden nhw erioed wedi clywed am y drefn hon i roi mwy o lais i ddioddefwyr a chymunedau.

**Holwyd am fanteision defnyddio Datganiadau Effaith ar y Gymuned yn ehangach**. Cafwyd 113 o awgrymiadau, gan gynnwys bod Datganiadau Effaith ar y Gymuned yn pwysleisio effeithiau ehangach troseddau, yn grymuso'r rheini sy'n dioddef yn sgil troseddau, yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau, ac yn tynnu sylw at flaenoriaethau lleol.

**O ran risgiau a chostau defnyddio Datganiadau Effaith ar y Gymuned yn ehangach**, rhannodd yr ymatebwyr 53 o awgrymiadau, gan gynnwys risg o gamddarlunio troseddau, risg o wneud i'r dioddefwyr ail-fyw'r trawma, a risg y byddai defnyddio Datganiadau Effaith ar y Gymuned yn rhy gostus ac yn cymryd gormod o amser i'r heddlu.

**Byddwn ni'n gwneud y pethau hyn:**

**Byddwn yn defnyddio'r Cod Dioddefwyr i annog pobl i ddefnyddio Datganiadau Effaith ar y Gymuned mewn achosion priodol er mwyn sicrhau bod yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r llys yn deall effeithiau ehangach troseddau.** Rydym wedi clywed sut mae Datganiadau Effaith ar y Gymuned wedi cael eu defnyddio'n effeithiol ar gyfer troseddau sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau casineb, bwrgleriaeth ac ymosodiadau yn erbyn gweithwyr gwasanaethau brys. Mae llawer o'r achosion hyn yn droseddau cymdogaeth sydd, pan na fyddan nhw'n cael sylw, yn gallu cael effaith niweidiol ar ddioddefwyr, cymdogaethau a chymunedau.

Gwyddom fod Datganiadau Effaith ar y Gymuned eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer rhai o'r achosion hyn, ond rydym am ddefnyddio mwy arnynt er mwyn i ddioddefwyr gael mwy

o lais yn y system, a gwneud i gymunedau deimlo'n fwy diogel yn eu cymdogaeth. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid gweithredol fel Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol i ddatblygu ein dealltwriaeth o sut bydd hyn yn gweithio'n ymarferol, er mwyn i ni allu cynnwys rhagor o wybodaeth am Ddatganiadau Effaith ar y Gymuned yn y Cod diwygiedig. Bydd hyn yn cynnwys ystyried ymhellach y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys yr achosion perthnasol lle dylid eu defnyddio, effeithiau gweithredol unrhyw newidiadau, a mesurau diogelu priodol ar gyfer dioddefwyr.

## 3. Ymgysylltiad dioddefwyr â'r broses parôl

**Dyma ddywedoch chi:**

O blith 172 o ymatebwyr, **roedd 163 (95%) yn cytuno bod angen gwneud newidiadau i broses y bwrdd parôl er mwyn ymgysylltu'n well â dioddefwyr**. Roedd y rheini a oedd yn cytuno wedi cynnig amrywiaeth o awgrymiadau ar newidiadau posibl, gan gynnwys:

- 71 o awgrymiadau (gan 41% o'r ymatebwyr) yn datgan y dylid gwella'r wybodaeth a roddir i ddioddefwyr am y broses parôl a chyfathrebu'n well â nhw am y broses, a gwella ymwybyddiaeth dioddefwyr o'r broses.
- 65 o awgrymiadau (gan 38% o'r ymatebwyr) am roi mwy o ran i ddioddefwyr mewn gwrandawiadau parôl.
- 56 o awgrymiadau (gan 22% o'r ymatebwyr) am roi gwell cymorth i ddioddefwyr cyn ac yn ystod y broses parôl, ac am wneud gwrandawiadau parôl yn agored i ddioddefwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.

**Cyfeiriodd 96 o ymatebwyr at fanteision posibl ymgysylltu mwy â dioddefwyr mewn prosesau parôl,** gan gynnwys:

- Gwneud i ddioddefwyr deimlo eu bod yn cael eu clywed a'u grymuso (49 o awgrymiadau, gan 51% o'r ymatebwyr).
- Cynyddu ffydd dioddefwyr yn y broses parôl (16 o awgrymiadau, gan 17% o'r ymatebwyr).
- Cynyddu faint o dystiolaeth sydd ar gael i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau parôl (14 o awgrymiadau, gan 15% o'r ymatebwyr).
- Gwella dealltwriaeth dioddefwyr o'r broses parôl (12 o awgrymiadau, gan 13% o'r ymatebwyr).

**Nododd 77 o ymatebwyr risgiau posibl o gynnwys dioddefwyr mewn prosesau parôl, gan gynnwys:**

- Gwneud i ddioddefwyr ail-fyw'r trawma ac achosi rhagor o ddioddefaint iddyn nhw (24 o awgrymiadau, gan 31% o'r ymatebwyr).

- Peryglu egwyddorion allweddol cyfiawnder – hynny yw, y dylai penderfyniadau parôl fod yn seiliedig ar dystiolaeth wrthrychol o adsefydlu (20 o awgrymiadau, gan 26% o'r ymatebwyr).
- Materion diogelwch a chyfrinachedd i ddioddefwyr (19 o awgrymiadau, gan 25% o'r ymatebwyr).

**Byddwn ni'n gwneud y pethau hyn:**

**Byddwn yn rhoi mwy o lais i ddioddefwyr yn y broses parôl, yn unol â'r ymrwymiad yn adolygiad trylwyr y Llywodraeth o'r broses parôl.** Cyhoeddodd y Llywodraeth yr adolygiad ar 30 Mawrth 2022,[17] a oedd yn rhestru'r diwygiadau a fydd yn cael eu cyflwyno i wella profiadau dioddefwyr o'r system parôl.

Roeddem wedi defnyddio'r ymgynghoriad i ofyn a ddylai defnyddwyr gael mwy o ran mewn gwrandawiadau parôl, a dywedodd y mwyafrif llethol ohonoch y dylent gael hynny. Felly, rydym wedi cyhoeddi ein bwriad i newid y prawf rhyddhau statudol y mae'n rhaid i'r Bwrdd Parôl ei ddefnyddio wrth ystyried achosion. Bydd y meini prawf diwygiedig yn cynnwys gofyniad i'r Bwrdd Parôl ystyried barn y dioddefwr wrth ddod i'w benderfyniad. Bydd caniatáu i ddioddefwyr gyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig i baneli parôl, yn ychwanegol at Ddatganiad Personol y Dioddefwr, yn help i hwyluso hyn. Yn yr wybodaeth honno, gall dioddefwyr hefyd ofyn unrhyw gwestiynau am unrhyw elfennau o'r achos sy'n bwysig iddyn nhw.

Rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn bwysig gwneud yn siŵr bod gan ddioddefwyr yr wybodaeth ddiweddaraf am bob cam o ddedfryd y carcharor, ac felly byddwn yn adolygu'r wybodaeth a roddir i ddioddefwyr i weld pa wybodaeth bellach y gellir ei rhannu â dioddefwyr, a sut gellir ei chyfleu.

## 4. Datganiadau Personol y Dioddefwr yn y Tribiwnlys Iechyd Meddwl

**Dyma ddywedoch chi:**

O blith 192 o ymatebwyr, **roedd 176 (92%) yn cytuno y dylai dioddefwyr gael cyflwyno Datganiad Personol y Dioddefwr pan fydd Tribiwnlys Iechyd Meddwl yn adolygu cyfnod y troseddwr yn y ddalfa.**

Cyfeiriodd yr ymatebwyr hyn at resymau i gefnogi eu safbwynt, gan gynnwys:

- 78 o awgrymiadau (gan 41% o'r ymatebwyr) y bydd defnyddio Datganiadau Personol y Dioddefwr yn helpu i sicrhau bod y rheini sydd wedi dioddef trosedd a gafodd ei chyflawni gan droseddwyr sy'n rhan o'r system iechyd meddwl yn cael yr un hawliau a chymorth â phobl eraill sydd wedi dioddef yr un drosedd.

[17] 'Root and Brand Review of the Parole System' – GOV.UK (Mawrth 2022) https://www.gov.uk/government/publications/root-and-branch-review-of-the-parole-system

- 44 o awgrymiadau (gan 23% o'r ymatebwyr) y byddai defnyddio Datganiadau Personol y Dioddefwr yn helpu dioddefwyr i deimlo eu bod yn cael eu clywed a'u grymuso.
- 35 o awgrymiadau (gan 18% o'r ymatebwyr) bod Datganiadau Personol y Dioddefwr yn rhoi gwybodaeth bwysig a chyd-destun i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau.
- 26 o awgrymiadau (gan 14% o'r ymatebwyr) y dylai'r troseddwyr hyn gael eu trin yr un fath â throseddwyr sydd yn y system garchardai.

**O blith y 192 o ymatebwyr sydd wedi'u crybwyll uchod, dim ond 16 (8%) oedd yn anghytuno'n rhannol neu'n llawn â chaniatáu i Ddatganiadau Personol y Dioddefwr gael eu cyflwyno mewn Tribiwnlysoedd Iechyd Meddwl.** Rhoddodd yr ymatebwyr hyn resymau, gan gynnwys y dylid trin y troseddwyr hyn yn wahanol i droseddwyr eraill, nad yw Datganiadau Personol y Dioddefwr yn cael rhyw lawer o effaith ar asesiadau meddygol, ac y byddai defnyddio Datganiadau Personol y Dioddefwr yn gallu cyflwyno elfen o gosb a fyddai'n rhwystr i adferiad y troseddwr.

**Byddwn ni'n gwneud y pethau hyn:**

**Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i ystyried sut gallwn ni fynd ati, mewn ffordd sensitif a phriodol, i gynnwys darpariaeth yn y Cod i Ddatganiadau Personol y Dioddefwr gael eu cyflwyno i Dribiwnlysoedd Iechyd Meddwl.** Fe ddywedoch chi y dylai'r rheini sydd wedi dioddef trosedd a gafodd ei chyflawni gan droseddwyr y mae'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl yn ystyried eu rhyddhau, gael gwneud a chyflwyno Datganiad Personol y Dioddefwr i ddisgrifio effaith y drosedd a'u helpu i deimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Ond gwyddom fod yna elfennau sensitif mewn Tribiwnlysoedd Iechyd Meddwl sy'n wahanol i elfennau yn y system garchardai a pharôl. Byddwn yn gweithio ar y materion hyn gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a'r farnwriaeth i ystyried a oes ffyrdd o ddatblygu opsiwn newydd ar gyfer y Cod diwygiedig.

## Materion eraill a godwyd ynghylch disgwyliadau dioddefwyr

Manteisiodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys y Comisiynydd Dioddefwyr a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, ar y cyfle i sôn am bynciau a materion ychwanegol ynghylch hawliau dioddefwyr. Rydym wedi egluro isod sut mae rhai o'r materion hyn yn cael sylw ar draws y llywodraeth.

### 1. Cyfiawnder adferol

**Dyma ddywedoch chi:**

Clywsom gan y Grŵp Hollbleidiol ar Gyfiawnder Adferol y **gallai defnydd ehangach o gyfiawnder adferol helpu i annog newid diwylliannol yn y ffordd mae cymdeithas yn**

**meddwl am ddioddefwyr troseddau**, drwy alluogi'r dioddefwr i gyfathrebu'n uniongyrchol â'r diffynnydd/troseddwr.

**Byddwn ni'n gwneud y pethau hyn:**

**Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth am gyfiawnder adferol ar gael yn fwy cyson i ddioddefwyr troseddau.** Rydym yn cytuno bod cyfiawnder adferol, mewn rhai achosion, yn gallu helpu dioddefwyr i ddod at eu hunain a helpu troseddwyr i ddeall effaith eu troseddau, sy'n helpu i leihau'r risg o aildroseddu. Dyna pam rydym eisoes wedi sicrhau bod y Cod yn cynnwys hawl i gael gafael ar wybodaeth am gyfiawnder adferol. Er mwyn i'r wybodaeth hon fod ar gael yn haws, byddwn yn cynnal cynllun peilot er mwyn deall lle mae'r bylchau yn y ddarpariaeth. Byddwn yn defnyddio'r gwersi o'r cynllun peilot i sicrhau mynediad mwy cyson at gyfiawnder adferol.

## 2. Ymddygiad gwrthgymdeithasol

**Dyma ddywedoch chi:**

Clywsom gan y Comisiynydd Dioddefwyr, ac mewn rhywfaint o ymatebion, bod modd gwneud mwy i helpu'r rheini sy'n dioddef oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Byddwn ni'n gwneud y pethau hyn:**

**Rydym yn parhau i helpu'r rheini sydd wedi dioddef oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol.** Pan fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cyrraedd y trothwy troseddol, mae'r dioddefwyr hynny'n dod o dan y Cod Dioddefwyr ac yn gallu cael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth. Ar gyfer y rheini sy'n dioddef yn sgil ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson nad yw'n cyrraedd y lefel honno, mae yna bwerau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ôl y canllawiau statudol perthnasol ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheng flaen, dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ystyried cyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cymorth perthnasol.

Ar wahân i hynny, mae'r Llywodraeth yn buddsoddi £50m o'r Gronfa Strydoedd Mwy Diogel bob blwyddyn yng nghyfnod yr Adolygiad presennol o Wariant tan fis Mawrth 2025, er mwyn i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr gael yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i fynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Drwy wneud hynny, erbyn 2030 bydd llai o laddiadau, trais difrifol a throseddau cymdogaeth, yn enwedig yn yr ardaloedd â'r cyfraddau uchaf o'r troseddau hynny.

## 3. Mudwyr sy'n ddioddefwyr

**Dyma ddywedoch chi:**

Clywsom yn ymateb y Comisiynydd Dioddefwyr, ac mewn ymatebion eraill, fod **troseddwyr yn aml yn defnyddio statws mewnfudo ansicr fel arf rheoli** i gam-drin eu partneriaid ac i fygwth y byddan nhw'n cael eu hanfon o'r Deyrnas Unedig.

**Byddwn ni'n gwneud y pethau hyn:**

**Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod mudwyr sy'n ddioddefwyr yn teimlo eu bod yn gallu rhoi gwybod am droseddau a chael gafael ar gymorth**, beth bynnag fo'u statws mewnfudo. Mae'n bosibl nad yw'r dioddefwyr hyn yn rhoi gwybod am droseddau fel cam-drin domestig a thrais rhywiol oherwydd eu statws mewnfudo.

Y llynedd, lansiodd y Swyddfa Gartref y Cynllun Cymorth i Fudwyr sy'n Ddioddefwyr er mwyn helpu dioddefwyr nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd neu lwybrau eraill at gymorth, gyda £1.5 miliwn o gyllid gan y Llywodraeth. Mae'r cynllun peilot o 12 mis wedi darparu gwasanaethau cymorth cofleidiol i ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n methu cael gafael ar arian cyhoeddus, gan gynnwys llety, cynhaliaeth a chwnsela, ac mae'n ein galluogi i gael mwy o dystiolaeth i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol. Bydd yr adroddiad gwerthuso terfynol yn cael ei gyhoeddi yn ystod Haf 2022, a bydd y Swyddfa Gartref yn darparu £1.4 miliwn yn 2022–23 er mwyn parhau i gynorthwyo mudwyr sy'n dioddef cam-drin domestig.

Bydd y Swyddfa Gartref hefyd yn cyflwyno Protocol Rheoli Mewnfudo ar gyfer Mudwyr sy'n Ddioddefwyr ddiwedd Haf 2022. Bydd y Protocol yn sicrhau bod mudwyr sy'n ddioddefwyr ac yn rhoi gwybod am drosedd yn cael eu heithrio rhag camau rheoli mewnfudo yn ystod yr achos troseddol, a'u bod yn cael cymorth i wneud cais am statws mewnfudo cydnabyddedig (regularising) ar gyfer eu harhosiad yn y Deyrnas Unedig.

## 4. Cynrychiolaeth gyfreithiol ar gyfer dioddefwyr

**Dyma ddywedoch chi:**

Clywsom y Comisiynydd Dioddefwyr ac ymatebion eraill yn **galw am sicrhau bod dioddefwyr yn cael cyngor cyfreithiol am ddim** gan gyfreithiwr cymwys, yn enwedig mewn perthynas â deall ceisiadau am ddatgelu gwybodaeth.

Cawsom hefyd ymatebion yn galw am **ddarparu arian cyhoeddus, nad yw'n seiliedig ar brawf modd, i deuluoedd mewn profedigaeth mewn cwestau** sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus.

**Byddwn ni’n gwneud y pethau hyn:**

**Rydym yn ymgynghori ag ymarferwyr ynghylch sut i wella’r cymorth a roddir i ddioddefwyr sydd wedi cael eu treisio ac wedi dioddef troseddau rhywiol difrifol sy’n destun ceisiadau am wybodaeth bersonol, yn unol â’r ymrwymiad yng Nghynllun Gweithredu’r Adolygiad Hollgynhwysol o Dreisio.** Bydd y newid hwn yn galluogi dioddefwyr i ddeall a herio’n well unrhyw geisiadau am wybodaeth gan yr heddlu ac erlynwyr ar gyfer deunydd digidol a deunydd trydydd parti. Yn y pen draw, rydym eisiau i’r ceisiadau hyn fod yn iawn y tro cyntaf i ddioddefwyr. Mae gennym becyn eang o waith i sicrhau bod ceisiadau am ddatgeliadau yn gymesur er mwyn helpu i gyflawni’r nod hwnnw, gan gynnwys diweddariadau gan Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol a Gwasanaeth Erlyn y Goron ar ganllawiau datgelu, gan gynnwys deunyddiau digidol, Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd 2022 sydd wedi cyflwyno mesurau diogelu ar gyfer tynnu gwybodaeth ddigidol oddi ar ddyfeisiau dioddefwyr, ac ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar opsiynau i sicrhau bod ceisiadau am ddeunyddiau trydydd parti gan yr heddlu (fel cofnodion meddygol, addysg neu awdurdod lleol) yn fwy cymesur ac amserol.

**Mae’r Llywodraeth hefyd wedi gweithio ar nifer o fesurau i ddiwallu anghenion teuluoedd sydd mewn profedigaeth.** Dim ond drwy’r cynllun Cyllid Achos Eithriadol y gellir cael cymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth mewn cwestau. Mae'r cynllun hwn yn darparu cymorth cyfreithiol pan fyddai peidio â gwneud hynny’n arwain at dorri amodau’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, neu pan fydd darparu cynrychiolaeth yn y cwest yn debygol o arwain at fudd sylweddol i’r cyhoedd yn gyffredinol. Yn ddiweddar, mae’r Llywodraeth wedi cael gwared ar y prawf modd ar gyfer ceisiadau llwyddiannus am gynrychiolaeth drwy’r cynllun Cyllid Achos Eithriadol. Rydym wrthi’n ymgynghori ar yr adolygiad o’r prawf modd, ac rydym yn cynnig cael gwared ar y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol mewn perthynas ag unrhyw gwestau lle mae hawliau dynol wedi cael eu tanseilio o bosibl, neu lle mae budd sylweddol i’r cyhoedd yn gyffredinol. Mae’r Llywodraeth hefyd wedi cyflwyno mesurau ehangach i gynorthwyo teuluoedd sydd mewn profedigaeth, gan gynnwys diweddaru’r canllawiau ar gyfer crwneriaid, cyfreithwyr a chynrychiolwyr adrannau’r llywodraeth mewn cwestau. Mae'r Ddeddf Adolygiad Barnwrol a’r Llysoedd yn cynnwys llawer o fesurau sy’n ceisio gwella profiad teuluoedd mewn profedigaeth yn y cwest.

# Pennod 2 – Gwella goruchwyliaeth ac ysgogi gwell perfformiad

Ein nod yw sicrhau bod asiantaethau cyfiawnder troseddol bob amser yn sicrhau cyfiawnder ac yn rhoi gwell profiad i ddioddefwyr, a bod mecanweithiau goruchwylio priodol ac effeithiol ar waith er mwyn deall pa mor dda mae'r system yn gweithio.

Rydym eisiau i ddioddefwyr ymddiried yn yr asiantaethau sydd yno i'w helpu, ac ymddiried yn y mecanweithiau sy'n bodoli i ddal yr asiantaethau hynny'n atebol pan fydd pethau'n mynd o'i le.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn cwestiynau ynghylch sut gellid cryfhau'r systemau a'r mecanweithiau goruchwylio presennol ar lefelau cenedlaethol a lleol, sut gellir cymell asiantaethau'n effeithiol a'u dal yn atebol am y ffordd maen nhw'n trin dioddefwyr, a sut gallwn ddysgu'n effeithiol o well data a chyfeirio adborth dioddefwyr am y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn. Roeddem hefyd wedi gofyn cwestiynau ynghylch sut gellid cryfhau prosesau cwyno i'w gwneud yn fwy tryloyw ac yn haws eu defnyddio.

Rydym eisoes yn gweithio'n galed i wella tryloywder ar draws y system cyfiawnder troseddol drwy gyhoeddi cardiau sgorio. Mae'r rhain yn mesur ymgysylltiad dioddefwyr, pan fydd dioddefwyr yn teimlo y gallant barhau i gymryd rhan yn eu hachos wrth i asiantaethau ei symud ymlaen drwy'r system cyfiawnder troseddol. Maen nhw hefyd yn monitro data ar bethau rydym ni'n gwybod sy'n bwysig i ddioddefwyr, fel yr amser mae'n ei gymryd i achosion fynd drwy'r system. Mae cardiau sgoriau lleol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn rhoi darlun manylach i ni, ac yn ein galluogi i ddeall y system cyfiawnder troseddol yn well ac i gefnogi cydweithio, yn enwedig ar lefel leol drwy Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol.

Rydym yn ymrwymo i fynd ymhellach yn awr. Rydym am fynd i'r afael â'r materion systemig sy'n arwain at ddioddefwyr yn cael eu trin yn wael.

Mae'r bennod hon yn trafod sut byddwn yn:

- **Gwella strwythurau a mecanweithiau goruchwylio ac yn gwella'r ffordd mae dioddefwyr yn cael eu trin**, drwy roi dyletswydd ar Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ac asiantaethau i fonitro cydymffurfedd â'r Cod Dioddefwyr yn yr ardal leol, ac i ystyried adborth gan ddioddefwyr; rhoi mwy o bwyslais ar ddioddefwyr mewn arolygiadau o asiantaethau cyfiawnder troseddol; a newid rôl y Comisiynydd Dioddefwyr.
- **Cynnwys llais dioddefwyr yn y broses cyfiawnder troseddol** drwy osod dyletswydd ar asiantaethau cyfiawnder troseddol perthnasol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu i

ystyried adborth gan ddioddefwyr er mwyn cael cyd-destun i'r data ar gydymffurfio â'r Cod, ac ychwanegu at y data hwnnw.

- **Symleiddio prosesau cwyno ar gyfer dioddefwyr troseddau ac yn gwneud data cwynion yn fwy tryloyw**, drwy gael gwared ar y gofyniad i Aelodau Seneddol hidlo cwynion gan ddioddefwyr i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd, a gwella'r broses o gyfathrebu â dioddefwyr am y broses gwyno ac adrodd ar gwynion.

## Gwella strwythurau a mecanweithiau goruchwylio, a gwella'r ffordd mae dioddefwyr yn cael eu trin

### 1. Monitro'r Cod Dioddefwyr

Mae asiantaethau cyfiawnder troseddol yn gweithio'n galed i gasglu data am berfformiad, i nodi materion i'w hystyried, ac i roi sylw i broblemau posibl gyda phrofiadau dioddefwyr. Ond mae cyd-destun y system cyfiawnder troseddol yn gymhleth, gyda chyfrifoldeb yn cael ei rannu rhwng gwahanol bartneriaid sy'n annibynnol o safbwynt gweithredol. Felly, mae'n gallu bod yn anodd gwybod i ba raddau mae'r system yn gweithio i ddioddefwyr. Fel sy'n cael ei egluro yn ein hymgynghoriad, nid yw'r rhan fwyaf o asiantaethau'n casglu data am ddioddefwyr yn systematig, gan gynnwys i ba raddau mae'r Cod Dioddefwyr (y Cod) yn cael ei gyflawni. A gwyddom nad yw dioddefwyr bob amser o'r farn eu bod yn derbyn lefel o wasanaeth y mae ganddyn nhw hawl i'w chael. Yn 2019/20, 45% o'r dioddefwyr oedd yn teimlo bod yr heddlu ac asiantaethau eraill ym maes cyfiawnder troseddol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw, a dim ond 18% o'r dioddefwyr oedd yn cofio cael cyfle i wneud Datganiad Personol y Dioddefwr.[18]

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu hethol gan y cyhoedd i ddarparu gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol yn eu hardal, ac fel rhan o hynny, maen nhw'n rhan hollbwysig o'r gwaith o wella a hyrwyddo gwasanaethau i ddioddefwyr. Maen nhw'n gwneud hyn yn uniongyrchol drwy gomisiynu gwasanaethau cymorth, ac yn anuniongyrchol drwy gynnig atebolrwydd democrataidd lleol a chadeirio Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol mewn nifer o ardaloedd.

**Dyma ddywedoch chi:**

**O blith 172 o ymatebwyr, roedd 167 (97%) yn cytuno bod angen mwy o gydweithio rhyngasiantaethol ar lefel leol er mwyn sicrhau gwell profiad i ddioddefwyr a monitro cydymffurfedd â'r Cod. Cafwyd llawer o argymhellion gan yr ymatebwyr, gan gynnwys:**

---

18 'Experience of the criminal justice system for victims of crime, England and Wales, year ending March 2020'; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, GOV.UK

- 95 o awgrymiadau (gan 55% o'r ymatebwyr) am wella'r ffordd mae asiantaethau'n cyfathrebu ac yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd drwy gyfarfodydd cydasiantaethol rheolaidd i drafod cyflawni'r Cod, canllawiau cliriach ar gyfer rhannu data, systemau safonol i rannu gwybodaeth a/neu ddyletswyddau statudol.
- 41 o awgrymiadau (gan 24% o'r ymatebwyr) y byddai gwell dealltwriaeth o brofiadau dioddefwyr yn hwyluso gwell cydweithio rhwng asiantaethau i gynorthwyo asiantaethau.
- 34 o awgrymiadau (gan 20% o'r ymatebwyr) i fabwysiadu mecanweithiau a gweithdrefnau newydd i helpu i gydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys canllawiau cliriach ar gydymffurfio, rhoi mwy o bŵer i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu i ddal gwasanaethau cymorth lleol yn atebol, a phrosesau cwyno ac adborth i ddod o hyd i fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau ar y cyd.
- 21 o awgrymiadau (gan 12% o'r ymatebwyr perthnasol) i wella'r gwaith cynllunio ac atebolrwydd ar draws asiantaethau.

**O blith 136 o ymatebwyr, roedd 129 (95%) yn cytuno y dylid annog asiantaethau i rannu data'n gyson ar lefelau lleol a chenedlaethol er mwyn monitro cydymffurfedd â'r Cod. Roedd y rheini a oedd o blaid rhannu data wedi gwneud nifer o awgrymiadau ynghylch sut gellid gwneud hynny:**

- Roedd 42 o awgrymiadau (gan 31% o'r ymatebwyr) yn tynnu sylw at yr angen am well data, gan gynnwys system ganolog i reoli data a gwell cysondeb o ran data.
- Roedd 40 o awgrymiadau (gan 29% o'r ymatebwyr) yn pwysleisio newidiadau statudol/rheoleiddiol i helpu asiantaethau i rannu data'n well â'i gilydd, er enghraifft canllawiau cliriach a phrotocolau rhannu data a/neu ddyletswydd statudol i rannu data.
- Roedd 34 o awgrymiadau (gan 25% o'r ymatebwyr) o blaid defnyddio mecanweithiau atebolrwydd a goruchwylio ar y cyd i orfodi asiantaethau i rannu data'n well â'i gilydd.
- Roedd 23 o awgrymiadau (gan 17% o'r ymatebwyr) yn awgrymu bod angen mwy o waith partneriaeth neu gydgysylltiedig.

**O blith 143 o ymatebwyr, roedd 133 (93%) yn cytuno y dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu gael rôl yn helpu dioddefwyr, a chynigiwyd gwahanol safbwyntiau ynghylch pa rôl ddylai honno fod:**

- Roedd 65 o awgrymiadau (gan 45% o'r ymatebwyr) yn cyfeirio at rôl arweiniol ym maes comisiynu i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu.
- Roedd 44 o awgrymiadau (gan 31% o'r ymatebwyr) yn dweud y dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu nodi anghenion dioddefwyr o ran gwasanaeth cymorth.
- Roedd 50 o awgrymiadau (gan 35% o'r ymatebwyr) yn pwysleisio rôl Comisiynwyr Heddlu a Throseddu wrth fonitro'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr.
- Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn ariannu gwasanaethau cymorth lleol, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn eirioli ar ran

dioddefwyr, a rôl Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i sefydlu prosesau adborth ar gyfer dioddefwyr a gweithdrefnau cwyno.

Cafwyd amrywiaeth o awgrymiadau gan 56 o ymatebwyr ar sut i gyflawni'r swyddogaethau uchod, gan gynnwys:

- 26 o awgrymiadau (gan 18% o'r ymatebwyr) am gynyddu pwerau statudol Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i fonitro a gorfodi cydymffurfedd â'r Cod.
- 14 o awgrymiadau (gan 10% o'r ymatebwyr) am fwy o gyllid/adnoddau.
- 5 o awgrymiadau (gan 3% o'r ymatebwyr) i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu gael mwy o ymreolaeth i reoli eu cyllid.

Roedd y Comisiynydd Dioddefwyr hefyd yn cefnogi'r safbwyntiau hyn, gan ddweud y dylai'r Comisiynwyr gael y ddyletswydd statudol i fonitro cydymffurfedd â'r Cod Dioddefwyr ar lefel leol, a chael y pŵer statudol i ofyn am ddata gan asiantaethau cyfiawnder troseddol sydd wedi'u rhestru yn y Cod.

**Byddwn ni'n gwneud y pethau hyn:**

Mae gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu eisoes rôl allweddol yn y gwaith o ddod ag asiantaethau at ei gilydd yn anffurfiol i fonitro'r Cod. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr y dylid cryfhau rôl Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn hyn o beth, ac y dylid gwneud mwy i fynnu bod y Cod yn cael ei fonitro'n well.

**Felly, yn y Bil Dioddefwyr byddwn yn gosod dyletswydd ar yr asiantaethau cyfiawnder troseddol perthnasol (yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, Timau Troseddau Ieuenctid a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi) i gasglu data ac i adolygu'n gyson y ffordd maen nhw'n cyflawni'r Cod.** Bydd hyn yn cael ei ategu gan reoliadau sy'n egluro pa ddata y dylid ei gasglu a'i rannu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cysondeb ar draws Cymru a Lloegr, ac yn creu darlun cenedlaethol o'r modd y mae'r Cod Dioddefwyr yn cael ei gyflawni ar draws y system cyfiawnder troseddol, gan alluogi ardaloedd lleol i addasu eu trefniadau er mwyn bodloni eu trefniadau penodol eu hunain gystal â bosibl.

Byddwn yn mynnu bod Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn ysgwyddo rôl gynnull wrth fonitro cydymffurfedd, drwy gadeirio trafodaethau rheolaidd mewn fforymau priodol (Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol fwy na thebyg) i drafod y data, a byddwn yn mynnu bod hyn yn cael ei drafod ochr yn ochr ag adborth gan ddioddefwyr. Sylwer bod y gofyniad i ystyried adborth gan ddioddefwyr yn amodol ar ymgynghoriad â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi'r data a fydd yn deillio o'r ymarfer hwn, a byddwn yn gweithio i ddatblygu metrigau newydd ar gyfer cardiau sgoriau cyfiawnder troseddol lleol. Bydd y data hwn yn cael ei fonitro ar lefelau cenedlaethol a lleol gan strwythurau llywodraethu ar draws y system cyfiawnder troseddol, i wneud yn siŵr ein bod yn gallu

deall y gwahaniaethau a'i gwneud yn bosibl i rannu arferion gorau er mwyn helpu asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol i sicrhau gwelliannau.

Bydd y broses uchod yn darparu gwell fframwaith cenedlaethol i oruchwylio cydymffurfedd â'r Cod. Gall data lleol hefyd helpu gweinidogion a'r arolygiaethau i ystyried lle gellid canolbwyntio ar graffu pellach.

**Byddwn yn trosglwyddo'r swyddogaeth o adolygu gweithrediad y Cod o ddwylo'r Comisiynydd Dioddefwyr i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, er mwyn cryfhau cyfrifoldeb lleol.**

Mae'r Comisiynydd Dioddefwyr yn gorff sy'n eirioli dros bob dioddefwr ar lefel genedlaethol, ac yn annog gwell arferion o ran y ffordd mae dioddefwyr yn cael eu trin yn y system cyfiawnder troseddol. Nid yw'n asiantaeth ar lefel leol, ac nid yw'n meddu ar y strwythurau na'r fframwaith angenrheidiol i ymgysylltu'n lleol. Mae angen gwneud asiantaethau'n fwy atebol am y ffordd maen nhw'n trin dioddefwyr ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol.

Yn unol â'r ddyletswydd rydym yn ei gosod ar asiantaethau perthnasol i fonitro cydymffurfedd â'r Cod, a rôl gynyddol Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i ysgogi gwell profiadau i ddioddefwyr, byddwn yn rhyddhau'r Comisiynydd Dioddefwyr o'r swyddogaeth i adolygu gweithrediad y Cod ar lefel leol. Bydd y Comisiynydd Dioddefwyr yn dal yn gallu ymgysylltu ar gydymffurfedd â'r Cod ar lefel genedlaethol.

Wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth uchod, byddwn yn ymwybodol o annibyniaeth weithredol ein partneriaid cyfiawnder troseddol, annibyniaeth y farnwriaeth o dan y cyfansoddiad, ac egwyddor gyfansoddiadol allweddol yr annibyniaeth sydd gan erlynwyr wrth wneud penderfyniadau.

## 2. Rôl y Comisiynydd Dioddefwyr

Mae'r Comisiynydd Dioddefwyr yn llais pwerus ar ran defnyddwyr. Fe'i penodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ond mae'n annibynnol ar y llywodraeth. Mae swyddogaethau'r Comisiynydd Dioddefwyr wedi'u pennu mewn statud, ac maen nhw'n cynnwys hyrwyddo buddiannau dioddefwyr a thystion, hybu arferion da o ran y ffordd mae dioddefwyr a thystion yn cael eu trin, adolygu gweithrediad y Cod yn gyson, cyhoeddi adroddiad blynyddol, a chynghori Gweinidogion ar gais.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr yn dweud nad oes ganddyn nhw ddigon o bwerau i'r Comisiynydd gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol. Does dim rhaid i asiantaethau ddarparu data i'r Comisiynydd Dioddefwyr, nac ymateb i unrhyw argymhellion gan y Comisiynydd. Mae hyn yn wahanol i'r Comisiynydd Cam-drin Domestig – rôl a roddwyd ar sail statudol drwy'r Ddeddf Cam-drin Domestig – sydd (o dan

adran 16 y Ddeddf) yn mynnu bod adrannau'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus penodol yn cyhoeddi ymateb i argymhellion y Comisiynydd Cam-drin Domestig. Roeddem am gasglu safbwyntiau yn yr ymgynghoriad ar y swyddogaethau mwyaf hanfodol i sicrhau bod y Comisiynydd Dioddefwyr yn effeithiol.

**Dyma ddywedoch chi:**

**O blith 151 o ymatebwyr, dywedodd 96 (64%) fod cynorthwyo ac eirioli ar ran dioddefwyr yn un o rolau allweddol y Comisiynydd Dioddefwyr. Roedd pwyslais ar godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â dioddefwyr, cyfathrebu'n agored a thryloyw â dioddefwyr, a nodi anghenion cymorth dioddefwyr. Dyma rai o'r swyddogaethau pwysig eraill a nodwyd gan yr ymatebwyr:**

- Ymgysylltu â gwasanaethau dioddefwyr, er enghraifft i annog arferion da a rhannu data, a thrwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid.
- Adolygu a gweithredu'r Cod, gan gynnwys argymell newidiadau i'r Cod, casglu adborth gan ddioddefwyr, ac adrodd yn ôl i'r Llywodraeth ar heriau gweithredu a gwendidau o ran cydymffurfedd asiantaethau.
- Gorfodi darparwyr gwasanaeth i gydymffurfio.

**Galwodd y Comisiynydd Dioddefwyr am atgyfnerthu'r rôl ymhellach, gan gynnwys drwy'r canlynol:**

- Darparu adnoddau digonol i fonitro ac adolygu gweithrediad y Cod.
- Sefydlu fframwaith sy'n rheoli sut gall y Comisiynydd Dioddefwyr gael gafael ar ddata perthnasol a chynnal adolygiad o'r Cod.
- Adrodd yn ôl i'r Senedd ar weithrediad y Cod a'r broses o'i roi ar waith.
- Rhoi'r gallu i'r Comisiynydd Dioddefwyr ymgynghori â chyrff eraill.
- Gofyniad cyfreithiol i'r asiantaethau Cyfiawnder Troseddol sydd wedi'u rhestru yn y Cod gydymffurfio â gwaith y Comisiynydd Dioddefwyr.

**Byddwn ni'n gwneud y pethau hyn:**

I ymateb i adborth ar sut i wneud y Comisiynydd Dioddefwyr mor effeithiol â phosibl, byddwn yn newid y rôl mewn tair ffordd.

**Byddwn yn mynnu bod asiantaethau cyfiawnder troseddol, yn ogystal ag adrannau'r llywodraeth, yn ymateb i argymhellion adroddiad blynyddol y Comisiynydd Dioddefwyr.** Er bod y Comisiynydd Dioddefwyr yn gallu gwneud argymhellion i lawer o asiantaethau ac adrannau, ar hyn o bryd does gan y rheini sy'n cael argymhellion ddim dyletswydd i ymateb. Yn unol â hynny, byddwn yn gosod dyletswydd ar set benodol o asiantaethau sydd â chyfrifoldeb canolog dros ofalu bod dioddefwyr yn cael eu hawliau o dan y Cod – i ymateb i argymhellion y Comisiynydd Dioddefwyr yn ei adroddiad blynyddol, pan wneir yr argymhellion hynny ar gyfer yr asiantaeth neu'r adran honno. Bydd yn rhaid i'r asiantaeth neu'r adran ymateb i'r argymhelliad a chyhoeddi ei sylwadau o fewn 56 diwrnod i gyhoeddi'r adroddiad blynyddol, gan egluro sut byddan nhw'n gweithredu ar yr

argymhelliad, neu sut byddan nhw'n gwneud hynny yn y dyfodol, neu roi rhesymau pam na fyddan nhw'n gweithredu ar yr argymhelliad. Bydd yn rhaid i'r asiantaeth neu'r adran hefyd drefnu i'w sylwadau gael eu cyhoeddi mewn ffordd maen nhw o'r farn sy'n briodol.

**Byddwn yn mynnu bod y Comisiynydd Dioddefwyr yn cyflwyno ei adroddiadau blynyddol gerbron y Senedd.** Mae'n rhaid i'r Comisiynydd Dioddefwyr baratoi adroddiad blynyddol bob blwyddyn. Byddwn yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd Dioddefwyr i gyflwyno ei adroddiad blynyddol gerbron y Senedd bob blwyddyn (gan nodi bod y Comisiynydd Dioddefwyr wedi cyflwyno ei adroddiad blynyddol diweddaraf yn y Senedd yn wirfoddol ym mis Gorffennaf 2021), ac i gyhoeddi'r adroddiad i helpu i godi proffil materion dioddefwyr.

**Fel sy'n cael ei amlinellu yn "1. Monitro'r Cod Dioddefwyr", byddwn yn trosglwyddo'r swyddogaeth o adolygu gweithrediad y Cod o ddwylo'r Comisiynydd Dioddefwyr i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, er mwyn rhyddhau amser ac adnoddau'r Comisiynydd.**

Bydd hyn yn galluogi'r Comisiynydd Dioddefwyr i ganolbwyntio ar ei swyddogaethau ehangach eraill, sef hyrwyddo buddiannau dioddefwyr ac annog gwell arferion gan asiantaethau o ran y ffordd maen nhw'n trin dioddefwyr. Bydd y Comisiynydd Dioddefwyr yn dal yn rhan hollbwysig o'r gwaith o wella cydymffurfedd â'r Cod ar lefel genedlaethol drwy ei swyddogaethau eraill, er enghraifft wrth gyhoeddi adroddiadau a gwneud argymhellion, cynghori Gweinidogion, a thrwy ei rôl ar y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol. Bydd y Comisiynydd Dioddefwyr hefyd yn cadw'r pŵer penodol i argymell newidiadau i'r Cod, fel y nodir mewn statud.

## 3. Mae'r arolygiaethau cyfiawnder troseddol yn canolbwyntio ar brofiadau dioddefwyr a'u rôl i gymell a helpu asiantaethau i wella

Mae gwaith yr arolygiaethau cyfiawnder troseddol yn rhan hanfodol o'r broses o sicrhau bod asiantaethau cyfiawnder troseddol yn trin dioddefwyr fel y dylent. Mae'r arolygiaethau'n asesu profiadau dioddefwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd, ond gwyddom y gellid gwneud gwelliannau. Er enghraifft, nid yw gwybodaeth am ddioddefwyr yn cael ei chasglu mewn ffordd systematig fel arfer, nac yn cael ei dwyn ynghyd fel mater o drefn ar draws arolygiaethau ar gyfer dadansoddiad cyffredinol, ac eithrio yn achos adroddiadau thematig. Mae dulliau asesu, sgorio a pherfformiad hefyd yn amrywio.

Gofynnwyd a fyddai modd atgyfnerthu a gwella arolygiaethau mewn perthynas â dioddefwyr, a sut gellid gwneud hynny.

**Dyma ddywedoch chi:**

**Clywsom nad yw'r arolygiaethau'n cydweithio'n effeithiol o fewn fframweithiau presennol yr arolygiaethau i flaenoriaethu materion dioddefwyr.** Roedd 119 (90%) o

blith 132 o ymatebwyr wedi dweud hynny, ac wedi cynnig nifer o awgrymiadau i gefnogi eu safbwynt:

- Roedd 39 o awgrymiadau (a wnaed gan 30% o'r ymatebwyr) yn cyfeirio at ddiffyg pwyslais ar ddioddefwyr, gyda rhai ymatebwyr yn dweud nad oedd fframweithiau'n gwneud i ddioddefwyr deimlo eu bod yn cael eu clywed na'u grymuso, ac nad yw anghenion dioddefwyr yn cael eu bodloni. Roedd ymateb y Comisiynydd Dioddefwyr yn datgan nad oedd o'r farn bod rhaglenni presennol yr arolygiaethau yn rhoi digon o bwyslais ar faterion dioddefwyr, a nododd y Comisiynydd Cam-drin Domestig y diffyg pwyslais ar faterion dioddefwyr pan gynhelir arolygiadau ar y system cyfiawnder troseddol.
- Roedd 22 o awgrymiadau (a wnaed gan 17% o'r ymatebwyr) yn pwysleisio fod strwythurau rheoli a llywodraethu gwael yn esbonio pam nad yw fframweithiau arolygiaethau'n cydweithio'n effeithiol – gan dynnu sylw, ymysg ffactorau eraill, at ddiffyg swyddogaethau, cyfrifoldebau a strwythurau atebolrwydd clir, lefelau anghyson o gydymffurfio ag argymhellion ar draws y system cyfiawnder troseddol, a diffyg corff neu gynllun cyd-drefnu.
- Roedd 12 o awgrymiadau (a wnaed gan 9% o'r ymatebwyr) yn dweud bod dull gweithredu tameidiog yr arolygiaethau, a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, yn tanseilio eu gallu i gydweithio'n effeithiol. Ymhlith pethau eraill, roedd yr ymatebion hyn yn tynnu sylw at y diffyg amcanion cyffredin, y bylchau mewn gwybodaeth, pwyslais arbenigol yr arolygiaethau, a'u cynlluniau tymor byr ac unigol.

Fodd bynnag, dywedodd ymatebwyr eraill fod yr arolygiaethau yn rhoi digon o bwyslais ar brofiadau dioddefwyr ar hyn o bryd, ac yn cydweithio'n effeithiol ar draws y system cyfiawnder troseddol. Roedden nhw'n awgrymu bod y canlynol yn brawf o hynny: yr arolygiadau a gynhelir fel rhan o weithgarwch craidd pob arolygiaeth (sy'n edrych ar faterion dioddefwyr); y cynllun busnes presennol ar gyfer cydarolygiadau, sy'n disgrifio ansawdd profiad dioddefwyr a thystion fel un o'r tri mater trawsbynciol sy'n sail i holl waith y cydarolygiadau; y cydarolygiadau a gynhaliwyd yn ddiweddar ar ddioddefwyr, fel y rheini ar erlyniadau treisio a cham-drin domestig sy'n seiliedig ar dystiolaeth; a'r cydarolygiadau sydd wrthi'n cael eu cynllunio, fel bodloni anghenion dioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol.

**O blith 109 o ymatebwyr, roedd pawb yn cytuno y byddai modd atgyfnerthu'r arolygiaethau i helpu i ddatrys y materion uchod.** Roedden nhw wedi cynnig gwahanol ffyrdd o wneud hynny:

- Roedd 26 o argymhellion (24% o'r ymatebwyr) yn pwysleisio y gallai arolygiaethau ymgysylltu mwy â dioddefwyr yn ystod eu harolygiadau a rhoi pwyslais ar brofiad dioddefwyr, er enghraifft drwy well prosesau i werthuso perfformiad, effeithiolrwydd argymhellion a chydymffurfedd â'r argymhellion, a data o well ansawdd a mwy amrywiol.

- Roedd 13 o argymhellion (12% o'r ymatebwyr) yn rhestru newidiadau sefydliadol, gan gynnwys creu corff arolygiaeth arbenigol i ganolbwyntio ar gydymffurfio â'r Cod/gwasanaethau i ddioddefwyr.
- Roedd 9 o argymhellion (8% o'r ymatebwyr) yn sôn am well tryloywder.
- Roedd 8 o argymhellion (7% o'r ymatebwyr) yn pwysleisio rhoi mwy o awdurdod i arolygiaethau.
- Roedd 5 o argymhellion (5% o'r ymatebwyr) yn ymwneud â mwy o adnoddau ar gyfer arolygiaethau.

**Roeddem hefyd wedi gofyn cwestiynau am sut mae arolygiaethau'n casglu ac yn adrodd ar ddata. Roedd 63 o blith 69 o ymatebwyr (91%) yn cytuno nad oes digon o ddata dioddefwyr yn cael ei gasglu a'i gofnodi o fewn trefniadau presennol yr arolygiaethau.** Cafwyd llawer o syniadau am welliannau gan 40 o ymatebion. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys:

- 15 o awgrymiadau (gan 38% o'r ymatebwyr) i arolygiaethau wneud mwy i sicrhau bod asiantaethau'n gweithredu mewn ffordd sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ddioddefwyr.
- 11 o awgrymiadau (gan 28% o'r ymatebwyr) i arolygiaethau gyd-drefnu'r broses o rannu data ar draws asiantaethau.
- 8 o awgrymiadau (gan 20% o'r ymatebwyr) i arolygiaethau oruchwylio a/neu hwyluso'r gwaith o gasglu data dioddefwyr.
- 5 o awgrymiadau (gan 13% o'r ymatebwyr) i arolygiaethau fonitro a gwerthuso'r cymorth a roddir i ddioddefwyr.

Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai unrhyw gynlluniau i ehangu pwerau neu fandad arolygiaethau fod yn gymesur a chael eu hariannu'n briodol. **O blith 145 o ymatebion, roedd 102 o ymatebion (70%) yn cytuno'n llwyr ei bod yn rhaid cael dulliau mwy safonol a chyson o oruchwylio a chynorthwyo asiantaethau**, gyda 34 o ymatebwyr eraill (23%) yn cytuno y gallai hyn fod yn ddefnyddiol mewn egwyddor, ar yr amod bod pwyntiau eraill yn cael eu hystyried neu eu hychwanegu. Roedd yr ystyriaethau ychwanegol a awgrymwyd yn cynnwys nodi bod dulliau safoni effeithiol yn dibynnu ar gyllid, y dylid canolbwyntio ar gynnig cymhellion da, a'i bod yn rhaid cael rhywfaint o hyblygrwydd a gallu addasu gan nad oes un ateb sy'n gweithio i bawb. O blith 88 o ymatebwyr, roedd 81 (92%) yn cytuno bod sectorau eraill yn defnyddio mecanweithiau goruchwylio a fyddai'n gallu cael eu defnyddio yn y system cyfiawnder troseddol hefyd. Yn benodol, roedd yr ymatebion yn pwysleisio'r fantais o gyflwyno mecanweithiau monitro cryfach (ee, prosesau cwyno, archwiliadau, rheoli perfformiad), mecanweithiau gorfodi cryfach, a gwell rheoliadau ar oruchwylio.

**Yn olaf, o blith 167 o ymatebwyr, roedd 153 (97%) yn cytuno y dylai methiannau wrth ddarparu gwasanaeth arwain at ganlyniadau.** Awgrymodd 58 o ymatebwyr (35%) y dylai asiantaethau cyfiawnder troseddol ac unigolion gael eu dal yn atebol, awgrymodd 55 o ymatebwyr (33%) mai dim ond asiantaethau cyfiawnder troseddol ddylai gael eu dal yn

atebol, ac awgrymodd 30 o ymatebwyr (18%) mai dim ond unigolion ddylai gael eu dal yn atebol.

**Byddwn ni’n gwneud y pethau hyn:**

Rydym yn ymrwymo i gynyddu pwyslais yr arolygiaethau ar brofiadau dioddefwyr, mewn arolygiadau craidd yn ogystal â chydarolygiadau.

**Byddwn yn defnyddio’r Bil Dioddefwyr i sicrhau bod yr arolygiaethau cyfiawnder troseddol yn cynnal cydarolygiadau thematig rheolaidd ar brofiadau dioddefwyr.**

Mae’r arolygiaethau cyfiawnder troseddol eisoes yn cydweithio i gyflawni rhaglen waith ar y cyd i fynd i’r afael â materion sy’n ymwneud â mwy nag un asiantaeth cyfiawnder troseddol. Drwy gydweithio, mae’r arolygiaethau’n gallu cael archwiliad mwy cyflawn o faterion sy’n berthnasol i’r system cyfiawnder troseddol drwyddi draw.

I wneud hynny, mae’r arolygiaethau’n cytuno ar Raglen Cydarolygu Cyfiawnder Troseddol bob dwy flynedd, sy’n egluro pa arolygiadau maen nhw'n bwriadu eu cynnal gyda’i gilydd a pha bynciau fydd yn cael sylw. Yn draddodiadol, mae’r rhaglen hon yn cynnwys nifer o gydarolygiadau thematig – fel arfer, arolygiad pwrpasol unigol sy’n ymweld â nifer o ardaloedd i gyfrannu at un adroddiad terfynol ar fater “thematig” (er enghraifft, ymchwiliad ynghylch treisio ac erlyn achosion o dreisio).

Yn ôl yr ymatebion i’r ymgynghoriad, dylid canolbwyntio mwy ar ddioddefwyr yn ystod arolygiadau. I ymateb i hynny, byddwn ni’n awr yn creu pŵer yn y Bil Dioddefwyr i’r Ysgrifennydd Cartref, yr Arglwydd Ganghellor a’r Twrnai Cyffredinol gyfarwyddo arolygiaethau cyfiawnder troseddol i sicrhau bod eu Rhaglen Cydarolygu Cyfiawnder Troseddol yn cynnwys cydarolygiadau thematig rheolaidd ynghylch asesu profiadau dioddefwyr.

Bydd y gofyniad hwn yn helpu i wella tryloywder a’r broses o oruchwylio perfformiad asiantaethau cyfiawnder troseddol mewn perthynas â dioddefwyr, i gynyddu atebolrwydd ymysg y rheini sy’n gyfrifol, ac i wella'r ffordd mae dioddefwyr yn cael eu trin yn y pen draw. Bydd yn gwneud hyn drwy:

- Sicrhau mwy o bwyslais ar asesu’r ffordd mae dioddefwyr yn cael eu trin fel rhan o asesiadau’r arolygiaethau.
- Sicrhau bod yr arolygiaethau’n cydweithio’n rheolaidd i archwilio'r ffordd mae dioddefwyr yn cael eu trin.
- Edrych yn drylwyr ar brofiadau dioddefwyr ar draws y system cyfiawnder troseddol – gan roi sylw i’r broses gyfan, yn hytrach nag edrych ar brofiadau unigol yn unig.
- Rhoi cyfle i ymchwilio’n drylwyr i faterion allweddol sy’n ymwneud â dioddefwyr er mwyn eu harchwilio mewn ffordd gyfannol.

Bydd hyn yn berthnasol i'r holl arolygiaethau cyfiawnder troseddol, ac fel rhan o'r arolygiadau thematig hyn byddan nhw'n asesu'r ffordd mae dioddefwyr yn cael eu trin gan: heddluoedd; ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron; Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlThEM); a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Er nad oes gan GLlThEM ei arolygiaeth benodol ei hun, mae gan yr arolygiaethau presennol y pŵer i arolygu GLlThEM i'r graddau y gallai Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi – sydd wedi cael ei diddymu erbyn hyn – ac felly bydd GLlThEM yn cael ei gynnwys yn y cydarolygiadau rheolaidd hyn. Bydd hyn yn sicrhau bod GLlThEM, fel darparwr allweddol gwasanaethau i ddioddefwyr, yn cael ei arolygu'n rheolaidd. Ni fydd gan yr arolygiaethau y grym i arolygu unigolion sy'n gwneud penderfyniadau barnwrol neu'n arfer disgresiwn barnwrol, oherwydd byddai hyn yn anghydnaws â sefyllfa gyfansoddiadol unigryw'r farnwriaeth.

Byddwn hefyd yn gwneud rhagor o newidiadau fel rhan o becyn ehangach o waith, a thu hwnt i'r Bil Dioddefwyr.

**Byddwn yn gweithio gydag arolygiaethau i gynyddu'r pwyslais ar brofiadau dioddefwyr mewn arolygiadau craidd.**

Mae'r arolygiaethau cyfiawnder troseddol hefyd yn cynnal asesiadau ar wahân o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr asiantaethau unigol maen nhw'n eu goruchwylio, gan gynnwys heddluoedd unigol, ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron, gwasanaethau prawf a charchardai.

Byddwn yn gweithio gyda'r arolygiaethau i ystyried sut gallant roi mwy o bwyslais ar brofiadau dioddefwyr yn eu fframweithiau asesu ar gyfer asiantaethau unigol, gan gynnwys ymgysylltu mwy â dioddefwyr mewn ffordd uniongyrchol yn ystod arolygiad. Nod hyn fydd sicrhau bod profiadau dioddefwyr ym mhob asiantaeth ac ardal yn cael eu hasesu'n drylwyr, sy'n golygu na fydd problemau mewn asiantaethau unigol yn llithro drwy'r rhwyd, a bod modd mynd i'r afael â nhw i wella perfformiad.

**Byddwn yn gweithio gyda'r arolygiaethau i ddatblygu sgoriau ar gyfer asiantaethau ar sail y ffordd maen nhw'n trin dioddefwyr.**

Mae'r arolygiaethau cyfiawnder troseddol yn defnyddio eu methodoleg unigol eu hunain i asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd asiantaethau cyfiawnder troseddol.

Ar hyn o bryd, mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi yn adrodd ar ansawdd y gwasanaeth y mae pob heddlu a gwasanaeth tân yn ei ddarparu i ddioddefwyr, ac yn rhoi gradd i elfennau perfformiad allweddol. Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi hefyd yn defnyddio sgoriau, ond nid yw'n rhoi sgoriau ar y ffordd mae gwasanaethau prawf yn rhyngweithio â dioddefwyr.

Yn ôl yr ymatebion i'r ymgynghoriad, dylid cael dulliau mwy safonol a chyson o oruchwylio a chymell asiantaethau. Ar ôl edrych yn fanwl ar arferion mewn sectorau eraill, byddwn yn gweithio gyda'r arolygiaethau ac ar draws y llywodraeth i weld sut gallai system sgoriau weithio ar gyfer y sector hwn. Mae'r manylion eto i'w datblygu, a bydd yn bwysig i ni weithio'n agos gyda'r arolygiaethau er mwyn gallu sicrhau bod y cynigion yn ymarferol ac yn bosibl. Gellir cytuno ar hyn y tu hwnt i ddeddfwriaeth (er enghraifft drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth), fel y gwelir gyda'r ffordd mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn defnyddio sgoriau ar hyn o bryd.

Bydd hyn yn cymell asiantaethau i wella eu perfformiad. Bydd hefyd yn gwella tryloywder ac yn golygu ei bod yn hawdd cymharu asiantaethau a rhanbarthau.

**Byddwn yn gweithio gydag arolygiaethau i sicrhau bod prosesau ar waith ar gyfer asiantaethau sy'n cael sgoriau gwael gan yr arolygiaethau.**

Mae sectorau eraill fel addysg ac iechyd yn defnyddio prosesau penodol ar gyfer gwasanaethau sy'n perfformio'n wael. Unwaith eto, mae'r arolygiaethau'n defnyddio eu methodoleg eu hunain i ymateb i arolygiadau lle gwelwyd diffygion sylweddol a phan nad ydyn nhw wedi cael sylw. Er enghraifft, mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi yn defnyddio'r cam "Ymgysylltu" mewn proses fonitro uwch ar gyfer heddluoedd, lle mae cynllun gwella'n cael ei ddatblygu a chymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu. Mae gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi broses "Hysbysiad Brys" i roi gwybod yn gyhoeddus i'r Ysgrifennydd Gwladol pan fydd gan yr Arolygiaeth bryderon penodol yn dilyn arolygiad, ac mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol 28 diwrnod i ymateb yn gyhoeddus. Mae gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi hefyd Adolygiadau Annibynnol o Gynnydd i weld a yw argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod llawer o bobl yn teimlo bod angen mecanweithiau monitro cryfach. Felly, byddwn yn gweithio gyda'r arolygiaethau i sicrhau prosesau lle mae asiantaethau nad ydynt yn trin dioddefwyr fel a fynnir yn gorfod datblygu cynlluniau gweithredu cadarn i egluro sut byddan nhw'n gwella yn hyn o beth. Ein bwriad ni yw bod y cynllun gweithredu'n cael ei gyflwyno gerbron y Senedd gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am yr asiantaeth. Bydd cynlluniau gweithredu ar gyfer heddluoedd yn cael eu cyhoeddi gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu perthnasol. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r arolygiaethau i ddatblygu prosesau ar gyfer unrhyw waith dilynol y mae angen ei wneud o ganlyniad i arolygiadau.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r arolygiaethau ar yr holl gynigion uchod i wella pwyslais yr arolygiaethau ar ddioddefwyr. Byddwn hefyd yn ystyried yr adborth a gafwyd am y broses weithredu yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys ystyried gwahanol swyddogaethau a methodolegau.

## Cynnwys llais dioddefwyr yn y broses cyfiawnder troseddol

I sicrhau bod dioddefwyr wrth galon y system cyfiawnder troseddol a'n bod yn dal i wella profiad dioddefwyr, mae angen i ni wella'r ffordd rydym yn defnyddio data ynghylch profiadau dioddefwyr. Ar hyn o bryd mae'r dull o gasglu data am y ffordd mae dioddefwyr yn cael eu trin, ac am ymwybyddiaeth o'r Cod a chamau i'w orfodi, yn un tameidiog. Rydym am ddefnyddio lleisiau dioddefwyr i ddod o hyd i broblemau ac i wella perfformiad ym mhob rhan o'r system, er mwyn sicrhau bod profiadau dioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol yn gwella drwy'r amser. Gwyddom fod arferion da eisoes ar waith, ond mae angen iddyn nhw ddod yn arferol.

**Dyma ddywedoch chi:**

**Gofynnwyd sut byddai asiantaethau cyfiawnder troseddol yn gallu cynnwys lleisiau dioddefwyr yn well.** Roedd yr ymatebion yn pwysleisio pwysigrwydd casglu data am brofiadau ac argraffiadau dioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol. Cafwyd amrywiaeth o awgrymiadau gan 177 o ymatebwyr. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys:

- 112 o awgrymiadau (gan 63% o'r ymatebwyr) i asiantaethau cyfiawnder troseddol roi mwy o bwyslais ar ddioddefwyr. Yn benodol, roedd 45 o awgrymiadau (a wnaed gan 25% o'r ymatebwyr) yn argymell cynnal mwy o asesiadau o anghenion a darparu mwy o wasanaethau wedi'u teilwra gydag, er enghraifft, mwy o bwyslais ar anghenion a phrofiadau plant a dioddefwyr ifanc, gwasanaethau mwy cynhwysol a hygyrch sy'n cynnig darpariaeth ar gyfer gwahanol fathau o ddioddefwyr, sgiliau mwy amrywiol ymysg staff, a dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma.
- 36 o awgrymiadau (gan 20% o'r ymatebwyr) yn galw ar asiantaethau i wneud mwy i ddeall anghenion a phrofiadau dioddefwyr ac, er enghraifft, i wneud mwy o ymchwil, i adolygu profiadau ac anghenion dioddefwyr yn ddi-dor, ac i wella'r broses o gasglu, rhannu ac adrodd ar ddata dioddefwyr. Roedd y cynigion eraill ynghylch sut mae gwneud i asiantaethau cyfiawnder troseddol roi mwy o bwyslais ar ddioddefwyr yn cynnwys creu prosesau adborth a chwyno, a defnyddio mwy ar Ddatganiadau Personol y Dioddefwr.
- 54 o awgrymiadau (gan 31% o'r ymatebwyr) am newidiadau sefydliadol. Roedd hyn yn cynnwys rhoi mwy o rôl i eiriolwyr, creu fforymau annibynnol sy'n hwylus i ddioddefwyr, a chynnwys dioddefwyr yn y gwaith o gynllunio a darparu cymorth.
- 51 o awgrymiadau (gan 29% o'r ymatebwyr) am ddarparu gwybodaeth a chyfathrebu'n well. Er enghraifft, gwella'r prosesau cyfathrebu rhwng dioddefwyr a sefydliadau, sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael i ddioddefwyr a'i bod yn fwy hygyrch, a rhoi mwy o bwyslais ar wrando ar ddioddefwyr.

**Cafwyd llawer o awgrymiadau gan 120 o ymatebwyr am y math o ddata y dylai asiantaethau ei gasglu am brofiadau dioddefwyr:**

- Y syniad mwyaf cyffredin oedd casglu data ar brofiadau ac argraffiadau dioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol, a'u barn am y system (75 o awgrymiadau, gan 63% o'r

ymatebwyr); data ar ansawdd ac effeithiolrwydd cyffredinol y system cyfiawnder troseddol (38 o awgrymiadau, gan 32% o'r ymatebwyr); data ar ymgysylltu â dioddefwyr yn ystod eu taith drwy'r broses cyfiawnder troseddol (23 o awgrymiadau, gan 19% o'r ymatebwyr); a data ar natur a hyd taith y dioddefwr (23 o awgrymiadau, gan 19% o'r ymatebwyr).

- Roedd y farn yn gymysg ynghylch pryd y dylid casglu'r data hwn. Cafwyd 23 o awgrymiadau (gan 19% o'r ymatebwyr) ar gasglu data ar gyfnodau rheolaidd; 17 o awgrymiadau (gan 14% o'r ymatebwyr) yn cynnig adegau penodol; 9 o awgrymiadau (gan 8% o'r ymatebwyr) ar gasglu data ar ddiwedd taith y dioddefwr; ac 8 o awgrymiadau (gan 7% o'r ymatebwyr) ar gasglu data ar ddechrau taith y dioddefwr. Dywedodd y dioddefwyr a ymatebodd i'n hymgynghoriad y dylai fod cyfleoedd i ddioddefwyr roi adborth yn ystod pob rhan o'r broses ac ar ôl y broses, gan gynnwys blynyddoedd yn ddiweddarach ar ôl iddyn nhw bwyso a mesur eu profiad.

**Gan ystyried y pwyntiau a wnaed am hygyrchedd, gofynnwyd sut gallai dioddefwyr roi adborth ar y pryd.** O blith 124 o ymatebwyr, roedd 116 (94%) yn cytuno y dylai dioddefwyr allu rhoi adborth ar y pryd. Roedd 68 o argymhellion (a wnaed gan 55% o'r ymatebwyr) yn pwysleisio casglu adborth ar-lein, er enghraifft arolygon, negeseuon e-bost a fforymau; roedd 63 o argymhellion (a wnaed gan 51% o'r ymatebwyr) yn sôn am gasglu adborth drwy ffôn, er enghraifft negeseuon testun a chyfweliadau ffôn; a 26 o argymhellion (a wnaed gan 21% o'r ymatebwyr) yn tynnu sylw at adborth wyneb yn wyneb, er enghraifft arolygon, cyfweliadau a grwpiau ffocws. Roedd y dioddefwyr roeddem wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw'n pwysleisio ei bod yn rhaid i'r adborth fod yn wirfoddol, a chynnwys yr opsiwn o fod yn ddienw.

**Byddwn ni'n gwneud y pethau hyn:**

Yn dilyn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn deall pwysigrwydd defnyddio adborth dioddefwyr i wella perfformiad ar draws y system cyfiawnder troseddol.

**Byddwn yn gosod dyletswydd ar yr asiantaethau cyfiawnder troseddol perthnasol a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i ystyried adborth dioddefwyr i roi cyd-destun i'r data ar gydymffurfio â'r Cod, ac ychwanegu at y data hwnnw.** Os nad yw'r data hwn eisoes ar gael i'r corff perthnasol, byddai'r ddyletswydd hon yn golygu casglu ac ystyried gwybodaeth am brofiadau a barn dioddefwyr sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Bydd hyn yn rhoi mwy o lais i ddioddefwyr i roi cyd-destun i ddata ar gydymffurfio â'r Cod ac ategu'r data hwnnw, ac i helpu asiantaethau i werthuso a gwella eu gwasanaethau. Gellir defnyddio hyn mewn trafodaethau ochr yn ochr â'r data ar gydymffurfio â'r Cod a drafodir uchod, gan feithrin dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o brofiad dioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol. Wrth ddatblygu'r gofyniad hwn, byddwn yn nodi'r adborth pwysig a ddarparwyd uchod, fel y gofyniad i adborth fod yn wirfoddol.

## Symleiddio prosesau cwyno, a gwneud data cwynion yn fwy tryloyw

Yn sgil y ddeddfwriaeth a'r polisïau a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn, bydd disgwyliadau dioddefwyr o ran cymorth a'r ffordd maen nhw'n cael eu trin o dan y Cod yn cael eu bodloni'n fwy cyson. Fodd bynnag, os bydd pethau'n mynd o'i le, dylai proses gwyno dryloyw a hawdd ei defnyddio fod ar gael, gyda chanlyniadau pendant. Mae prosesau cwyno eisoes ar waith ar draws yr asiantaethau cyfiawnder troseddol. Ar gyfer cwynion yn erbyn yr Heddlu, gall achwynwyr uwchgyfeirio eu mater i'r Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu.

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut gallem symleiddio'r prosesau cwyno ar gyfer dioddefwyr er mwyn eu gwneud yn gyflymach ac yn fwy tryloyw. Roeddem hefyd wedi gofyn beth arall y gellid ei wneud i oruchwylio'r system gwyno'n well, a sut mae mynd ati'n well i ymwreiddio cwynion am y Cod ym mhrosesau gweithredol a rheoli perfformiad asiantaethau.

**Dyma ddywedoch chi:**

**O blith 99 o ymatebwyr, roedd 85 (86%) yn cytuno y dylid symleiddio'r prosesau cwyno i'w gwneud yn fwy tryloyw ac yn haws eu defnyddio i ddioddefwyr.**

Cafwyd nifer o argymhellion gan yr ymatebwyr i symleiddio prosesau cwyno, gan gynnwys:

- 35 o awgrymiadau (gan 35% o'r ymatebwyr) ar wella'r ffordd o ddelio â chwynion, er enghraifft drwy ganiatáu i ddioddefwyr dracio eu cwynion, drwy safoni'r broses rheoli cwynion (er enghraifft, o fewn faint o amser mae'n rhaid ymateb i gŵyn), drwy hyfforddi staff i ddelio'n well â chwynion, a thrwy sicrhau bod dioddefwyr yn ymwybodol o'r canlyniadau posibl a bod ganddyn nhw ddisgwyliadau realistig.
- 24 o awgrymiadau (gan 24% o'r ymatebwyr) ar wneud y broses gwyno'n fwy hygyrch. Ymysg pethau eraill, roedd ymatebwyr yn cynnig ei gwneud yn haws i gyflwyno cwynion, er enghraifft drwy amrywio'r dulliau cwyno (ee, ffôn, ar-lein, wyneb yn wyneb).
- 13 o awgrymiadau (gan 13% o'r ymatebwyr) am yr angen i godi ymwybyddiaeth o'r broses gwyno, a chyfathrebu mwy am y broses.
- 8 o awgrymiadau (gan 9% o'r ymatebwyr) ar wneud y prosesau cwyno'n llai beichus a biwrocrataidd. Roedd hyn yn cynnwys awgrymiadau am brosesau awtomatig a symlach neu ganiatáu i bobl eraill, fel eiriolwyr, gyflwyno cwynion ar ran dioddefwyr.

Dywedodd ymarferwyr roeddem wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw nad oes system gwyno unedig, a bod llawer o ddioddefwyr ddim yn gwybod sut i fynd ati i gyflwyno cwyn i nifer o sefydliadau. Mae'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd yn poeni bod yr angen i gyfeirio cwynion drwy Aelod Seneddol yn cymhlethu'r system ymhellach, a byddai o blaid cael gwared ar yr "hidlydd" yma. Yn ôl dioddefwyr roeddem wedi siarad â nhw

mewn digwyddiadau ymgysylltu, mewn llawer o achosion nid oedd gweithwyr proffesiynol wedi rhoi gwybod iddyn nhw am eu hawl i gwyno. Roedd dioddefwyr o'r farn bod cwyno'n dasg anodd. Hefyd, roedd y dioddefwyr roeddem wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw'n teimlo nad oedd adborth, yn enwedig i'r heddlu, yn cael ei gymryd o ddifrif, ac roedden nhw'n pwysleisio pa mor bwysig oedd gwybod sut byddai adborth yn arwain at welliant. Ychwanegodd y dioddefwyr mai dim ond darlun cyfyngedig o brofiad dioddefwyr a geir wrth gasglu adborth gan asiantaethau Cyfiawnder Troseddol.

**Roedd ymatebwyr yn cytuno ei bod yn rhaid i'r broses o ddelio â chwynion gael ei goruchwylio'n well.** Cafwyd amrywiaeth o argymhellion gan 65 o ymatebwyr ynghylch sut gellid cyflawni hynny, gan gynnwys:

- 25 o awgrymiadau (gan 38% o'r ymatebwyr) ar wneud y broses yn fwy ymatebol ac atebol, 10 o awgrymiadau (gan 15% o'r ymatebwyr) ar sefydlu corff goruchwylio, a 6 o awgrymiadau (gan 9% o'r ymatebwyr) ar bennu'r amseroedd ymateb hiraf.
- Roedd 10 o awgrymiadau (a wnaed gan 15% o'r ymatebwyr) yn cynnig safoni'r broses gwyno.

**Roedd 36 o ymatebwyr yn dadlau y dylai asiantaethau fynd ati'n well i ymwreiddio cwynion yn eu gwaith gweithredol a rheoli perfformiad.**

- Cafwyd 20 o argymhellion ar lefel sefydliadau (gan 56% o'r ymatebwyr). Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio a gwella rhaglenni datblygu sgiliau a hyfforddiant craidd ar y Cod, gwella'r gwasanaeth a roddir i gwsmeriaid, gosod dangosyddion perfformiad allweddol/targedau ac ymwreiddio'r Cod mewn amcanion strategol.
- Cafwyd 14 o argymhellion (gan 39% o'r ymatebwyr) ynghylch newid y system ehangach yr oedd asiantaethau'n gweithredu ynddi. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys rhoi sancsiynau neu gosb am ddiffyg cydymffurfio, sicrhau atebolrwydd statudol, a chyflwyno gofynion perfformiad sylfaenol ar gyfer asiantaethau.

**Byddwn ni'n gwneud y pethau hyn:**

**Fel rhan o'r Bil Dioddefwyr, byddwn yn cael gwared ar yr "hidlydd Aelod Seneddol" ar gyfer dioddefwyr troseddau, a fydd yn galluogi dioddefwyr i uwchgyfeirio cwynion yn uniongyrchol i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd.**

Roedd rhai ymatebion yn awgrymu sefydlu corff goruchwylio i oruchwylio cwynion. Mae gan yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd rôl oruchwylio, ond nid yw dioddefwyr yn ei defnyddio'n aml ar hyn o bryd. Gall yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd ymchwilio i gwynion yn erbyn nifer o endidau'r llywodraeth, gan gynnwys cwynion am sicrhau hawliau o dan y Cod. Ond, ar hyn o bryd mae'n rhaid i bob cwyn o'r fath i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd gael ei chyflwyno drwy Aelod Seneddol.

Byddwn yn cael gwared ar y gofyniad hwn ar gyfer dioddefwyr troseddau drwy'r Bil Dioddefwyr, gan alluogi dioddefwyr i gysylltu'n uniongyrchol â'r Ombwdsmon Seneddol a

Gwasanaeth Iechyd, a chaniatáu iddyn nhw uwchgyfeirio cwynion ar eu pen eu hunain. Bydd cael gwared ar yr "hidlydd Aelod Seneddol" yn eithriad ar gyfer dioddefwyr troseddau, gan fod cysylltu ag Aelod Seneddol i rannu profiad a allai fod yn drawmatig yn fwy tebygol o'u hatal rhag gwneud cwyn. Nid yw hyn yn arwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu cael gwared ar yr hidlydd hwn yn ehangach. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd angen cymorth ar rai achwynwyr – ac efallai y byddan nhw am gael cymorth a chefnogaeth gan Aelod Seneddol. Felly, byddwn hefyd yn caniatáu i achwynwyr uwchgyfeirio eu cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd drwy berson awdurdodedig (rhywun mae'r dioddefwyr wedi gofyn am ei help i uwchgyfeirio eu cwyn), a allai gynnwys Aelod Seneddol.

**Byddwn yn gofyn i'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a GLIThEM roi adroddiad yn flynyddol ar gwynion dioddefwyr.** I wella tryloywder ac atebolrwydd, byddwn yn ymgynghori â'r heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a GLIThEM i drefnu adroddiadau blynyddol ar y cwynion a gyflwynir gan ddioddefwyr, gan gynnwys nifer y cwynion sydd wedi dod i law gan ddioddefwyr a sut maen nhw'n cael eu datrys. Bydd hyn yn ffynhonnell flynyddol o ddata i asiantaethau ei dadansoddi i helpu i benderfynu a oes angen iddyn nhw wneud gwelliannau i'w systemau cwyno, ac i helpu i weld ym mhle mae problemau cyffredin yn codi.

**Byddwn yn gwella'r dulliau o gyfathrebu â dioddefwyr ynghylch cwynion.** Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a GLIThEM i wella a symleiddio eu deunyddiau cyfathrebu i sicrhau bod dioddefwyr yn deall yn well sut gallant wneud cwyn, i bwy y dylent gyflwyno'r gŵyn, a beth allant ei ddisgwyl gan y broses gwyno. Bydd hyn yn helpu dioddefwyr i ddelio â'r system, i fynnu eu hawliau ac i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Hefyd, byddwn yn gweithio gyda'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i sicrhau bod gan eu hunedau gofal tystion a'u hadrannau safonau proffesiynol, ac unedau cyswllt â dioddefwyr bwyntiau cyswllt syml i ddioddefwyr er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn gwybod i bwy y dylent gyflwyno cwyn a sut i wneud hynny. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n well â'i gilydd, a fydd yn galluogi dioddefwyr i symud rhwng y naill asiantaeth a'r llall pan fydd angen, a bod hynny mor syml â phosibl.

# Pennod 3 – Cynorthwyo dioddefwyr troseddau

## Gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr

Rydym eisiau i ddioddefwyr troseddau allu cael gafael ar y cymorth iawn, ar yr adeg iawn, i ymdopi, i ddod at eu hunain, ac i'w galluogi i gynorthwyo ymchwiliadau ac erlyniadau yn well, os ydyn nhw'n dymuno. Mae dioddefwyr yn debygol o brofi amrywiaeth o effeithiau yn dilyn trosedd, ac mae'n bosibl y bydd angen gwasanaethau cyngor, adfer a chymorth arnyn nhw, a allai fod yn feddygol, yn therapiwtig, yn ymarferol a/neu'n emosiynol.

Mae darparu'r gwasanaethau hyn yn golygu bod y rheini sydd wedi dioddef effaith ddinistriol trosedd yn cael cymorth. Mae hefyd yn helpu'r system gyfiawnder i weithredu'n effeithiol, oherwydd os yw dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo'n dda, byddant mewn sefyllfa well i ymgysylltu â'r system.

Roedd ein hymgynghoriad yn holi am y gwasanaethau a roddir i ddioddefwyr ar draws y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol y tu hwnt i lety diogel.[19] Gwyddom nad yw'r ddarpariaeth sydd ar gael yn ddigon i fodloni'r galw am y gwasanaethau hyn, nad yw pob dioddefwr yn gallu cael y cymorth iawn yn ei ardal leol, nad oes cysylltiad trefnus rhwng yr ystod o wasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr, a'i bod yn anodd i ddioddefwyr symud rhwng y naill wasanaeth a'r llall.

Yn ôl yr ymatebion i'r ymgynghoriad byddai mwy o gyllid, a chyllid mwy cynaliadwy, yn help. Rydym eisoes yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn, ac i gryfhau gallu gwasanaethau cymorth i helpu mwy o ddioddefwyr. Ond rydym am fynd ymhellach.

Roeddem wedi ymgynghori ynghylch a allai strwythurau cydweithio mwy ffurfiol helpu i wella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i ddioddefwyr troseddau cyffredin a thrawmatig (cam-drin domestig, trais rhywiol, a mathau eraill o drais difrifol), oherwydd ar hyn o bryd does dim fframwaith na strwythur sy'n dwyn ynghyd yr ystod o gyrff yn y sector cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr y tu hwnt i lety diogel.[20]

Bydd y ddeddfwriaeth hon yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn, a sicrhau bod y broses o gomisiynu gwasanaethau cymorth wedi'i chyd-drefnu'n well. Bydd yn cyd-fynd â'r

---

19 Roeddem wedi disgrifio hyn fel gwasanaethau cymorth yn y gymuned. Ond rydym yn ymwybodol bod cymorth ar gael i ddioddefwyr mewn lleoliadau eraill fel ysbytai, felly rydym wedi defnyddio'r term gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr yn y ddogfen hon, sy'n derm ehangach.

20 Mae fframwaith deddfwriaethol i gomisiynu gwasanaethau llety ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig a'u plant wedi'i amlinellu yn Rhan 4 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021.

ddyletswydd i atal a lleihau trais difrifol,[21] sy'n gofyn am gydweithio rhwng y gwahanol asiantaethau sydd â rôl yn y gwaith o fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n achosi trais difrifol. Bydd dyletswydd i gydweithio wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais difrifol yn hwyluso ystyriaeth gyflawn o beth yw'r gwasanaethau priodol, beth sy'n gallu cael ei wneud yn fwy effeithiol drwy gydweithio, a beth yw'r ffordd orau o dargedu adnoddau i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen fwyaf ar ddioddefwyr.

Mae'r bennod hon yn trafod sut byddwn yn:

- **Cyd-drefnu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr yn well, a'u hystyried mewn ffordd fwy cyfannol** – gan gynnwys cyflwyno dyletswydd statudol ar y cyd ar Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, awdurdodau lleol a chyrff iechyd i gydweithio wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth a ddarperir y tu hwnt i lety diogel.
- **Gwella tryloywder nodau a dulliau gweithredu ar gyfer comisiynu ar lefel leol** – ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi strategaethau comisiynu lleol sy'n seiliedig ar leisiau dioddefwyr ac arbenigedd yn y sector, ystyriaeth o anghenion y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, ac asesiadau perthnasol eraill o anghenion.
- **Mynd i'r afael â materion ehangach er mwyn gwella'r gwasanaethau cymorth sy'n cael eu darparu i ddioddefwyr** – gan gynnwys drwy ddulliau gweithredu a safonau comisiynu cenedlaethol, ac ystyriaeth bellach o ddarpariaeth fwy pwrpasol.
- **Cryfhau'r cyllid ar gyfer gwasanaethau hanfodol ac yn sicrhau bod troseddwyr yn talu mwy** – drwy gynyddu'r Gordal Dioddefwyr, Strategaeth newydd ar gyfer Cyllid Dioddefwyr, a chyflwyno mwy o gyllid a chyllid cynaliadwy sy'n cael ei warantu hyd at 2025.

**Dyma ddywedoch chi:**

*Dyletswyddau deddfwriaethol i gydweithio wrth gomisiynu*

**Roeddem wedi holi am ofynion deddfwriaethol sydd wedi gweithio'n dda i wella'r cydweithio rhwng asiantaethau, ac unrhyw risgiau neu anfanteision posibl i ddyletswyddau o'r fath.**

- Beth sydd wedi gweithio'n dda: roedd yr enghreifftiau hirdymor cadarnhaol yn cynnwys, Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA), Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC), a Byrddau Diogelu.
- Risgiau ac anfanteision posibl: roedd y materion a godwyd yn cynnwys mwy o gymhlethdod a dull mwy biwrocrataidd o gomisiynu; materion cyd-drefnu, gan gynnwys diffyg swyddogaethau a chyfrifoldebau clir; dim digon o gyllid i gyflawni'r ddyletswydd.

Roedd rhai ymatebion, gan gynnwys ymatebion y Comisiynydd Dioddefwyr a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, yn argymell dyletswydd i ddod â chomisiynwyr ynghyd, yn ogystal â dyletswydd i fynnu bod gwasanaethau cymunedol yn cael eu comisiynu.

[21] Adran 8 o Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd (2022)

*Cryfderau’r cyd-destun comisiynu presennol*

**Holwyd am yr hyn sy’n gweithio’n genedlaethol ac yn lleol wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig, trais rhywiol, a mathau eraill o drais difrifol.** Dywedodd 51 o ymatebwyr (gan ddarparu nifer o syniadau) fod hyn yn cynnwys:

- Yr arferion presennol ar gyfer cydgomisiynu a gweithio mewn partneriaeth (21 o awgrymiadau, gan 41% o’r ymatebwyr). I ategu hyn, clywsom gan ymarferwyr mewn digwyddiadau ymgysylltu am enghreifftiau cadarnhaol o rwydweithiau lleol, yn ogystal â chonsortia yn gwneud cais ar y cyd i ddarparu cymorth.
- Ffyrdd y mae'r trefniadau comisiynu presennol yn llwyddo i ystyried blaenoriaethau lleol ac asesu anghenion (12 o awgrymiadau, gan 12% o’r ymatebwyr).
- Ffyrdd o sicrhau cyllid tymor hir ar gyfer gwasanaethau (12 o awgrymiadau, gan 12% o’r ymatebwyr).

Mewn sesiynau ymgysylltu â chomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau, clywsom hefyd am elfennau nad ydynt yn gweithio cystal. Clywsom fod cyllid tymor byr (a phrosesau tendro cyflym sy’n deillio o hynny) yn gallu bod yn niweidiol i wasanaethau, gan ei fod yn cyfrannu at ddiffyg sicrwydd ac felly at golli staff, a bod prosesau tendro cyflym gan gomisiynwyr yn gallu bod yn rhy ffafriol i sefydliadau mawr sydd â digon o adnoddau. Clywsom hefyd nad yw comisiynwyr, heb gymhellion penodol na gofynion na fframweithiau cenedlaethol o’r brig i lawr, o reidrwydd yn gweithio gyda’i gilydd, a bod hynny’n arwain at gomisiynu ar wahân.

*Gwella’r broses o weithio mewn partneriaeth a darparu gwasanaethau i ddioddefwyr mewn ffordd gyfannol*

**Gofynnwyd sut gellir gwella’r broses o weithio mewn partneriaeth wrth gomisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr cam-drin domestig, trais rhywiol, a mathau eraill o drais difrifol, gan gynnwys plant a phobl ifanc sy’n ddioddefwyr.** Roedd 155 o ymatebion perthnasol wedi cyfeirio at wahanol syniadau, gan gynnwys:

- 48 o awgrymiadau (gan 31% o’r ymatebwyr) am gyllid ar y cyd ar gyfer comisiynwyr, a 23 o awgrymiadau (gan 15% o’r ymatebwyr) am fwy o gyllid a chyllid wedi’i glustnodi ar gyfer y gwasanaethau hyn i wella'r cydweithio ar lefel leol. Roedd y comisiynwyr a'r darparwyr gwasanaethau roeddem wedi ymgysylltu’n uniongyrchol â nhw wedi cyfeirio hefyd at yr effaith gadarnhaol mae setliadau cyllid aml-flwyddyn yn gallu ei chael ar gydweithio ar lefel leol, er enghraifft er mwyn caniatáu mwy o amser i feddwl yn strategol, a chysoni cylchoedd cyllid a chontractau.
- 35 o awgrymiadau (gan 23% o’r ymatebwyr) am fwy o ymgysylltu ar draws asiantaethau i hwyluso'r broses o gydgomisiynu. Awgrymodd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu mewn sesiynau ymgysylltu y bydden nhw’n gallu chwarae rôl gryfach fel pont rhwng y llywodraeth genedlaethol a darparwyr lleol, i gydgysylltu prosesau comisiynu cenedlaethol a lleol; awgrymodd comisiynwyr eraill y gallai dulliau gweithredu ar y cyd rhwng darparwyr helpu i gronni adnoddau a rhannu risg ac arbenigedd.

- 25 o awgrymiadau (gan 16% o'r ymatebwyr) am wella'r broses o rannu gwybodaeth, er enghraifft rhwng darparwyr a chomisiynwyr.
- 25 o awgrymiadau (gan 16% o'r ymatebwyr) am gyflwyno dyletswydd i gydgomisiynu neu gomisiynu ar y cyd. Fodd bynnag, roedd y comisiynwyr roeddem wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw wedi cyfeirio at gyfres o heriau sy'n cymhlethu'r broses o gydgomisiynu, gan gynnwys cyfyngiadau cyllid, diffyg capasiti, ac amserlenni a phrosesau comisiynu anghyson.

Argymhellodd y Comisiynydd Dioddefwyr gronfeydd rhanbarthol o arian ar gyfer comisiynu ar y cyd, gyda disgwyliadau ac arweiniad clir i gomisiynwyr. Galwodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol am fwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau, a fframweithiau comisiynu cyson ar draws y llywodraeth. Clywsom alwadau gan sefydliadau eraill am fecanwaith cenedlaethol cadarn ar gyfer goruchwylio, er mwyn dal gwasanaethau'n atebol am ansawdd eu darpariaeth.

*Gwasanaethau bach gan ac ar gyfer y gymuned*

**Gofynnwyd beth allai'r Llywodraeth ei wneud i sicrhau bod comisiynwyr yn defnyddio ac yn ymateb yn ddigonol i arbenigedd sefydliadau bach sydd gan ac ar gyfer y gymuned (hynny yw, sy'n cael eu darparu gan ac ar gyfer y gymuned maen nhw'n ei gwasanaethu) yn unol â'r angen lleol.** O blith 114 o ymatebwyr, roedd 111 yn dadlau y dylai'r Llywodraeth wneud mwy i gynnwys arbenigedd y sefydliadau hyn. Roedd yr ymatebion yn cynnwys nifer o awgrymiadau ynghylch sut gellid cyflawni hyn, gan gynnwys:

- 57 o awgrymiadau (gan 50% o'r ymatebwyr) i'r llywodraeth fynd i'r afael â bylchau mewn cyllid ac adnoddau ynghyd â heriau cysylltiedig sy'n effeithio ar sefydliadau bach sydd gan ac ar gyfer y gymuned.
- 28 o awgrymiadau (gan 25% o'r ymatebwyr) am ganllawiau cenedlaethol a gofynion sylfaenol i gomisiynwyr.
- 26 o awgrymiadau (gan 23% o'r ymatebwyr) am gymhellion ar gyfer cydweithio.
- 25 o awgrymiadau (gan 22% o'r ymatebwyr) am ddatblygu polisïau mwy cynhwysol.
- 25 o awgrymiadau (gan 22% o'r ymatebwyr) i'r llywodraeth gydweithio mwy â gwasanaethau llai.
- 23 o awgrymiadau (gan 20% o'r ymatebwyr) am ymchwil newydd ar gyd-destun gwasanaethau lleol.

**Gofynnwyd hefyd a ddylai trefniadau comisiynu cenedlaethol fod â rhan yn y fframwaith comisiynu ar gyfer sefydliadau bach sydd gan ac ar gyfer y gymuned.** O blith 153 o ymatebwyr, dywedodd 123 (80%) y dylent fod â rhan yn y fframwaith. Roedd y rhesymau'n cynnwys barn y byddai trefniadau comisiynu cenedlaethol yn golygu bod prosesau comisiynu a chaffael yn cael eu gwerthuso a'u monitro'n well, yn gwella cysondeb ar draws gwasanaethau/asiantaethau, ac yn gwneud prosesau comisiynu a chaffael ar lefel leol yn fwy effeithlon. Cynigiodd y Comisiynydd Cam-drin Domestig gyllid wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau arbenigol a chanllawiau comisiynu clir. Mewn

digwyddiadau ymgysylltu, gofynnodd darparwyr llai am ddulliau ariannu neu gomisiynu newydd i'w cynorthwyo, gan ddweud nad ydyn nhw'n teimlo eu bod yn gallu cystadlu yn erbyn sefydliadau cenedlaethol mawr mewn prosesau tendro, ac nad ydyn nhw'n gallu cyrraedd trothwyon comisiynu lleol lle mai'r cyrhaeddiad mwyaf a'r costau isaf yw'r peth pwysicaf. Awgrymodd y darparwyr y byddai polisïau a fframweithiau cynhwysol yn gallu bod yn help.

Roedd 30 o'r ymatebwyr (20%) yn anghytuno. Roedd y rhesymau'n cynnwys y gred bod trefniadau comisiynu cenedlaethol yn gallu bod yn aneffeithlon, ac nad oes gan gomisiynwyr cenedlaethol ddigon o arbenigedd a gwybodaeth leol berthnasol. Cafodd dulliau eraill eu hawgrymu gan y comisiynwyr lleol roeddem wedi ymgysylltu â nhw, er enghraifft darparwyr mawr a bach yn dod at ei gilydd i ddarparu cymorth wedi'i deilwra ac sy'n sensitif yn ddiwylliannol o fewn gwasanaethau ehangach.

**Gofynnwyd hefyd beth allai comisiynwyr lleol ei wneud i wella'r ffordd mae gwasanaethau arbenigol gan ac ar gyfer y gymuned yn cael eu comisiynu ar gyfer eu hardal.** Cafwyd llawer o syniadau gan 229 o ymatebwyr, gan gynnwys:

- 44 o awgrymiadau (gan 21% o'r ymatebwyr) am roi rhagor o gyllid/adnoddau i gomisiynwyr lleol.
- 38 o awgrymiadau (gan 18% o'r ymatebwyr) am fwy o ymchwil a gwaith er mwyn deall yn well beth yw'r arferion gorau wrth gomisiynu'r gwasanaethau hyn.
- 32 o awgrymiadau (gan 15% o'r ymatebwyr) am gydweithio mwy â gwasanaethau bach sydd gan ac ar gyfer y gymuned, mewn gwahanol fforymau ar lefel leol.

*Heriau wrth geisio cael gafael ar gymorth integredig*

**Gofynnwyd pa heriau y mae dioddefwyr yn eu hwynebu wrth geisio cael gafael ar gymorth integredig mewn darpariaethau gan wasanaethau iechyd a'r trydydd sector.** Roedd cyfanswm o 163 o ymatebwyr wedi tynnu sylw at yr heriau canlynol:

- Natur dameidiog y gwasanaethau presennol (61 o awgrymiadau, gan 37% o'r ymatebwyr). Roedd y dioddefwyr roeddem wedi ymgysylltu â nhw hefyd wedi sôn am ddiffyg eglurder a chysondeb wrth symud rhwng gwahanol wasanaethau cymorth. Mewn digwyddiadau ymgysylltu, dywedodd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn arbennig fod diffyg dealltwriaeth o'u rôl fel comisiynwyr yn debygol o fod yn cyfrannu at y broblem hon.
- Ansawdd ac amrywiaeth gwasanaethau (57 o awgrymiadau, gan 35% o'r ymatebwyr), gan gyfeirio at wasanaethau nad ydynt yn cael eu teilwra i anghenion penodol, diffyg hyblygrwydd, hyfforddiant gwael i staff, a phrinder adnoddau.
- Dim digon o gymorth ar gael (55 o awgrymiadau, gan 34% o'r ymatebwyr), gan gyfeirio at amseroedd aros hir. Mewn digwyddiadau ymgysylltu dywedodd y comisiynwyr fod amseroedd aros hir ar gyfer iechyd meddwl, a dywedodd y dioddefwyr fod argaeledd yn amrywio ar sail lleoliad, gallu amrywiol cymorth arbenigol neu o safon, a bod galw mawr a rhestrau aros hir yn gyffredinol.

- Diffyg ymwybyddiaeth ymysg dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol o'r cymorth sydd ar gael (45 o awgrymiadau, gan 28% o'r ymatebwyr).
- Hygyrchedd y cymorth (44 o awgrymiadau, gan 27% o'r ymatebwyr), gan gyfeirio at lythrennedd digidol, er enghraifft, fel rhwystr yn achos gwasanaethau sydd ond ar gael ar-lein, a rhwystrau iaith. Roedd y dioddefwyr roeddem wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw wedi disgrifio'r heriau ymarferol wrth geisio cael gafael ar gymorth, fel angen cludiant neu arian.

**Gofynnwyd pa fesurau ymarferol neu fecanweithiau cyfeirio allai gael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r heriau hyn, a sut bydden nhw'n cael eu rhoi ar waith.** Roedd 11 o'r ymatebwyr (7%) yn cytuno bod gwell systemau cyfeirio yn allweddol. Roedd y syniadau eraill yn cynnwys:

- Gwella'r broses o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth (9 o awgrymiadau, gan 6% o'r ymatebwyr).
- Gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth (7 o awgrymiadau, gan 4% o'r ymatebwyr).
- Sicrhau mwy o gyllid/adnoddau (5 o awgrymiadau, gan 3% o'r ymatebwyr).
- Gwella sgiliau a hyfforddiant staff (5 o awgrymiadau, gan 3% o'r ymatebwyr).

Roedd rhai o'r comisiynwyr roeddem wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw wedi rhannu enghreifftiau cadarnhaol o'r ffordd roedden nhw wedi mynd ati i wneud llwybrau ac atgyfeiriadau'n gliriach – gan gynnwys drwy gonsortia lleol yn rheoli atgyfeiriadau. Roedd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ymateb y Comisiynydd Dioddefwyr, yn galw am fwy o gwnsela a chymorth therapiwtig, mwy o gydgomisiynu ag iechyd, gwell darpariaeth integredig, a gwell llwybrau rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau trais rhywiol.

*Materion trawsbynciol eraill ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr*
Clywsom y themâu canlynol gan randdeiliaid allweddol ac wrth ymgysylltu â dioddefwyr:

- **Profiad o wasanaethau:** roedd y dioddefwyr roeddem wedi ymgysylltu â nhw wedi nodi amrywiadau daearyddol, galw uchel yn gyffredinol, a rhestrau aros hir.
- **Plant a phobl ifanc:** clywsom mewn rhai ymatebion, gan gynnwys ymatebion y Comisiynydd Cam-drin Domestig, y Comisiynydd Dioddefwyr a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, y dylai comisiynwyr wneud mwy i gydnabod anghenion penodol plant a phobl ifanc, a galw am fwy o fuddsoddiad mewn modelau gofal holistaidd.
- **Trais difrifol:** Roedd 16 o'r ymatebion yn cyfeirio at drais difrifol, gan awgrymu bod canolbwyntio ar ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu golygu bod cymorth ar gyfer trawma i ddioddefwyr mathau eraill o drais difrifol yn gallu cael ei wthio i'r cysgod; soniodd eraill am gomisiynu drwy Unedau Lleihau Trais.
- **Gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar:** Soniodd y Comisiynydd Cam-drin Domestig am bwysigrwydd ymyriadau i'r rheini sydd ag ymddygiad problemus, a'r angen i werthuso ymyriadau newid ymddygiad.

**Byddwn ni’n gwneud y pethau hyn:**

**Byddwn yn cyflwyno dyletswydd i gydweithio’n lleol, er mwyn hwyluso gwasanaethau cymorth sy'n fwy cyfannol ac wedi’u cyd-drefnu’n well ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais difrifol.**[22]

Mae gwell cydweithio rhwng asiantaethau'n gallu golygu cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd er mwyn cael cyd-ddealltwriaeth o’r angen lleol a’r ddarpariaeth effeithiol sydd ar gael, a gall greu’r amodau priodol i bartneriaid perthnasol weithredu’n effeithiol ar y cyd yn eu hardaloedd lleol.

Bydd cydweithio rhwng asiantaethau’n arbennig o werthfawr wrth ystyried y ffordd orau o gomisiynu gwasanaethau sy’n cynorthwyo dioddefwyr, gan fod amrywiaeth o grwpiau’n rhan o’r broses. Mae rhai gwasanaethau’n cael eu comisiynu’n genedlaethol,[23] ond mae’r rhan fwyaf yn cael eu comisiynu’n lleol, drwy Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, awdurdodau lleol a chyrff iechyd (Grwpiau Comisiynu Clinigol), sydd i gyd â rhan bwysig i’w chwarae yn yr ardal leol:

- Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn benodol yn comisiynu gwasanaethau i gynorthwyo dioddefwyr a thystion troseddau, gan gynnwys cydgomisiynu Clinigau Atgyfeirio ar gyfer Ymosodiadau Rhywiol gydag NHS England.
- Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am amrywiaeth o wasanaethau lleol, ac mae llawer yn darparu gwasanaethau cymorth penodol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Mae Grwpiau Comisiynu Clinigol (a fydd yn cael eu disodli gan Fyrddau Gofal Integredig o fis Gorffennaf 2022 ymlaen) yn gyfrifol am gynllunio a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer eu hardal leol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, a gofal brys ac mewn argyfwng.

Clywsom am enghreifftiau lle mae cydweithio da’n gwella’r ddarpariaeth leol i ddioddefwyr, gan gynnwys: darpariaeth therapi arbenigol sydd wedi cael ei chomisiynu ar y cyd ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol yn Nottingham; un pwynt mynediad i gael cymorth ar gyfer cam-drin domestig yn Chelmsford; a phroses gyfeirio glir yn Suffolk rhwng comisiynwyr iechyd, yr heddlu, yr awdurdod lleol a darparwyr yn y rhwydwaith lleol.

---

22 Mae'r diffiniadau’n adlewyrchu’r diffiniadau cyfreithiol presennol canlynol: cam-drin domestig fel y mae wedi’i ddiffinio yn adran 1 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021; trais rhywiol sy’n cynnwys y troseddau sydd wedi’u rhestru yn atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, heb gynnwys y drosedd a nodir ym mharagraff 14 yr atodlen honno; a thrais difrifol fel y mae wedi’i ddiffinio gan gymal 13 o Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd

23 Er enghraifft, mae’r Gwasanaeth i Dystion mewn Llysoedd, y Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Lladdiadau, a gwasanaethau drwy’r Gronfa Gymorth ar gyfer Cam-drin Rhywiol a Threisio yn cael eu comisiynu’n uniongyrchol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac mae’r Swyddfa Gartref yn comisiynu rhywfaint o wasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Merched.

Fodd bynnag, roedd yr enghreifftiau hyn yn dibynnu ar arweinwyr lleol penodol, a chlywsom gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu a chomisiynwyr awdurdodau lleol y gallai gofynion statudol neu fframwaith cenedlaethol “o’r brig i lawr” wella'r cyd-drefnu, gan gynnwys ym maes comisiynu iechyd yn benodol. Er i ni glywed am fanteision cydgomisiynu, clywsom hefyd am rwystrau ymarferol wrth geisio cronni adnoddau, ac enghreifftiau o brosesau comisiynu cydgysylltiedig a oedd heb uno cyllidebau’n uniongyrchol.

Bydd rhoi dyletswydd statudol ar y tri grŵp comisiynu lleol hyn yn gosod fframwaith i’w dwyn ynghyd, ac yn hwyluso dull gweithredu lleol mwy cydlynol ar gyfer comisiynu gwasanaethau. Ni fydd hyn yn gosod gofynion newydd ar gyfer comisiynu gwasanaethau – yn hytrach na hynny, bydd yn ei gwneud yn bosibl i ddod â'r prosesau presennol at ei gilydd i osod y sylfeini ar gyfer cymorth a thaith fwy cydgysylltiedig i ddioddefwyr rhwng gwasanaethau. Gallai hefyd leihau’r dyblygu mewn prosesau comisiynu, a’i gwneud yn bosibl i dargedu’r ffordd mae adnoddau’n cael eu defnyddio ar draws y grwpiau.

Bydd yn cyd-fynd â’r newidiadau sydd wedi’u cynllunio drwy Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 a fydd yn newid y ffordd mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu comisiynu, gyda phwyslais o’r newydd ar gydweithio. Bydd y strwythurau gofal integredig newydd yn dod â darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau’r GIG ynghyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill at ei gilydd, i gynllunio gwasanaethau ar y cyd ar gyfer eu poblogaeth. Bydd y ddyletswydd hon yn adeiladu ar hyn er mwyn sefydlu seilwaith i roi pwyslais cydweithredol ar anghenion dioddefwyr yn benodol.

**Byddwn yn gweithio gydag ardaloedd lleol i ddeall pa strwythur partneriaeth lleol allai weithio orau**, gan nodi’r amrywiaeth o fforymau sydd ar waith yn lleol a allai fod yn addas i’w defnyddio, a’r angen i gysoni’r pwyslais penodol hwn â'r gweithgarwch amlasiantaeth cysylltiedig presennol (er enghraifft, gofal integredig, diogelwch cymunedol, diogelu plant ac oedolion, cymorth ar ffurf llety i ddioddefwyr cam-drin domestig, a chyfiawnder troseddol). Bydd rhagor o fanylion yn cael eu datblygu mewn canllawiau statudol ar y mater hwn, ochr yn ochr â materion ymarferol eraill sy’n ymwneud â chyflawni’r ddyletswydd. Er y bydd y ddyletswydd i gydweithio yn ddyletswydd ar y cyd rhwng y tri grŵp cyfrifol, rydym yn disgwyl y bydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn ysgwyddo rôl gynnull i hybu gweithgarwch perthnasol, gan ganiatáu hyblygrwydd lleol ar gyfer yr hyn sy’n gweithio. Byddai hyn yn cyd-fynd â phwyslais comisiynu penodol Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ar gefnogi dioddefwyr troseddau, a’u rôl gynnull ehangach i ddod â phartneriaid at ei gilydd.

**Byddwn yn mynnu bod strategaeth gomisiynu leol yn cael ei chyhoeddi i nodi’r nodau a’r dull gweithredu ar gyfer comisiynu gwasanaethau perthnasol gan bob asiantaeth.**

I sicrhau bod y strategaeth yn ystyried y materion pwysig a glywsom yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, byddwn yn mynnu bod y strategaethau'n seiliedig ar y canlynol:

- Asesiadau perthnasol o anghenion.
- Ystyriaeth benodol o anghenion gwasanaeth dioddefwyr a allai wynebu rhwystrau wrth geisio defnyddio gwasanaethau cymorth cyffredinol, fel plant, dioddefwyr LHDT, dioddefwyr o leiafrifoedd ethnig, dioddefwyr sy'n fyddar neu'n anabl, a dioddefwyr ag anghenion penodol oherwydd eu rhyw.
- Ystyriaeth o'r ddarpariaeth leol a chenedlaethol bresennol.
- Ystyriaeth o leisiau dioddefwyr ac arbenigedd yn y sector.

Rydym hefyd yn bwriadu sefydlu grŵp goruchwylio cenedlaethol i ystyried y strategaethau a gyhoeddwyd, ac i drafod atebion i heriau lleol.

Dim ond yn Lloegr y byddwn ni'n rhoi'r ddyletswydd hon ar waith, er mwyn osgoi gorgyffwrdd â deddfwriaeth debyg yng Nghymru sy'n rhoi dyletswydd ar fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol datganoledig i gydweithio i wella'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015).

**Pwyslais y cydweithio.** Bydd y ddyletswydd yn rhoi pwyslais ar gydweithio ar y ffordd mae gwasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol, cam-drin domestig, a mathau eraill o drais difrifol (sy'n cyd-fynd â'r ddyletswydd i gydweithio i atal a lleihau trais difrifol) yn cael eu comisiynu. Mae effeithiau'r troseddau trawmatig hyn yn ddifrifol, ac mae yna nifer sylweddol o ddioddefwyr bob blwyddyn. Felly, rydym am roi pwyslais manwl ar y ffordd orau o roi cymorth uniongyrchol i'r dioddefwyr hyn. Ni fydd yn cynnwys pwyslais ar wasanaethau llety, gan fod hyn yn dod o dan ddeddfwriaeth ar wahân (Rhan 4 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021).

*Gwaith ehangach*

**Y tu hwnt i ddeddfwriaeth, byddwn yn ystyried ymhellach y ffyrdd gorau o ddarparu gwasanaethau.** Bydd y ddyletswydd i gydweithio yn mynd law yn llaw â gwelliannau ar wahân, gan gynnwys mewn perthynas â chyllid a nodir isod.

**Mwy o gyllid a chyllid cynaliadwy.** Ar draws y llywodraeth y llynedd, darparwyd tua £300 miliwn ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr troseddau gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynyddu'r cyllid ar gyfer cymorth i ddioddefwyr i £185 miliwn erbyn 2024/25, sydd 85% yn fwy na'r cyllid craidd yn 2020/21.

Gan gydnabod pa mor hanfodol yw cyllid cynaliadwy i'r sector cymorth i ddioddefwyr, mae cyfran sylweddol o gyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder – o leiaf £147 miliwn y flwyddyn – wedi'i gwarantu hyd at 2025, yn hytrach na'r system bresennol sy'n cadarnhau'r cyllid yn

flynyddol.[24] Bydd y newid hwn tuag at fodel cyllido tymor hwy – a gyhoeddwyd ym mis Mawrth – yn galluogi elusennau a darparwyr gwasanaethau i gynllunio ar gyfer y dyfodol, i feithrin capasiti, ac i gryfhau eu gallu i helpu hyd yn oed mwy o ddioddefwyr i gael gafael ar gymorth pan fydd angen.

Mae'r rhaglen bresennol o waith NHS England ar gyfer canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol a'r llwybr ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i oroeswyr yn derbyn £45 miliwn (2020/21), sydd wedi mwy na threblu dros y chwe blynedd flaenorol. Bydd cyllid y GIG ar gyfer gwasanaethau ymosodiadau rhywiol a cham-drin domestig yn cynyddu £20 miliwn ymhellach yn ystod y tair blynedd nesaf. Cyhoeddodd cynllun mynd i'r afael â cham-drin domestig 2022 fuddsoddiad o hyd at £7.5 miliwn dros dair blynedd mewn ymyriadau cam-drin domestig mewn lleoliadau gofal iechyd. Bydd hyn yn helpu i wella sgiliau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, ac yn sicrhau eu bod yn gallu adnabod a chyfeirio dioddefwyr a goroeswyr at wasanaethau cymorth yn effeithiol.

**Dulliau gweithredu, metrigau a safonau comisiynu cenedlaethol.** Roedd yr ymatebion yn galw am ganllawiau a safonau comisiynu, yn ogystal â dulliau gweithredu cenedlaethol mwy cydgysylltiedig ar gyfer cyllid. Bydd y Strategaeth newydd ar gyfer Cyllid Dioddefwyr yn cynnig fframwaith i gysoni cyllid yn well ar draws y llywodraeth, ac i gryfhau prosesau comisiynu drwy safonau cenedlaethol a metrigau a chanlyniadau cyson. Bydd y safonau hyn yn llinell sylfaen ar gyfer comisiynu, ac yn ategu'r canllawiau presennol fel 'Violence Against Women and Girls National Statement of Expectations', ac 'Violence Against Women and Girls Commissioning Toolkit'.[25]

**Darpariaeth wedi'i theilwra.**

- Gofynnwyd beth oedd yn gweithio i **blant a phobl ifanc,** a byddwn yn ystyried hyn ymhellach, ochr yn ochr â'r sector i ddeall modelau arferion gorau ar gyfer cymorth cyfannol a hyfforddiant arbenigol.
- Holwyd hefyd am rôl trefniadau comisiynu cenedlaethol er mwyn gallu darparu gwasanaethau'n well i ddioddefwyr **a allai wynebu rhwystrau wrth geisio cael gafael ar gymorth cyffredinol**, gan gynnwys dioddefwyr byddar, anabl, LHDT a dioddefwyr o leiafrifoedd ethnig. Y llynedd, rhoddodd y Llywodraeth dros £2m o gyllid i Comic Relief ar gyfer y "Gronfa Arbenigol" genedlaethol gyntaf a oedd yn canolbwyntio ar feithrin gallu yn y sector gwasanaethau cymorth "gan ac ar gyfer". Ar hyn o bryd, rydym yn

[24] 'Major funding boost for victim services as local criminal justice scorecards published' – GOV.UK (Mawrth 2022) https://www.gov.uk/government/news/major-funding-boost-for-victim-services-as-local-criminal-justice-scorecards-published

[25] 'Violence Against Women and Girls: National Statement of Expectations' – GOV.UK (Mawrth 2022) https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1064571/National_Statement_of_Expectations_2022_Final.pdf
'Violence Against Women and Girls Services: Commissioning Toolkit' – GOV.UK (Mawrth 2022) https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1064572/VAWG_Commissioning_Toolkit_2022_Final.pdf

ystyried y ffordd orau o adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan y gronfa. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyhoeddi ei dogfen ar gynorthwyo dynion sy'n ddioddefwyr yn ddiweddar i ategu Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) 2021 a chynllun mynd i'r afael â cham-drin domestig 2022, sydd i gyd yn amlinellu uchelgais y Llywodraeth i leihau nifer y troseddau hyn a gwella'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr, gan gynnwys dynion a bechgyn.[26]

**Darpariaeth iechyd.** Bydd y ddyletswydd yn helpu gwasanaethau iechyd a gwirfoddol i integreiddio ar lefel leol. Bydd yn adeiladu ar y gofyniad i Fyrddau Gofal Integredig amlinellu unrhyw gamau maen nhw'n bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael ag anghenion penodol dioddefwyr cam-drin (gan gynnwys cam-drin domestig a cham-drin rhywiol), fel rhan o'r blaengynllun pum mlynedd. Bydd hefyd yn adeiladu ar Bartneriaethau Gofal Integredig, a fydd yn dod â chynrychiolwyr o feysydd iechyd, gofal cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd at ei gilydd. Byddan nhw'n datblygu strategaeth gofal integredig i fynd i'r afael ag anghenion iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol ac iechyd eu cymunedau lleol y bydd angen i'r Bwrdd Gofal Integredig eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.

Mae'r GIG bob amser yn chwilio am gyfleoedd i wella gwasanaethau iechyd i ddioddefwyr. Roedd Cynllun Hirdymor y GIG yn amlinellu ei uchelgais i ehangu'r gwasanaethau a ddarperir i sicrhau bod pobl sydd wedi goroesi ymosodiad rhywiol yn cael cynnig cymorth therapiwtig integredig ar gyfer iechyd meddwl, ac mae'n darparu gwasanaethau cymorth uwch i ddioddefwyr ymosodiadau rhywiol a cham-drin sydd ag anghenion iechyd meddwl cymhleth sy'n gysylltiedig â thrawma.

**Darpariaeth i newid ymddygiad troseddwyr.** Clywsom am bwysigrwydd gwaith ehangach i fynd i'r afael â throseddu a lleihau troseddu, gan gynnwys gweithio gyda throseddwyr i newid eu hymddygiad. Er y bydd y Bil Dioddefwyr yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau i roi cymorth uniongyrchol i ddioddefwyr ymdopi a dod at eu hunain, mae gwaith ar wahân yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddwyr cam-drin domestig.

Er enghraifft, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Swyddfa Gartref wedi dyfarnu dros £25 miliwn i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu i sicrhau bod mwy o ymyriadau ar gael yn eu hardaloedd ar gyfer troseddwyr, a disgwylir y bydd gwerthusiadau o brosiectau'n cael eu cyhoeddi eleni. Mae £75 miliwn arall dros dair blynedd wedi cael ei glustnodi yn y Cynllun Cam-drin Domestig ar gyfer ymyriadau i droseddwyr, gwerthusiadau ac ymchwil bellach i wella ein gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio i leihau aildroseddu. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi hefyd yn darparu pob math o ymyriadau achrededig i fynd i'r afael ag anghenion troseddwyr a gafwyd yn euog o amrywiaeth o droseddau, gan

26 Supporting Male Victims (Mawrth 2022) https://www.gov.uk/government/publications/supporting-male-victims

gynnwys troseddau trais domestig, fel rhan o'i ymrwymiad i leihau aildroseddu ac i warchod y cyhoedd.

## Cynyddu'r Gordal Dioddefwyr

Mae'r galw am wasanaethau cymorth i ddioddefwyr wedi parhau i gynyddu. Dyna pam rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod dioddefwyr yn dal yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.

I ddiogelu'r cyllid ar gyfer y gwasanaethau hanfodol hyn yn y dyfodol a sicrhau bod troseddwyr yn talu mwy tuag at wasanaethau cymorth i ddioddefwyr, roeddem wedi ymgynghori ar gynyddu'r Gordal (sef "y Gordal Dioddefwyr" fel mae'n cael ei alw'n aml). Ffi y mae'r llys yn ei chodi ar droseddwyr ydy'r Gordal, i sicrhau bod troseddwyr yn ysgwyddo rhywfaint o gyfrifoldeb tuag at y gost o helpu dioddefwyr a thystion.

Roedd y cynigion yr ymgynghorwyd arnynt yn cynnwys cynyddu'r Gordal ar gyfer dedfrydau drwy gynnydd canrannol cyffredinol, neu gynyddu'r gyfradd sylfaenol a chynyddu'r Gordal ar gyfer dirwyon.[27]

Mae'r incwm sy'n cael ei gasglu drwy'r Gordal yn cael ei glustnodi, ac yn cyfrannu at gyllideb y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr a thystion. Mae'r gyllideb yn ariannu gwasanaethau cymorth lleol a gomisiynir gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ar gyfer dioddefwyr yn eu cymunedau, ac mae hefyd yn ariannu cymorth cenedlaethol. Mae'r cymorth cenedlaethol sy'n cael ei ariannu yn cynnwys:

- canolfannau cymorth treisio ar draws Cymru a Lloegr
- y Gwasanaeth i Dystion mewn Llysoedd
- y Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Lladdiadau

Byddwn yn cynyddu'r Gordal i sicrhau bod troseddwyr yn cyfrannu mwy tuag at gyllid i wasanaethau cymorth i ddioddefwyr. Bydd hefyd yn adeiladu ar yr addewid a wnaeth y llywodraeth hon cyn yr etholiad i gynyddu'r Gordal 25% erbyn 2024/25: cafwyd 5% o gynnydd yn 2020, sy'n golygu bod 20% eto i'w gyflawni.

**Dyma ddywedoch chi:**

**Gofynnwyd a oeddech chi'n cytuno y dylem ystyried cynyddu'r Gordal.** O blith 127 o ymatebwyr:

- roedd 97 o ymatebwyr (76%) yn cytuno, gyda'r rhesymau a roddwyd yn cynnwys y farn y byddai'n helpu i sicrhau atebolrwydd ac yn gymhelliant i beidio â throseddu (22 o'r ymatebion), ac y byddai'n helpu i ariannu gwasanaethau cymorth (34 o'r ymatebion).

[27] Mae'r Gordal ar gyfer dirwyon yn cael ei dalu gan unigolion yn ogystal â sefydliadau, ac yn cael ei gyfrifo fel canran o'r ddirwy gydag isafswm ac uchafswm

Awgrymodd ymatebwyr eraill y byddai cynyddu'r Gordal yn gallu helpu i dalu costau cyfiawnder troseddol a gwneud iawn am chwyddiant.

- doedd 30 o'r ymatebwyr (24%) ddim o blaid cynyddu'r Gordal, gyda'r rhesymau'n cynnwys y farn mai'r Llywodraeth ac arian cyffredinol trethdalwyr ddylai fod yn ariannu gwasanaethau cymorth, pryderon y byddai'r Gordal yn arwain at ganlyniadau anfwriadol, a phrinder data i ddangos effaith y Gordal a'r hyn mae'n ei ariannu ar hyn o bryd.

**Gofynnwyd a ddylem ystyried cynnydd canrannol cyffredinol:**

- O blith 49 o ymatebwyr, roedd 33 (67%) yn cytuno â chynnydd canrannol cyffredinol yn y Gordal, gyda 10 o'r ymatebion yn benodol o blaid 20% o gynnydd a 5 o blaid 50% o gynnydd. Awgrymwyd dro ar ôl tro y dylai'r Gordal ddibynnu ar y drosedd a'i heffaith, a bod yn seiliedig ar brawf modd.

Gofynnwyd a ddylem gynyddu'r gyfradd sylfaenol. O blith 63 o ymatebwyr,

- roedd 35 o'r ymatebwyr (56%) yn cytuno; ac
- roedd 28 o'r ymatebwyr (44%) yn anghytuno.

O blith y rheini oedd yn cytuno, awgrymodd pump o'r ymatebwyr gyfradd sylfaenol o £100, ac awgrymodd pedwar o'r ymatebwyr gyfradd sylfaenol o £1,000.

Yn olaf, gofynnwyd a ddylem adolygu'r Gordal ar gyfer dirwyon. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r Llywodraeth adolygu'r Gordal ar gyfer dirwyon, gydag ymatebwyr yn awgrymu – ymysg pethau eraill – y dylai hefyd fod yn seiliedig ar brawf modd ac yn ddibynnol ar y drosedd.

**Byddwn ni'n gwneud y pethau hyn:**

**Byddwn yn cynyddu'r Gordal er mwyn cyflawni'r ymrwymiad a wnaed cyn yr etholiad i gynyddu'r Gordal 25% erbyn 2024. Bydd hyn yn creu incwm ychwanegol o hyd at £20m y flwyddyn erbyn 2024/25, a byddwn yn cyflwyno'r cynnydd drwy is-ddeddfwriaeth cyn gynted â phosibl.**

Ar ôl cyflwyno cynnydd cychwynnol o 5% yn 2020, byddwn ni'n awr yn cynyddu'r Gordal 20% ar gyfer pob cyfradd, ar wahân i'r rheini sy'n cael eu talu ochr yn ochr â dirwy. I sicrhau bod y Gordal sy'n cael ei dalu yn dal yn gymesur â'r math o ddedfryd, ni fyddwn yn cynyddu'r gyfradd sylfaenol i £100.

Ar gyfer Gordaliadau a roddir ochr yn ochr â dirwy, byddwn yn cael gwared ar yr isafswm o £34. Bydd y ganran i'w thalu yn cynyddu, o 10% o'r ddirwy i 40% o'r ddirwy, a bydd yr uchafswm yn cynyddu i £2,000 o'r cap presennol, sef £190. Bydd cynyddu'r uchafswm yn help gyda'r dirwyon uwch y mae sefydliadau'n eu derbyn.

Codwyd pryderon ynghylch gallu troseddwyr i dalu. Fodd bynnag, mae'n bosibl rhannu taliadau Gordal yn rhandaliadau bach a goramser â thâl a, phan fydd troseddwr yn gorfod

talu gorchymyn iawndal troseddol ond yn methu fforddio talu'r gorchymyn iawndal a'r Gordal, rhoddir blaenoriaeth i'r gorchymyn iawndal a bydd y Gordal yn cael ei newid i sero.

Yn olaf, rydym yn cydnabod y pryderon am y Gordal a'r angen am ragor o ddata a thystiolaeth. Rydym yn ystyried sut i wella tryloywder, yn benodol o ran effaith y Gordal.

**Iawndal i ddioddefwyr.** Clywsom gan ymatebwyr a oedd eisiau i ddioddefwyr gael mwy o iawndal am golled ariannol roedden nhw wedi'i hwynebu o ganlyniad i'r drosedd. Mae'r arian sy'n cael ei godi drwy'r Gordal yn cael ei glustnodi i ariannu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr mewn nifer o wahanol feysydd ar lefelau cenedlaethol a lleol.

Fodd bynnag, mae yna fathau eraill o iawndal y mae dioddefwyr yn ei dderbyn yn uniongyrchol:

- Mae Gorchmynion Iawndal Troseddol yn cael eu talu i'r dioddefwr gan y troseddwr, ac maen nhw'n gallu cael eu pennu gan y llys mewn achosion sy'n ymwneud ag anaf personol, colled neu ddifrod yn sgil y drosedd. Wrth benderfynu ar y swm i'w bennu, bydd y llys yn ystyried amgylchiadau ariannol y troseddwr.
- Mae'r Cynllun Iawndal am Anafiadau Troseddol – sy'n cael ei ariannu gan y Llywodraeth – yn cydnabod, drwy iawndal, y niwed i ddioddefwyr sydd wedi cael eu hanafu'n ddifrifol oherwydd troseddau treisgar, gan gynnwys ymosodiadau corfforol a rhywiol yn ogystal ag ymosodiadau terfysgol domestig. Rydym wedi ymgynghori ar ddiwygiadau i'r cynllun hwn ar wahân, a byddwn yn cyhoeddi ymateb ffurfiol maes o law.

# Pennod 4 – Gwella'r cymorth eirioli

Mae eiriolwyr[28] yn hanfodol i'r maes cymorth i ddioddefwyr, i helpu dioddefwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac i aros yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol, ac i gyd-drefnu rhwng dioddefwyr ac asiantaethau, fel yr heddlu, tai ac iechyd. Mae'r Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a'r Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn allweddol i ddarparu cymorth o'r fath, ac mae'r galw amdanyn nhw wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi arwain at fwy o gyllid gan y llywodraeth. Yn 2021/22 darparodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder £27m o gyllid wedi'i glustnodi i gefnogi 700 o swyddi Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig. Fel y cyhoeddwyd yng Nghyllideb yr Hydref, rydym yn buddsoddi rhagor mewn gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr, gan gynyddu'r cyllid i £185 miliwn erbyn 2024/25, a fydd yn cynnwys cynyddu nifer y Cynghorwyr rydym yn eu hariannu i dros 1,000.

Mae rolau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn wahanol i'w gilydd, ac er bod tebygrwydd o bosibl, mae pob rôl yn darparu arbenigedd a gofynion gwahanol i gynorthwyo dioddefwyr. Mae effaith gadarnhaol y Cynghorwyr hyn ar ymgysylltu â dioddefwyr i'w gweld yn amlwg, gydag ymchwil yn dod i'r casgliad bod 93% o ddioddefwyr sydd wedi cael eu treisio a gafodd gymorth gan Gynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol neu wasanaeth cymorth arall wedi rhoi gwybod i'r heddlu am y drosedd, wrth gymharu â dim ond 54% oedd heb gael y cymorth hwn.[29] Mae lefelau boddhad dioddefwyr â'r rolau hyn hefyd yn uchel, yn ail dim ond i seicolegwyr / cwnselwyr hyfforddedig.[30]

Drwy'r Bil Dioddefwyr, rydym yn bwriadu mynd i'r afael â rhai o'r heriau cyffredin sy'n wynebu'r Cynghorwyr hyn. Yn ystod yr ymgynghoriad, gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut gallai ymyrraeth y llywodraeth gynyddu ymwybyddiaeth a chysondeb, lleihau dyblygu ar

---

[28] Mae nifer o wahanol fathau o eiriolwyr dioddefwyr, ond bydd pob un ohonynt i raddau helaeth yn darparu rôl ymyrryd mewn argyfwng, gyda'r nod o wella diogelwch a lleihau'r risg i'r dioddefwr. Mae eiriolwyr hefyd yn gweithio i sicrhau bod dioddefwyr yn gallu gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, a'u bod yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau ac asiantaethau, gan gynnwys y system cyfiawnder troseddol. Atodiad 4: Adolygiad Llenyddol - 'National scoping exercise of advocacy services for victims of violence against women and girls' - gov.scot (www.gov.scot)

[29] 'Rape Survivors and the Criminal Justice System' – Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr (Hydref 2020) https://victimscommissioner.org.uk/document/rape-survivors-and-the-criminal-justice-system/ Ffactor cysylltiol yw hwn, yn hytrach nag achosol. Efallai bod goroeswyr yn fwy tebygol o roi gwybod i'r heddlu am fod ganddynt ISVA neu mae'r rheini sy'n rhoi gwybod yn fwy tebygol o gael eu cyfeirio at ISVA

[30] Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched – GOV.UK (Gorffennaf 2021) https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1033934/Tackling_Violence_Against_Women_and_Girls_Strategy_-_July_2021.pdf

draws gwasanaethau, a sicrhau bod eiriolwyr, ochr yn ochr ag asiantaethau eraill, yn cydweithio'n llwyddiannus i ddiwallu anghenion pob dioddefwr.

Clywsom y byddai rhoi Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig ar sail statudol drwy'r Bil Dioddefwyr yn helpu'r sector drwy godi proffil y rolau hyn a dangos eu gwerth i'r llywodraeth. Rydym yn bwriadu gwneud hyn a chyflwyno canllawiau statudol cysylltiedig i wella safonau a phroffesiynoldeb yn gyffredinol.

Rydym hefyd yn cyhoeddi cyfres o fesurau anneddfwriaethol a fydd yn rhan o gynllun tymor hir i weithio ar y cyd â'r sector i gryfhau'r gwasanaethau y mae'r Cynghorwyr hyn yn eu darparu i ddioddefwyr.

Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yw rhai o'r rolau eirioli mwyaf cyffredin ac adnabyddus, ac maen nhw'n cael buddsoddiad sylweddol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Am y rheswm hwn, ynghyd ag ymrwymiad y Llywodraeth i gynorthwyo dioddefwyr trais rhywiol a domestig, byddwn yn canolbwyntio ar y rolau hyn yn y Bil Dioddefwyr. Ond, rydym yn dal wedi ymrwymo i barhau i fonitro rolau eraill sy'n cynnig cymorth ac eiriolaeth er mwyn ystyried sut gall y llywodraeth, os yw'n briodol, roi cymorth pellach i wasanaethau eirioli eraill.

Bydd y Bil Dioddefwyr yn canolbwyntio'n llwyr ar y llysoedd troseddol. Felly, i ymateb i faterion a godwyd ynghylch Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn y llys teulu, byddwn yn ystyried yr argymhellion hyn ochr yn ochr â'n hymateb i'r adroddiad a ddisgwylir cyn bo hir gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig ar y llys teulu.

Mae'r bennod hon yn trafod sut byddwn yn:

- **Defnyddio'r Bil Dioddefwyr i godi ymwybyddiaeth o Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig drwy eu diffinio yn y gyfraith, law yn llaw â llunio canllawiau newydd a fydd yn cael eu dosbarthu'n eang**, er mwyn egluro'n well beth mae'r rolau hyn yn ei wneud, a sut dylai pobl eraill sy'n gweithio gyda'r Cynghorwyr ryngweithio â nhw er mwyn helpu dioddefwyr yn y ffordd orau bosibl.
- **Meithrin mwy o gydweithio rhwng eiriolwyr a'r rheini sy'n gweithio gyda nhw**, drwy greu dyletswydd i eraill ystyried y canllawiau statudol newydd yn briodol.
- **Codi proffil eiriolwyr ac yn gwella tryloywder trefniadau cyllid a chomisiynu drwy becyn ehangach o ddiwygiadau**, gan gynnwys drwy gyflwyno cofrestr – na fydd ar gael i'r cyhoedd – o Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, rhwydwaith ar gyfer darparwyr cymorth, ac adroddiad blynyddol ar ddarpariaeth y Cynghorwyr hyn.

**Dyma ddywedoch chi:**

*Rolau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn y cyd-destun cymorth ehangach*

**Roedd yr ymatebion i’r ymgynghoriad a’r digwyddiadau ymgysylltu wedi pwysleisio rôl bwysig gwasanaethau eirioli yn y rhwydwaith ehangach o gymorth sydd ar gael i ddioddefwyr.** O blith 84 o ymatebwyr, awgrymodd 80 (95%) fod Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn rhan bwysig o’r rhwydwaith o wasanaethau cymorth. Dywedodd 85 o blith 97 (88%) fod yr un peth yn wir am Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at y gwaith pwysig y mae'r Cynghorwyr hyn yn ei wneud gydag asiantaethau i sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth cyfannol ac arbenigol; i sicrhau bod lleisiau dioddefwyr yn cael eu clywed; ac i helpu dioddefwyr i ddelio â’r system cyfiawnder troseddol, pan fydd angen. Roedd yr ymatebwyr hefyd wedi pwysleisio bod y Cynghorwyr yn bwynt cyswllt cyntaf pwysig i lawer o ddioddefwyr, ac yn gweithredu fel Un Pwynt Cyswllt (tymor hir).

Wrth ymgysylltu â dioddefwyr, clywsom fod eu heiriolwr yn gwneud eu siwrnai’n fwy tryloyw ac yn haws. Cafodd hyn ei ategu gan ddarparwyr gwasanaethau a ddywedodd wrthym fod cymorth y Cynghorwyr hyn yn bwysig i lawer o oroeswyr – p’un ai a ydyn nhw'n dewis defnyddio’r system cyfiawnder troseddol ai peidio.

*Heriau sy’n wynebu Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig*

**Yn ogystal â’r manteision a’r gwerth y mae Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn eu cynnig i ddioddefwyr, cynigiodd 133 o ymatebwyr wahanol awgrymiadau am yr heriau mae'r cynghorwyr hyn yn eu hwynebu.** Roedd 56 o awgrymiadau (a wnaed gan 42% o’r ymatebwyr) yn pwysleisio bod prinder o wasanaethau cymorth ar ffurf Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, ac roedd 48 o awgrymiadau (a wnaed gan 36% o’r ymatebwyr) yn tynnu sylw at ddiffyg hygyrchedd.

Hefyd, roedd 48 o awgrymiadau (a wnaed gan 36% o’r ymatebwyr) yn dweud bod diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth dioddefwyr o rôl y Cynghorwyr hyn yn her. Ar ben hynny, dywedodd 28 o awgrymiadau (a wnaed gan 21% o’r ymatebwyr) nad oes digon o adnoddau ar gyfer gwasanaethau, ac roedd 21 o awgrymiadau (a wnaed gan 16% o’r ymatebwyr) yn canolbwyntio ar y prinder o wasanaethau cymorth wedi’u teilwra, gyda gweithwyr rheng flaen hefyd yn awgrymu nad oedd ganddyn nhw ddigon o adnoddau i ymgysylltu’n effeithiol â phob dioddefwr, gan gynnwys dioddefwyr lleiafrifol er enghraifft.

Cynigiodd yr ymatebwyr argymhellion hefyd i fynd i’r afael â’r heriau hyn. Roedd hyn yn cynnwys 85 o awgrymiadau (a wnaed gan 64% o’r ymatebwyr) am fwy o gyllid (tymor hir ac wedi’i glustnodi) a gwell ymwybyddiaeth, ochr yn ochr ag awgrymiadau ar sgiliau a hyfforddiant i eiriolwyr ynghylch sut i weithio gyda dioddefwyr sydd â nodweddion gwarchodedig.

Roedd 46 o blith y 58 o ymatebwyr (79%) yn cytuno y byddai diffinio rolau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn cael effaith gadarnhaol, gyda nifer tebyg yn cytuno ar fanteision diffinio rolau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol. Er i nifer cyfyngedig o ymatebwyr ddweud bod y strwythurau achrediad a chymwysterau presennol yn annog cydweithio, gwell cysondeb ac ansawdd, a rolau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig mwy proffesiynol, cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr hefyd at ddiffygion yn y system bresennol. Roedd y diffygion hyn yn cynnwys diffyg dealltwriaeth ac eglurder, hyfforddiant annigonol, yn ogystal â goblygiadau mawr o ran cost ac amser.

Dywedodd yr ymatebwyr y gallai safonau, canllawiau a chymwysterau mwy cyson helpu sefydliadau a dioddefwyr i ddeall yn well beth yw cylch gwaith y Cynghorwyr hyn, proffesiynoli a gwella cydnabyddiaeth a statws y rolau hyn, gwella llwybrau atgyfeirio, hwyluso gwerthusiadau, a sicrhau bod gwasanaethau'n fwy safonol a chyson. Dywedodd ymatebwyr wrthym hefyd y byddai diffinio'r safonau'n rhoi cyfle i ailasesu cylch gwaith rolau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig i sicrhau eu bod yn addas i'r diben – mae hynny'n cynnwys darparu cymorth mwy cynhwysol sy'n seiliedig ar anghenion.

*Effeithiolrwydd y canllawiau*

**Mynegwyd pryder hefyd am effeithiolrwydd y canllawiau presennol, gan gynnwys Elfennau Hanfodol Rôl Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth.** O blith 52 o ymatebwyr, roedd gan 34 (43%) farn negyddol am y canllawiau, gan ddweud eu bod yn anhygyrch, yn hen ffasiwn ac yn cynnwys gwybodaeth aneglur. Nid oedd rhai ymatebwyr yn ymwybodol o'r canllawiau.

Cyfeiriodd ymatebwyr yn benodol at sut gellid diweddaru'r canllawiau presennol i fod yn fwy defnyddiol, gan gynnwys drwy:

- Sicrhau bod y canllawiau'n fwy hygyrch, a'i bod yn haws cael gafael arnyn nhw.
- Gwneud y canllawiau'n fwy penodol i anghenion gwahanol fathau o ddioddefwyr, a chodi ymwybyddiaeth ymysg asiantaethau eraill o'r canllawiau ac o rolau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig. Cyfeiriodd ymatebwyr eraill hefyd at fanteision cyflwyno safonau ansawdd i gyd-fynd â'r canllawiau.

Fodd bynnag, rydym yn nodi'r pwysigrwydd a godwyd mewn ymatebion y dylai unrhyw welliannau i safonau a chanllawiau ar gyfer y rolau Cynghorwyr barhau i fod yn hyblyg er mwyn gallu dal ati i arloesi a sicrhau eu bod yn dal yn annibynnol.

*Gweithio gydag asiantaethau eraill*

**Clywsom hefyd am yr heriau y mae Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn eu hwynebu wrth weithio gydag asiantaethau eraill.** Soniodd ymatebwyr am y diffyg hyfforddiant, dealltwriaeth, cyfathrebu

ac ymwybyddiaeth o rolau eirioli ymysg asiantaethau eraill fel rhwystr allweddol rhag cydweithio'n effeithiol. Cyfeiriodd eraill at brinder adnoddau a chyfyngiadau o ran rhannu gwybodaeth a data fel heriau. I fynd i'r afael â'r pryderon hyn, awgrymodd nifer o ymatebwyr y byddai codi proffil Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn helpu asiantaethau i gydweithio. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys camau i asiantaethau gyfathrebu'n well â'i gilydd, cynyddu cyllid, gwella hyfforddiant a chanllawiau ynghylch comisiynu ac atebolrwydd, a hwyluso'r gwaith o gasglu a rhannu data rhwng asiantaethau.

Roedd 85 o blith 86 o ymatebwyr (99%) hefyd wedi dweud bod angen i asiantaethau y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol (fel meddygon, ysgolion a gwasanaethau brys) fod yn fwy ymwybodol o ddioddefwyr er mwyn rhyngweithio'n effeithiol â Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a gwasanaethau cymorth eraill.

Roedd y Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a'r Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol roeddem wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw hefyd yn awgrymu y dylai canllawiau fod ar gael i'r asiantaethau eraill y mae'r Cynghorwyr yn gweithio gyda nhw, i sicrhau eu bod yn cydweithio'n effeithiol i ddiwallu anghenion dioddefwyr ac i gyflwyno pwyslais ar ddioddefwyr ar draws asiantaethau. Dywedodd y dioddefwyr roeddem wedi ymgysylltu â nhw fod eiriolwyr yn aml yn cael trafferth cael diweddariadau ac eglurhad gan asiantaethau eraill, a bod hynny wedi cael effaith negyddol ar eu profiad a gwneud i'r dioddefwyr deimlo bod angen i asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill ryngweithio mwy ag eiriolwyr er mwyn darparu'r cymorth angenrheidiol.

*Gweithio gyda phlant a phobl ifanc*

Awgrymodd 71 o blith 79 o ymatebwyr (96%) fod hyfforddiant ar eiriolaeth plant yn wahanol i hyfforddiant ar eiriolaeth oedolion, gan ddadlau bod angen hyfforddiant arbenigol. Eto i gyd, clywsom am heriau a oedd yn unigryw i hyfforddiant ar eiriolaeth plant. Roedd yr heriau hyn yn cynnwys diffyg hyfforddiant penodol (dim digon o gyflenwyr/darparwyr yn cynnig hyn), ynghyd â diffyg cefnogaeth neu gyllid i eiriolwyr allu gwneud hyfforddiant. Cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at rwystrau ehangach rhag gweithio'n effeithiol gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys prinder gwasanaethau eiriolaeth arbenigol a'u diffyg hygyrchedd, yn ogystal â phrinder cyllid a diffyg pwyslais ar ddioddefwyr wrth ddarparu gwasanaethau.

Mewn ymateb i'r heriau hyn, dywedodd 61 o blith 67 o ymatebwyr (91%) y byddai'n ddefnyddiol cael mwy o eglurder ynghylch rolau a swyddogaethau eiriolwyr plant a phobl ifanc. Ymysg pethau eraill, roedd yr ymatebwyr yn awgrymu creu rolau mwy arbenigol a oedd yn canolbwyntio ar droseddau penodol a dioddefwyr y troseddau hynny, er enghraifft. Awgrymodd ymatebwyr hefyd y dylid codi ymwybyddiaeth o'r rolau presennol a chyfathrebu'n well yn eu cylch, gwella llwybrau atgyfeirio ar gyfer plant a phobl ifanc, a gwella'r trefniadau gweithio ar draws asiantaethau.

**Byddwn ni'n gwneud y pethau hyn:**

**Byddwn yn defnyddio'r Bil Dioddefwyr i godi ymwybyddiaeth o Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig drwy eu diffinio yn y gyfraith**, yn gwella cysondeb drwy ganllawiau newydd a fydd yn cael eu dosbarthu'n eang, ac yn sicrhau mwy o gydweithio drwy osod dyletswydd ar y rheini sy'n gweithio gyda'r Cynghorwyr hynny i ystyried y canllawiau. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i ddioddefwyr gael cymorth cyfannol, cydgysylltiedig sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion, ac yn ymateb i'r adborth ynglŷn â'r angen am well gwybodaeth ac ymwybyddiaeth, cyrhaeddiad, sgiliau a hyfforddiant. Ochr yn ochr â mwy o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth, atgyfeirio ac ymgysylltu.

**Bydd canllawiau statudol ar wahân ar gyfer Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn** amlinellu prif swyddogaethau'r rolau hyn, ac yn egluro'r dulliau o ryngweithio a argymhellir ac a ddisgwylir gydag asiantaethau eraill. Bydd y canllawiau hyn yn egluro'r safonau gofynnol disgwyliedig a'r arferion gorau. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod asiantaethau eraill yn fwy ymwybodol o'r Cynghorwyr hyn, eu bod yn cymryd eu rolau fwy o ddifrif, ac yn darparu adnodd defnyddiol a safonol i helpu comisiynwyr i osod safonau pan fyddan nhw'n caffael gwasanaethau'r Cynghorwyr. Drwy'r canllawiau hyn, byddwn hefyd yn amlinellu disgwyliadau ac arferion gorau ar gyfer helpu dioddefwyr sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

**Byddwn yn cynnwys dyletswydd i'r rheini sy'n gweithio gyda Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig i ystyried y canllawiau**, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n codi o ran diffyg ymwybyddiaeth a dryswch asiantaethau eraill ynghylch rolau'r Cynghorwyr hyn.[31]

Bydd y canllawiau a'r ddyletswydd yn cyd-fynd â **diffiniad o Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn y gyfraith**, yn rhoi sylfaen statudol i'r rolau hyn, yn eu cydnabod yn ffurfiol, ac yn gwella'r ffordd mae asiantaethau eraill yn rhyngweithio â nhw. Rydym yn gobeithio y byddan nhw hefyd yn adnodd defnyddiol i gomisiynwyr wrth gaffael gwasanaethau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig. Fodd bynnag, bydd y diffiniadau o'r Cynghorwyr hyn yn diogelu hyblygrwydd ac ystod yr arbenigedd y mae'r Cynghorwyr yn ei ddarparu (fel y rheini sy'n gweithio'n benodol gyda phlant a phobl ifanc),

---

[31] Mae'r asiantaethau allweddol yn cynnwys y canlynol ar hyn o bryd, ond nid yw'r rhestr hon yn gyflawn: pob heddlu yng Nghymru a Lloegr, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Gwasanaeth Erlyn y Goron, staff GLIThEM a'r Farnwriaeth, Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Awdurdodau Lleol, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, ac asiantaethau eraill sydd wedi'u rhestru yn y Cod Dioddefwyr: unedau Gofal Tystion yr Heddlu, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr, y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol, yr Awdurdod Iawndal am Anafiadau Troseddol, Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig, Timau Troseddau Ieuenctid

sy'n arbennig o bwysig ar gyfer gwasanaethau "gan ac ar gyfer" yng nghyswllt y Cynghorwyr hyn.

*Gwaith ehangach*

**Bydd pecyn ehangach o ddiwygiadau'n cryfhau ein cynigion deddfwriaethol**, yn gwella tryloywder ar draws y sector, ac yn dod ag elfennau allweddol at ei gilydd i gydweithio i fynd i'r afael â heriau cyffredin.

**Fel rhan o hyn, byddwn yn datblygu cofrestr o'r holl Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig ar draws Cymru a Lloegr.** Bydd y gofrestr hon yn ceisio nodi lefel hyfforddiant, lleoliad ac arbenigedd y Cynghorwyr hyn, gan ddangos pwy sy'n ariannu eu swyddi. Bydd yn ffordd i wasanaethau cymorth ac asiantaethau eraill gael darlun cliriach o bwy sy'n gweithredu mewn lleoliadau penodol, gan alluogi'r llywodraeth, comisiynwyr a'r sector i ystyried a thargedu adnoddau'n strategol, gan atal bylchau yn y ddarpariaeth i ddioddefwyr a thrwy hynny gynyddu cysondeb a mynediad ar draws y sector.

**I adeiladu ymhellach ar y berthynas rhwng y llywodraeth a'r sector ac i sbarduno gwelliannau ar y cyd, byddwn yn cyflwyno rhwydwaith newydd ar gyfer y llywodraeth, Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, a darparwyr gwasanaethau.** Byddwn yn defnyddio'r fforwm hwn i rannu arferion gorau, i dynnu sylw at faterion sy'n dod i'r amlwg ac i sicrhau bod y rheini sy'n pennu polisïau, comisiynwyr a chyllidwyr bob amser yn deall profiad ymarferwyr rheng flaen. Byddwn hefyd yn ystyried cyflwyno **adroddiad blynyddol** i gefnogi'r rhwydwaith hwn, a fydd yn tynnu sylw at yr enghreifftiau o arferion gorau, canfyddiadau adroddiadau/data diweddar ac unrhyw heriau sy'n dod i'r amlwg yn y sector. Nod adroddiad blynyddol yw gwella tryloywder a hyder y cyhoedd.

**Byddwn yn gweithio gyda'r sector a chomisiynwyr i ddatblygu a gweithredu'r mesurau anneddfwriaethol hirdymor hyn.**

Y tu hwnt i hynny, fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Adolygu Treisio, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu Fframwaith Arferion Gorau ar ddelio ag achosion Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol yn Llys y Goron. Mae hyn yn cefnogi'r uchelgais i gynyddu nifer yr achosion treisio sy'n symud ymlaen drwy'r System Cyfiawnder Troseddol drwy wella profiad dioddefwyr, a thrwy hynny leihau'r nifer sy'n gadael y system cyn cyrraedd diwedd y broses.

Gwyddom fod Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn wynebu heriau penodol wrth weithio gyda'r llysoedd. Bydd y Fframwaith Arferion Gorau, yn ogystal â'r digwyddiadau rhannu gwersi a gynhelir law yn llaw â'r Fframwaith a'n canllawiau ar Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, yn mynd ymhellach i helpu dioddefwyr i allu ymgysylltu â'r system cyfiawnder troseddol.

Mae'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol hefyd wedi cymeradwyo Diwygiad i Reol a fydd yn cydnabod pŵer y llysoedd i roi cyfarwyddiadau ar gynnwys cydymaith tyst yn y broses, fel Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol, tra bydd y tyst yn rhoi tystiolaeth. Er bod hyn eisoes yn cael ei gydnabod fel arfer da, ac yn dangos pwysigrwydd disgresiwn barnwrol, rydym yn gobeithio y bydd amlinellu hyn yn glir hefyd yn helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau y mae Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol yn eu hwynebu ac wedi'u codi wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

E02747295

978-1-5286-3324-6